Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH ARBENNIG** | **EXTRAORDINARY EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN 20 IONAWR 2020 10.00 o'r gloch** | **MONDAY 20 JANUARY 2020 10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI: YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR** (Tudalennau 1 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar Raglen Moderneiddion Ysgolion y Cyngor Sir mewn perthynas ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

**3** **RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI : YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN** (Tudalennau 121 - 234)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar Raglen Moderneiddion Ysgolion y Cyngor Sir mewn perthynas ag Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Ionawr 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Papur Cynnig – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni**<br><br>**Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Rhys H Hughes**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | **Carol Sorahan**<br>**carolsorahan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Bob Parry**<br>**Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Rhesymau:**

Ymateb yw'r adroddiad hwn i gais y Pwyllgor Gwaith ym Mai 2019 i ofyn i swyddogion edrych o'r newydd ar y materion amrywiol mewn perthynas â moderneiddio ysgolion a'r gofynion dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ardal Llangefni a dychwelyd adroddiad priodol i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

Mae swyddogion wedi ystyried opsiynau amgen rhesymol ar gyfer darpariaeth addysg yn ardal Llangefni yn ei chyfanrwydd, ac ar gyfer dalgylch Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn benodol. Daw swyddogion i'r casgliad mai Ysgol Corn Hir newydd gwerth £10 miliwn a gynhigir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd presennol a hirdymor addysg, a sicrhau bod digon o leoedd ysgol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith:**

1. Gymeradwyo'r cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle arall i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir", ac awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau (neu y cyfeirir atynt fel opsiynau amgen rhesymol yn y papur cynnig) fel rhan o'r papur cynnig hwn.

Mae'r papur cynnig yn amlinellu 11 o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer ardal Llangefni, yn ogystal â 13 opsiwn pellach a ystyriwyd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac 11 o opsiynau ar gyfer Ysgol Corn Hir.

Ystyriwyd yr holl opsiynau yn erbyn yr heriau allweddol a adnabuwyd ar gyfer ardal Llangefni a'r ysgolion dan ystyriaeth.

| |
|---|
| Gan fod y cynnig hwn yn ymdrin â'r potensial o gau ysgol wledig (sef Ysgol Bodffordd), mae'r papur cynnig hefyd yn amlinellu'r effaith y byddai cynnig o'r fath yn ei gael ar :<br><br>• Ansawdd a safonau addysg<br>• Y gymuned<br>• Trefniadau teithio i ddisgyblion<br><br>Mae'r papur cynnig yn amlinellu manteision ac anfanteision yr holl opsiynau (opsiynau amgen rhesymol) ac yn dod i'r casgliad mai'r opsiwn a gynhigir, yw'r opsiwn y dylid ymgynghori'n statudol arno. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. Mae'n cadw at ac yn gyson â Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Môn 2018 (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith) a Dogfen Gyflenwi Blynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn). |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – yn rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion Band 'A'. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r cynnig yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg yn rhan o ardal Llangefni ac yn sicrhau bod lleoedd ysgol digonol i gwrdd ag anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn ffit i bwrpas ac yn cwrdd â safonau BREEAM 21$^{ain}$ Ganrif. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd y cynnig yn datblygu adeilad ysgol newydd fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn dod yn "Sefydliad sy'n Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol maes o law a fydd yn eu cefnogi i ddod yn oedolion ifanc sy'n:<br>- uchelgeisiol, yn ddysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau<br>- fentrus, yn gyfranwyr creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | | Bydd y cynnig yn cael ei gyllido 50/50 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen ysgolion 21ain ganrif. Bydd buddsoddiad y Cyngor drwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i gyllido'n rhannol drwy dderbyniadau cyfalaf. Bydd y cynnig yn dileu ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ac yn cyfrannu at arbedion refeniw. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae cydweithrediad a gwybodaeth a dderbyniwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymuned ac Ysgolion wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn / asesiad effaith.<br><br>Bydd y rhanddeiliaid canlynol hefyd yn cael cyfle yn y cyfnod ymgynghori statudol i gyfrannu:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol Lleol<br>• Aelod Cynulliad Lleol<br>• Aelodau Cynulliad Rhanbarthol<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Comisiynydd yr Iaith Gymraeg<br>• Awdurdod Lleol Cyfagos<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Undebau llafur addysgu a staff yn cynrychioli Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir<br>• Cylch Meithrin Bodffordd a Chorn Hir<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Cyngor Sir Ynys Môn – Uwch Swyddogion<br>• Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Swyddog Ieuenctid<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Dim eto, gan mai papur cynnig yw hwn.<br><br>Bydd rhanddeiliaid (Rhieni / Gwarcheidwaid, Aelodau o Staff, Llywodraethwyr Ysgol a phawb sydd â diddordeb), yn cael cyfle yn y cyfnod ymgynghori statudol i gyfrannu'n rhagweithiol a chwarae rhan mewn cytuno ar y ffordd ymlaen. |
| 5 | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff waeth beth eu gallu a'u cefndir.<br>Mae gan y cynnig y cyfle i gryfhau defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr Ysgol Corn Hir newydd. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Arwain (UDA)** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**(gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Mae safon yr offer TGCh megis taflunyddion a byrddau gwyn rhyngweithiol yn isel yn y ddwy ysgol, byddai adeilad newydd yn manteisio o is-adeiledd TGCh o safon, ynghyd ag offer clyweled modern sy'n cwrdd â safonau digidol addysg Llywodraeth Cymru - https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg<br><br>Mae'r offer rhwydwaith yn yr ysgolion hyn wedi ei leoli mewn dosbarthiadau a swyddfeydd sy'n amharu ar staff a disgyblion oherwydd y sŵn a gynhyrchir gan yr offer, byddai adeilad newydd yn cynnig gofod diogel i gartrefu'r offer hwn heb amharu ar ddefnyddwyr yr adeilad.<br><br>Byddai adeilad newydd sydd wedi ei geblo i safon CAT6A yn caniatáu cysylltedd gwell.<br><br>Nid yw'r cyflenwad trydan i'r isadeiledd rhwydwaith yn yr ysgolion na lleoliad y cabinetau yn caniatáu defnydd o offer UPS i sicrhau rhediad y systemau creiddiol os oes toriad yn y cyflenwad trydan. Byddai cabinet priodol mewn storfa yn caniatáu gosod UPS addas yn yr ysgol newydd.<br><br>Byddai disgwyl plethu unrhyw ddatblygiad neu newid yng nghyfansoddiad / strwythur ysgolion i mewn i'r cynllun HWB sydd yn grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn ysgolion.<br><br>O bosib gwelwn arbedion yng nghostau cysylltedd a chaledwedd rhwydwaith mewn sefydliad newydd ond mae'r gwrthwyneb hefyd yn bosib, os oes cynnydd yn y defnydd o dechnolegau newydd oherwydd adnoddau'r adeilad, gwelwn alw am gysylltedd cynt sydd yn gost ychwanegol. |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Ionawr 2020 i ddilyn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Papur Cynnig Ardal Llangefni – Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir<br>Atodiad 1 – Asesiad Effaith |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018<br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith 20/05/2019 |

**‘PAPUR CYNNIG’**

**MODERNEIDDIO YSGOLION**

**ARDAL LLANGEFNI**

**Ionawr 2020**

**Cynnig i:**

**“Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”**

**Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

**CYNNWYS**


CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 3

1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD ........ 5

2. Y CYNNIG ........ 6

3. GYRWYR NEWID ALLWEDDOL ........ 6

4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI ........ 7

5. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI ........ 14

6. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR ........ 27

7. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL BODFFORDD ........ 37

8. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL BODFFORDD ........ 52

9. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CORN HIR ........ 56

10. GWYBODAETH GYLLIDOL ........ 68

11. CASGLIAD ........ 69

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mai 2019 ynglŷn â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, cyfarwyddwyd swyddogion i edrych ar gynhigion o'r newydd, gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) diwygiedig.

Cyflwyna'r papur hwn ddeilliannau'r gwaith. Fe'i defnyddir i ymofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fynd ymlaen â'r broses ymgynghori statudol.

Mae'r gyrwyr newid allweddol a nodir yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys gwella safonau addysg; sicrhau bod adeiladau ysgol yn ffit i bwrpas; gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth; lleihau'r nifer o leoedd gweigion; lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiad yn y gost fesul disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Wrth gymhwyso'r gyrwyr allweddol hyn at ardal Llangefni, gellir dod i'r canlyniad y bydd unrhyw foderneiddiad ysgolion yn mynd i'r afael â'r meini prawf canlynol.

- Mae angen i **safonau** ar draws bob ysgol fod yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod wedi eu categoreiddio'n wyrdd, h.y. ysgol sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth gan wasanaeth gwella ysgolion –GwE.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i Benaethiaid fod gyda amser digyswllt digonol i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth gydag ymrwymiad addysgu yn y dosbarth.
- Mae'n rhaid i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu fydd yn annog pob disgybl i gyflawni ei botensial ar draws bob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â'r galw presennol a rhagolygon niferoedd y dyfodol.Mae hefyd angen lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudedd disgyblion rhwng dalgylchoedd os oes bosib.
- Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig fod yn **gost effeithlon**, h.y. mae angen lleihau costau dydd i ddydd a mynd i'r afael ag unrhyw gostau ôl-groniad cynnal a chadw. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd rhaid cynnal neu wella **darpariaeth cyfrwng Cymraeg.**
- Mae angen cynnal, a lle fo'n bosib, cynyddu **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol.

Ystyriwyd un ar ddeg opsiwn amgen ar gyfer ardal Llangefni. Yr ysgolion a ystyriwyd oedd Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. ( Gweler yr opsiynau yn rhan 5 or ddogfen hon).

Drwy ddadansoddi pob opsiwn amgen yn fanwl, daethpwyd i'r casgliad nad oes datrysiad hyfyw posib ar gyfer ardal gyfan Llangefni. O ganlyniad, rhoddir sylw i ddatrysiad posib ar gyfer dalgylchoedd Bodffordd a Chorn Hir.

Isod, rhestrir yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

- Mae'r ddwy ysgol dros eu capasiti o tua 11% a disgwylir i ragolygon niferoedd gynyddu erbyn Medi 2024. Mae disgyblion hefyd yn symud ar draws y dalgylchoedd, sy'n golygu bod cynllunio darpariaeth yn her.
- Gofod cyfyngedig sydd yn y ddwy ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, yn enwedig i gwrdd â galw'r cyfnod sylfaen.
- Mae peth amrywiad yng nghost fesul disgybl y ddwy ysgol yn 2019/20 (Ysgol Bodffordd - £4,274 ac Ysgol Corn Hir - £3,587). Mae'r cyfartaledd yn y gost fesul disgybl yn Ysgol Bodffordd hefyd yn uwch na chyfartaledd cynradd Môn, sef £3,988.
- Mae ôl-groniad cynnal a chadw yn y ddwy ysgol [Ysgol Bodffordd - £134k, ac Ysgol Corn Hir - £234k]. Nid yw'r ddwy ysgol ond yn cydymffurfio'n rhannol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae gwahaniaeth yn safonau'r ddwy ysgol. Awgryma adroddiadau Estyn bod safonau'n well yn Ysgol Corn Hir. Mae categorïau'r ysgolion hefyd yn wahanol [Ysgol Bodffordd – Melyn (B); Ysgol Corn Hir – Gwyrdd (A) ].
- Mae'r amser a ddarperir i'r Pennaeth ym Modffordd i fynd i'r afael â materion arweinyddiaeth a rheolaeth yn llai na'r ddarpariaeth sydd yng Nghorn Hir.

- Mae Ysgol Bodffordd 3% dros ei chyllideb (2019/20) ac ni fydd yn mynd o'r diffyg tan 31/03/2022 pan ddisgwylir i niferoedd disgyblion gynyddu. Mae Ysgol Corn Hir o fewn ei chyllideb ac mae 3% o'i chyllideb wrth gefn yn 2019/20.
- Mae'r ddwy ysgol yn datblygu gallu disgyblion yn y Gymraeg yn llwyddiannus. Mae angen i unrhyw ysgol newydd yn yr ardal adeiladu ar y sylfaen gadarn hon.

Mae tri ar ddeg opsiwn amgen rhesymol i gau Ysgol Bodffordd ac un ar ddeg opsiwn amgen rhesymol i gau Ysgol Corn Hir wedi'u hystyried a'u dadansoddi yn erbyn y gyrwyr moderneiddio ysgolion allweddol.
Mae pob opsiwn rhesymol arall ar gyfer Ysgol Bodffordd hefyd wedi'i asesu mewn perthynas â'r effaith debygol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio ar gyfer disgyblion.
Mae'r dadansoddiad wedi dangos bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, effaith niwtral ar y gymuned ac effaith negyddol ar drefniadau teithio rhai disgyblion. Arweina hefyd at y casgliad y bydd rhaid i'r Cyngor liniaru effaith cau posibl Ysgol Bodffordd trwy: -

- Weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol, a
- Darparu gwasanaeth bysiau o Fodffordd i safle'r Ysgol Corn Hir newydd yn unol â pholisi cludiant ysgolion yr Awdurdod .

Mae'r dadansoddiad uchod wedi arwain y Cyngor i gyflwyno'r cynnig canlynol i'w ystyried ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i: -

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Isod, nodir manylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd:

| Manylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd | |
|---|---|
| Ystod oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Disgyblion | 360 ( 4-11 oed) |
| Rhif mynediad | 51 |
| Lleoedd Meithrin | 51 |
| Lleoliad | Tir ger Ystâd Bryn Meurig, Llangefni |
| Categori | Cymuned |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau arfaethedig | Cyfleuster Ysgolion 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymuned. |
| Y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect | Tua £9 – 10M wedi ei gyllido 50/50 drwy gyfalaf y Cyngor a rhaglen ysgolion 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. |
| Uned Gofal Plant | Darpariaeth ar gyfer gofal cofleidiol i blant 2-4 oed wedi'i ariannu gan grant o £ 640k gan Lywodraeth Cymru. |

**1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD**

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mai 2019 i ddiddymu penderfyniadau blaenorol ynglŷn â dyfodol addysg yn ardal Llangefni, mae'r papur hwn yn cyflwyno'r opsiynau amgen rhesymol a ystyrir ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, yn arbennig ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

Ers mis Mehefin 2016, mae'r Cyngor wedi cynnal dau ymgynghoriad statudol ar ddyfodol addysg yn ardal Llangefni. Mae cyfanswm o 21 o opsiynau wedi eu hystyried hyd heddiw fel rhan o'r ymgynghoriadau hyn.

Ysgrifennwyd y papur cynnig hwn yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith, gan ofyn am eu penderfyniad i fynd ymlaen â chyfnod ymgynghori statudol ar gyfer y cynnig ai peidio.

1.1 Darpariaeth addysg yn Ardal Llangefni

Mae ardal Llangefni'n cynnwys Ysgol Gyfun Llangefni (uwchradd) a chwe ysgol gynradd sef Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Esceifiog, Ysgol Henblas, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Dywedir yn Strategaeth Addysg yr Awdurdod a gyhoeddwyd Hydref 2018: "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno."

Yng ngoleuni hyn, ni ystyrir Ysgol Esceifiog ymhellach oherwydd ei lleoliad gan ei bod 5.2 milltir oddi wrth Ysgol Corn Hir, 4.3 milltir oddi wrth Ysgol Henblas, 5 milltir oddi wrth Ysgol y Graig ,5.8 milltir oddi wrth Ysgol Bodffordd a 5 milltir oddi wrth Ysgol Talwrn (*ffynhonnell- google maps).*

Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 25 Mawrth 2019 i dynnu Ysgol Henblas o'r cynnig ar gyfer ardal Llangefni, gan y derbyniwyd sicrwydd ynglŷn â gwella safonau a chynnydd mewn niferoedd disgyblion. Felly nid yw Ysgol Henblas yn rhan o'r cynnig hwn.

Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn felly yw'r ysgolion yr ystyrir hwynt ymhellach yn y papur cynnig hwn.

1.2 Cyn cyrraedd y cynnig (Adran 2) i ddilyn, ystyriodd y Cyngor y canlynol:

- Gyrwyr newid (Adran 3)
- Gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni (Adran 4)
- Opsiynau amgen ar gyfer ardal Llangefni (Adran 5)
- Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir (Adran 6)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Bodffordd (Adran 7)
- Rhagdybiaeth yn erbyn cau Ysgol Bodffordd (Adran 8)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Corn Hir (Adran 9)

**Nodwch os gwelwch yn dda- Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau yn y ddogfen yn dod o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2019 (CYBLD).**

## 2. Y CYNNIG

Y cynnig yw:
**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn derbyn holl ddisgyblion Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac yn cwrdd â'r galw a ragwelir ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys darpariaeth feithrin.

Gweler isod fanylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd:

| Manylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd | |
|---|---|
| Ystod Oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd i Ddisgyblion | 360 ( 4-11 oed) |
| Rif Mynediad | 51 |
| Lleoedd Meithrin | 51 |
| Lleoliad | Tir ger Ystâd Bryn Meurig, Llangefni |
| Categori | Cymuned |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau arfaethedig | Cyfleuster Ysgol Gynradd 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymuned. |
| Y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect | Tua £9-10M a ariennir 50/50 gan gyfalaf y Cyngor a rhaglen ysgolion 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. |
| Uned Gofal Plant | Darpariaeth ar gyfer gofal cofleidiol i blant 2-4 oed wedi'i ariannu gan grant o £ 640k gan Lywodraeth Cymru. |

## 3. GYRWYR NEWID ALLWEDDOL

Yn y strategaeth Moderneiddio Ysgolion ddiwygiedig a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn Hydref 2018, amlinellir y gyrwyr allweddol canlynol dros foderneiddio ysgolion:

- Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad.
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Anelu i leihau'r amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cynllunio olyniaeth
- Ehangu'r defnydd o adeiladau ysgolion gan y gymuned
- Cyfleusterau gofal plant a chymunedol i rieni a thrigolion hŷn
- Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Darpariaeth feithrin
- Darpariaeth ôl-16
- Sicrhau bod adeiladau ysgolion addas i bwrpas.

Mae Adran 4 sy'n dilyn, yn cymhwyso'r gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer newid i ardal Llangefni.

## 4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI

Isod, nodir y gyrwyr newid allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni, ar sail y gyrwyr allweddol a nodir yn adran 3:-

1. Safonau
Gwella safonau addysg ar draws ardal Llangefni drwy sicrhau bod bob disgybl yn cyrraedd ei botensial/photensial. Bydd hyn yn cynnwys creu amgylchedd dysgu sy'n hybu llwyddiant i'r plant, staff a'r Pennaeth, gan leihau'r nifer o ddosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn fwy na dwy flynedd a sicrhau fod gan y Pennaeth amser digyswllt digonol i fynd i'r afael â heriau arweinyddiaeth a rheolaeth sy'n gysylltiedig â'r rôl [gweler y gyrrwr nesaf].
2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Gwella capasiti Rheolaeth ac Arweinyddiaeth a mynd i'r afael â chynllunio olyniaeth, drwy sicrhau strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth o'r radd flaenaf yn yr ardal . Hefyd sicrhau bod amser digyswllt digonol a chapasiti ar gael i'r tîm arweinyddiaeth fynd i'r afael â'r heriau strategol a rheolaeth sy'n gysylltiedig â rhedeg ysgolion llwyddiannus.
3. Adeiladau Ysgol
Sicrhau bod yr ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig nawr ac i'r dyfodol i'r holl ddisgyblion ac athrawon a darparu cyfle i bob disgybl gyflawni ei botensial/photensial ar draws bob maes dysgu.
4. Lleoedd yn yr ysgol
Sicrhau bod lleoedd digonol yn yr ardal ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion.
5. Cyllidol
Sicrhau y lleiheir yr amrywiad yn y gost y disgybl a'r gost refeniw sy'n gysylltiedig â rhedeg ysgolion yr ardal, a sicrhau yr eir i'r afael â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.
6. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynnal a gwella darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.
7. Defnydd cymunedol
Cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau'r ysgol (e.e. darpariaeth Feithrin) a darparu gofal plant a chyfleusterau cymunedol i rieni a thrigolion hŷn lle fo'n bosib.
8. Materion Cyffredinol
Mae'r asesiad hefyd wedi cynnwys materion cyffredinol er enghraifft effaith llif y traffig a chaffael safle ac ati.

Trafodir y gyrwyr hyn ar gyfer Ardal Llangefni mewn mwy o fanylder isod. (Adrannau 4.1 - 4.7)

### 4.1 Safonau

#### 4.1.1 Arolygiadau Estyn
Adrodda Estyn ar ansawdd a safonau mewn addysg. Gweler isod wybodaeth o'r arolygiadau Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion ardal Llangefni:

| Ysgol | Bodffordd* | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mehefin 2015 | Mai 2013 | Ionawr 2019 | Hydref 2018 | Mai 2014 |
| Safonau | Digonol | Da | Da | Da | Digonol |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da | Rhagorol | Da | Da | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol | Da & Rhagorol | Da | Da | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | Da | Da | Da | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol | Da | Da | Da | Digonol |

**Graddau Estyn** –
Rhagorol- Nifer o gryfderau, gan gynnwys esiamplau arwyddocaol o arferion sy'n arwain y sector
Da- Nifer o gryfderau ac nid oes unrhyw feysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol
Digonol - Cryfderau'n gorbwyso'r meysydd sydd angen eu gwella
Anfoddhaol– Meysydd sydd angen eu gwella'n gorbwyso'r cryfderau

***NODER** – Dychwelodd Estyn i ymgymryd ag ymweliad monitro ym mis Hydref 2016, a nodir yn yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Bodffordd wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn

ymweliad Estyn yn Hydref 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

****NODER** – Dychwelodd Estyn i ymgymryd ag ymweliad monitro ym mis Hydref 2015, a nodir yn yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gyfun Llangefni wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn adolygiad Estyn yn Hydref 2015. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

Dymuna'r Awdurdod sicrhau bod deiliannau arolygiadau Estyn yn dda neu'n well, h.y. deilliant o Dda neu Ragorol ym mhob categori. Byddai'n rhaid i unrhyw waith moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni gynnal os nad gwella'r agweddau da a rhagorol a nodwyd gan Estyn yn ogystal â mynd i'r afael â'r diffygion a amlinellir uchod.

Disgwylir y bydd angen i'r Ysgol Corn Hir newydd ddarparu'r cwricwlwm cyfan yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

**4.1.2 Categori ysgol**
Mae'r system gategoreiddio ysgolion yn adrodd ar ba mor dda yw perfformiad ysgol. Ystyria hefyd ba mor effeithiol y mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i wella.

Mae'r system yn adnabod yr ysgolion sydd angen y mwyaf o gymorth, cefnogaeth ac arweiniad i wella. Mae hefyd yn adnabod y rheiny sy'n gwneud yn dda ond y gallent fod yn gwneud yn well a'r rhai sy'n effeithiol iawn a gallent gefnogi eraill i wella.

Rhoddir pob ysgol yn un o bedwar categori lliw – gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch.
Mae lliw'r categori'n dangos y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol (ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gefnogaeth a'r rhai yn y categori coch sydd angen y gefnogaeth fwyaf dwys). Bydd bob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth, her ac ymyrraeth wedi ei theilwra yn seiliedig ar y categori hwn gan GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru).

Nodir y categorïau priodol ar gyfer yr ysgolion unigol isod. ( Ffynhonell GwE -Tachwedd 2019)

| Year | Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir | Ysgol Y Graig | Ysgol Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| 2019 | Melyn | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| 2018 | Melyn | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Gwyrdd |
| 2017 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyn |
| 2016 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyn |
| 2015 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyngoch |

Mae'r tabl isod yn esbonio yn fanwl beth yw ystyr pob lliw:

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Ysgolion nad oes angen eu monitro llawer**<br><br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd, ac wedi gosod yr ysgol yn chwarter uchaf y PYD (Pryd Ysgol am Ddim). Patrwm o wella neu gynnal safonau uchel yn gyson yn yr holl ddangosyddion a phynciau.<br><br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn sylweddol uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg ac yn uwch na thargedau awdurdod lleol.<br><br>Gwaharddiadau parhaol yn brin a gwaharddiadau tymor penodol yn isel.<br><br>Hunan arfarnu'n gadarn gyda ffocws clir ar safonau a pherfformiad ac yn rhoi dealltwriaeth fanwl gywir i arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau.<br><br>Strategaethau gwella pendant yn y CGY a thargedau deilliannau mesuradwy. Ffocws parhaus ar fonitro a gwerthuso cynnydd er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targedau hyn yn llwyddiannus.<br><br>Arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i addysgu sy'n cael effaith sylweddol. Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda gyda rhywfaint yn rhagorol. |

| | |
|---|---|
| | Llywodraethwyr yn cymryd rhan effeithiol o ran herio a chefnogi'r ysgol i wneud gwelliannau.<br><br>Dim ymweliad dilynol yn dilyn arolygiad<br><br>Polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u sefydlu [hyfforddiant ar gyfer aelod staff a llywodraethwr dynodedig, staff, gwiriadau CRB fan leiaf]. |
| **Melyn** | **Ysgolion y mae arnynt angen eu monitro a'u cefnogi'n ysgafn**<br><br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd, ac wedi gosod yr ysgol yn hanner uchaf y dosbarthiad PYD(Pryd Ysgol am Ddim). Patrwm o wella neu gynnal safonau da ym mwyafrif y dangosyddion a phynciau.<br><br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf ymhell dros y canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg ac yn cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau awdurdod lleol.<br><br>Gwaharddiadau parhaol yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod a gwaharddiadau tymor penodol yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>Hunan arfarnu'n drwyadl gyda ffocws ar safonau a pherfformiad ac yn rhoi darlun cyffredinol dda i arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau.<br><br>Strategaethau gwella da yn y cynllun gwella ysgol ac mae gan fwyafrif y gweithgareddau a thargedau ddeilliannau mesuradwy.<br><br>Arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod yr addysgu'n effeithiol. Mae ansawdd yr addysgu'n dda.<br><br>Llywodraethwyr yn herio ac yn cefnogi'r ysgol i wneud gwelliannau.<br><br>Monitro gan yr ALl yn dilyn arolygiad<br><br>Polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u sefydlu [hyfforddiant ar gyfer aelod staff a llywodraethwr dynodedig, staff, gwiriadau CRB fan leiaf]. |
| **Melyngoch** | **Ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth a monitro penodol**<br><br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar adegau, ac yn is ar adegau eraill. Perfformiad mewn rhai dangosyddion wedi gosod yr ysgol yn hanner isaf y dosbarthiad PYD( Pryd Ysgol am Ddim). Patrwm amrywiol o wella neu gynnal safonau da. Amrywiaeth mewn perfformiad ar draws pynciau, yn arbennig yn y pynciau craidd.<br><br>Presenoldeb yn is na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Gall presenoldeb ddisgyn yn is na thargedau awdurdod lleol. Mae yna rywfaint o duedd tuag at welliant.<br><br>Gwaharddiadau parhaol yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod ond mae gwaharddiadau tymor penodol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>Nid yw hunan arfarnu wedi'i sefydlu'n gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'n rhoi ffocws digonol ar safonau a pherfformiad ac o ganlyniad, mae dealltwriaeth arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau yn amrywio.<br><br>Mae'r cynllun gwella ysgol yn amlinellu gweithgareddau ar gyfer gwneud gwelliannau mewn meysydd allweddol. Nid oes ffocws i rai o'r strategaethau a gweithgareddau, ac nid ydynt yn heriol. Nid yw'r broses o werthuso cynnydd yn ddigon eglur.<br><br>Nid yw'r arweinwyr yn monitro ansawdd yr addysgu yn systematig a/neu ni weithredir ar y canfyddiadau bob amser er mwyn gwneud gwelliannau mewn pryd. Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n amrywio.<br><br>Mae cefnogaeth y llywodraethwyr yn dda ond nid ydynt yn herio'r ysgol i wneud gwelliannau yn systematig. |

| | |
|---|---|
| | Monitro gan Estyn yn dilyn arolygiad<br><br>Gwendidau yn y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant. |
| **Coch** | Ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth sylweddol<br><br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol is na'r cyfartaledd ac wedi gosod yr ysgol yn chwarter isaf y PYD ( Pryd Ysgol am Ddim)ym mwyafrif y dangosyddion. Tuedd am i lawr neu safonau cyson isel. Amrywiaeth mewn perfformiad ar draws pynciau, yn arbennig yn y pynciau craidd.<br><br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn llawer is na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Presenoldeb yn llawer is na thargedau awdurdod lleol. Nid oes tuedd tuag at welliant.<br><br>Gwaharddiadau parhaol yn uchel ac ar y cyfan, heb eu cefnogi gan yr awdurdod. Gwaharddiadau tymor penodol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>Nid yw'r prosesau hunan arfarnu yn ddigon trwyadl. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a pherfformiad ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn adnabod meysydd i'w gwella yn gywir.<br><br>Nid yw'r camau a/neu'r targedau yn y cynllun gwella ysgol yn ddigon llym na heriol. Nid ydynt yn debygol o arwain at welliannau angenrheidiol.<br><br>Ni chaiff yr addysgu na'r dysgu eu monitro'n gyson nac yn effeithiol. Mae yna rywfaint o addysgu anfoddhaol.<br><br>Ni chaiff y llywodraethwyr fawr o effaith ar gyfeiriad na gwaith yr ysgol a/neu nid ydynt yn ei herio i wneud gwelliannau.<br><br>Gwelliant sylweddol yn dilyn arolygiad.<br><br>Gwendidau yn y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant. |

Disgwylir y byddai unrhyw ysgol newydd yn cael ei chategoreiddio'n wyrdd, e.e Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig.

**4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth-**
Noda'r tabl isod yr ymrwymiad addysgu sydd gan y Pennaeth ym mhob ysgol.

| | Bodffordd | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| % Ymrwymiad addysgu'r Pennaeth | 80% | 0% | 0% | 70% | 0% |

Mae'r tabl uchod yn dangos nad oes gan Benaethiaid yn yr ysgolion cynradd mwyaf nac yn yr ysgol uwchradd unrhyw ymrwymiad addysgu ffurfiol. Yn y ddwy ysgol gynradd leiaf (Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn), mae'r ymrwymiad addysgu'n arwyddocaol gan fod y Penaethiaid yn addysgu am 70-80% o'r amser. Mae'r angen i gydbwyso hyn ag anghenion arweinyddol cyffredinol o ddydd i ddydd yn her fawr. Mae ar Benaethiaid angen amser digonol i fynd i'r afael â'r her arweinyddiaeth a rheolaeth law yn llaw ag unrhyw ymrwymiad addysgu, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

**4.3 Adeiladau Ysgol**
Mae'r tabl isod yn manylu ar y sefyllfa gyfredol ynglŷn â graddau cyflwr yr ysgolion (2019), yr ôl-groniad cynnal a chadw sydd ei angen i godi'r cyflwr i lefel briodol (nid disgwyliadau 21ain ganrif) a'r lefel o gydymffurfiad sydd â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i ddisgyblion anabl.

| | Bodffordd | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| Ôl-groniad cynnal a chadw ( 2019 ) | £134,000 | £234,000 | £48,500 | £360,000 | £3,609,000 |
| Gradd cyflwr* | B | C | A | B | C |
| Y nifer o ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 | Yn rhannol | Yn rhannol | Yn llawn | Yn rhannol | Yn rhannol |
| Gofod digonol i gyflwyno'r cwricwlwm | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Digonol | Cyfyngedig | Digonol |

*Gradd A – Da (Yn perfformio fel y dylai ac yn gweithredu'n effeithlon), Gradd B - Boddhaol (Yn perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad), Gradd C - Gwael (Yn arddangos diffygion mawr ac/neu nid yw'n gweithredu fel y dylai).

Cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw yn y pedair ysgol gynradd yw £776,500, a £3,609,000 yn Ysgol Gyfun Llangefni, sef cyfanswm o £4,385,500. Yr unig ysgol sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant anabl yw Ysgol y Graig. Ar hyn o bryd, un ysgol gynradd yn unig yn ardal Llangefni (Ysgol y Graig) sydd mewn sefyllfa i ddarparu amgylcheddau dysgu o ansawdd i blant gael chwarae tu allan.

Byddai darpariaeth 21ain ganrif wedi ei moderneiddio'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn sicrhau y byddai darpariaeth yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau hygyrchedd Deddf Cydraddoldeb 2010.

**4.4 Lleoedd yn yr ysgol**
Isod, dangosir y nifer presennol o ddisgyblion sydd ar y gofrestr a niferoedd y disgyblion am y pedair blynedd ddiwethaf .Daw'r ffigurau a ddangosir o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2019 ( CYBLD )a gymerir bob mis Ionawr.

| Ysgol | Capasiti | Disgyblion Ion 2015 | Disgyblion Ion 2016 | Disgyblion Ion 2017 | Disgyblion Ion 2018 | Disgyblion Ion 2019 | %Lleoedd gweigion Ion 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gyfun Llangefni | 896 | 737 | 755 | 702 | 670 | 634 | 29% |
| Ysgol | Capasiti-ac eithrio Meithrin | Disgyblion Ion 2015 | Disgyblion Ion 2016 | Disgyblion Ion 2017 | Disgyblion Ion 2018 | Disgyblion Ion 2019 | %Lleoedd gweigion Ion 2019 |
| Bodffordd 3-11 | 63 | 61 | 55 | 68 | 63 | 70 | -11% DC |
| Corn Hir 4-11 | 204 | 200 | 207 | 221 | 224 | 226 | -11% DC |
| Graig 3-11 | 330 | 333 | 333 | 335 | 326 | 339 | -3% DC |
| Talwrn 4-11 | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 | 8% |

Mae'r ffigurau ar gyfer Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Y Graig yn dangos eu bod dros eu capasiti (DC).

Un o'r rhesymau pam fod Ysgol Bodffordd dros gapasiti, ydi fod rhai o ddisgyblion sydd o ddalgylch Ysgol Corn Hir ac Ysgol Y Graig yn mynychu Ysgol Bodffordd. Mae tua 10% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir. Mae tua 13% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

Mae gan Ysgol Talwrn 8% o lefydd gweigion, er bod 18% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac bod 32% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

**Rhagolygon pum mlynedd**

Isod dangosir rhagolygon hyd at 2024.Daw'r ffigyrau o gyfrifiad yr awdurdod sydd yn cael ei gynnal yn flynyddol yn mis Medi.

| | | | Rhagolygon niferoedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Capasiti | Disgyblion Medi 2019 | Medi 2020 | Medi 2021 | Medi 2022 | Medi 2023 | Medi 2024 |
| Gyfun Llangefni 11-18 | 896 | 665 | 655 | 672 | 688 | 719 | 715 |
| Ysgol | Capasiti – heb Meithrin | Disgyblion Medi 2019 | Medi 2020 | Medi 2021 | Medi 2022 | Medi 2023 | Medi 2024 |
| Bodffordd 3-11 | 63 | 69 | 74 | 76 | 77 | 79 | 77 |
| Corn Hir 4-11 | 204 | 230 | 238 | 242 | 242 | 241 | 243 |
| Graig 3-11 | 330 | 324 | 329 | 331 | 326 | 320 | 334 |
| Talwrn 4-11 | 49 | 40 | 47 | 46 | 41 | 39 | 37 |

Mae'r manylion uchod yn dangos nad yw'r ddarpariaeth cynradd bresennol yn ddigonol i gwrdd â'r galw presennol ac y byddai hyn yn parhau ac yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

**Disgyblion sy'n teithio o du allan i'r dalgylch**

Disgwylir i'r Awdurdod gynllunio darpariaeth ysgolion o amgylch y nifer o ddisgyblion sydd yn y dalgylch. Mae cynllunio darpariaeth ysgolion yn anodd oherwydd symudiad plant o du allan i'r dalgylch, e.e. mae'r canran uchel o blant sy'n mynychu o du allan i'r dalgylch yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd yn cuddio'r ffaith nad yw nifer y disgyblion sydd yn nalgylch naturiol yr ysgolion yn ddigon i lenwi'r ysgolion (gweler y tabl isod).

| Ysgol | % y disgyblion o du allan i'r dalgylch Hydref 2019 ( Ffigyrau'r Awdurdod) |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Llangefni | 13% |
| Ysgol Bodffordd | 41% |
| Ysgol Corn Hir | 28% |
| Ysgol Y Graig | 12% |
| Ysgol Talwrn | 67% |

Bydd rhaid i'r ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal sicrhau bod lleoedd ysgol digonol ar gael i gwrdd â'r niferoedd presennol mewn ysgolion a rhagolygon y dyfodol. Hefyd bod y system ysgolion yn yr ardal yn gost effeithlon, h.y. bod ysgolion yn llawn( ble'n bosib gyda disgyblion o'r dalgylch naturiol) a bod y nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos at 30.

**4.5 Cyllidol**
Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant fesul disgybl mewn ysgolion unigol:

| | Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir | Ysgol y Graig | Ysgol Talwrn | Cyfartaledd cynradd Môn | Ysgol Gyfun Llangefni | Cyfartaledd uwchradd Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost y disgybl (2019/20) | £4,274 | £3,586 | £3,429 | £4,553 | £3,988 | £5,233 | £5,039 |
| % prydau ysgol am ddim | 7% | 5% | 27% | 21% | 14.4% | 14% | 13% |
| Sefyllfa cyllidebau'r ysgolion 31/03/2019 | Diffyg 3% o gyllideb yr ysgol | 3% o gyllideb yr ysgol yn weddill | Diffyg 3% o gyllideb yr ysgol | 13% o gyllideb yr ysgol yn weddill | 4% o gyllideb yr ysgol yn weddill | Diffyg 2% o gyllideb yr ysgol | Diffyg 1% o gyllideb yr ysgol |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod amrywiad o £ 1,124 y disgybl rhwng y pedair ysgol gynradd ac amrywiad o £ 194 rhwng Ysgol Gyfun Llangefni a'r cyfartaledd uwchradd .Mae'r gwahaniaeth yn y gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac nid yw'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Gellir dadlau bod yr ysgolion lleiaf yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol i gynnal y lefel leiafsymiol o staffio a bod yr ysgolion mwyaf yn colli allan o ganlyniad.

Dengys hefyd bod cyllidebau ysgolion dan bwysau, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd mwyaf. Mae hyn yn amlygu'r angen i leihau cost gyffredinol addysg drwy leihau cyfanswm y gwariant fesul disgybl.
Hon yw'r sefyllfa ar draws yr Ynys.

**4.6 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**
Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r holl ysgolion dan ystyriaeth yn ardal Llangefni, a bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

**4.7 Defnydd cymunedol**
Ysgolion cymunedol yw holl ysgolion ardal Llangefni, a bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol. Nid yw'r ysgolion dan sylw yn amodol ar unrhyw ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaeth elusennol.

**4.8 Casgliadau sy'n deillio o'r gyrwyr newid allweddol ar gyfer ardal Llangefni**
- Er bod y safonau'n gyffredinol dda yn ardal Llangefni, mae angen sicrhau gwelliant parhaus.
- Mae amrywiad sylweddol yn y gost y disgybl ar draws yr ysgolion a nodir uchod. Mae'r gost y disgybl yn yr ardal hefyd angen ei lleihau.
- Mae ysgolion yn ardal Llangefni yn gweithredu gyda chyllideb ddiffygiol neu gyda chronfeydd dros ben sy'n gostwng.
- Nid oes digon o leoedd yn ysgolion ardal Llangefni. Mae dwy ysgol mwy na 10% dros eu capasiti. Yn ogystal â hyn, yn nwy o'r ysgolion mae dros 25% o'r disgyblion yn mynychu o du allan i'r dalgylch. Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â hyn.
- Un ysgol yn unig sydd gan radd "A" o ran cyflwr adeilad presennol. Mae cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer bob ysgol yn fwy na £4m ac nid oes gan yr Awdurdod yr adnoddau cyllidol i fynd i'r afael â hyn.
- Mae angen gwella hygyrchedd i blant anabl yn ysgolion ardal Llangefni.

**Gellir felly dod i'r casgliad bod angen moderneiddio darpariaeth addysg yn ardal Llangefni i ddarparu model cynaliadwy effeithiol/effeithlon ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

Yn adran 5 i ddilyn, mae'r papur yn nodi opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni.

**5. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI**

Mae'r adran ganlynol yn adnabod opsiynau amgen rhesymol mewn ymgais i adnabod datrysiad i ardal gyfan Llangefni sy'n mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni a nodir yn Adran 4 uchod.
Mae derbynion cyfalaf wedi eu hystyried ble'n briodol wrth gyfrifo costau ad-dalu blynyddol yr opsiynau isod.

| **5.1 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn fel y maent**<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf . | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol ar draws yr ysgolion. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod ac i weithredu o fewn cyllideb gytbwys (balansau cyfunol wedi gostwng o weddill o £195,998 ar 31/03/2018 i ddiffyg o £55,835 erbyn 31/03/2019).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu. Byddai hyn yn golygu bod rhaid cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol – byddai'r gost o gwmpas £150k y flwyddyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol ar adeg o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol . | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.2 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gyda Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddiaeth i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys Penaethiaid Cynorthwyol.<br>▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oedran tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o gael cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Gall olygu lleihad mewn costau staffio | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau refeniw yn codi yn y dyfodol oherwydd rhagwelir bydd nifer y disgyblion yn cynyddu, fyddai'n golygu byddai plant yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'w dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol – byddai'r gost o gwmpas £150k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Un Corff Llywodraethu ac un Pennaeth. | ▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |

| **5.3 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a cynyddu capasiti Corn Hir) Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddiaeth i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys Penaethiaid Cynorthwyol.<br>▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oedran tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws y continwwm ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o gael cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Wrth ffedereiddio YCH ac YYG, gellir ychwanegu at anghysondebau arweinyddiaeth – un ysgol gynradd o 600+ yn cael ei harwain gan Bennaeth ac ysgolion cyfagos o tua 70 a 40 yn cael eu harwain gan Benaethiaid gwahanol – gellir cwestiynu tegwch y dull arwain. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai disgyblion Corn Hir yn cael budd o ddarpariaeth addysg 21ain ganrif. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n ymdrin yn ddigonol â chostau ôl-groniad cynnal a chadw na'r angen i wella adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Ni fyddai Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn nac Ysgol Gyfun Llangefni yn cael budd o'r ysgol newydd. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion ble mae gormod o ddisgyblion.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd am y blynyddoedd sydd i ddod (11% yn ormod yn erbyn y capasiti presennol ym Ionawr 2019). |
| 5.Cyllidol | ▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Er fod y gyllideb a ddyrannir drwy'r fformiwla cyllido ysgolion yn debygol o gynyddu o £26k, mae costau staffio yn debygol o leihau o tua £18k, ac mae'n debygol bydd costau cludiant yn £90k yn llai nac amcangyfrifir o dan y ddarpariaeth bresennol am y dyfodol. O dan y ddarpariaeth bresennol, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol i gludo plant allan o'r dalgylch gan nad oes digon o lefydd. Fel rhan o'r opsiwn hwn, dim ond 2 gytundeb bws fyddai eu hangen i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd byddai capasiti Ysgol Corn Hir yn cynyddu.<br>▪ Byddai ôl-groniad cynnal a chadw yn cael ei leihau o £234. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion – nid yw'n hyfyw'n gyllid yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Cost cyfalaf sylweddol, a byddai'r rhan fwyaf ohoni yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir y byddai'r ad-daliadau blynyddol am fenthyca £4.6 miliwn tua £232k y flwyddyn am 50 mlynedd. |

| **5.3 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a cynyddu capasiti Corn Hir) Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. | ▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |

| **5.4 Un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion: Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £20.48m . | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai posibilrwydd o wella safonau. Nododd Estyn (Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol - Rhagfyr 2013) bod tuedd i safonau disgyblion fod yn well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion bach neu ganolig.<br>▪ Potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y byddai'r staff yn yr ysgol newydd yn gallu gweithio ynghyd a rhannu arfer dda i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm penodol.<br>▪ Byddai'n sicrhau na fydd yr ystod oedran mewn dosbarthiadau'n fwy na dwy flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae ysgolion mwy yn tueddu i fod â mwy o arbenigeddau a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy galluog a thalentog.<br>▪ Cyfleoedd i staff rannu arbenigeddau ac arfer dda.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Byddai ysgol o 800+ o ddisgyblion cynradd (un o'r ysgolion cynradd mwyaf yng Nghymru) yn debygol o gael ei hystyried fel ysgol sy'n rhy fawr gan yr Awdurdod Lleol.<br>▪ Posibilrwydd o ddiffyg ymgeiswyr am rôl arweinyddol mewn ysgol gynradd fawr.<br>▪ Potensial o golli Llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'r ysgol newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn cynnwys amgylcheddau dysgu allanol addas a byddai'r ysgol wedi ei dylunio i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd. | ▪ Gellir cwestiynu goblygiadau cyllidol a gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol y Graig. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagolygon y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw o £776,500 yn cael eu dileu.<br>▪ Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl (Ysgol Talwrn yw'r uchaf sef £4,553 ac Ysgol y Graig yw'r isaf sef £3,429 yn 2019/20) a thegwch ymdriniaeth ar draws yr ardal.<br>▪ Amcangyfrifir arbedion refeniw o £124k y flwyddyn. Ni ddisgwylir unrhyw gost cludiant ychwanegol. Mae'n debygol byddai costau cludiant yn cynyddu'n arwyddocaol dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r Awdurdod, a byddai'r rhan helaeth ohoni'n cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir byddai'r gost o fenthyca £8.7 miliwn fyddai tua £455k y flwyddyn am 50 mlynedd. |

| **5.4 Un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion: Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £20.48m . | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | rhagwelir bydd ysgolion dros eu capasiti yn arwyddocaol, a fyddai'n golygu gorfod cludo disgyblion o'u dalgylchoedd i'r ysgolion sydd â llefydd gweigion. (o dan y ddarpariaeth bresennol, os mae'r tueddiadau presennol yn parhau, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, o dan yr opsiwn hwn, dim ond 5 gytundeb bws fyddai eu hangen yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn). | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster newydd er budd y gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeiladau cymuned. |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Byddai canfod safle addas ar gyfer ysgol o'r maint hwn yn her.<br>▪ Posibilrwydd y byddai llif traffig cynyddol yng nghanol y dref, yn dibynnu ar leoliad yr ysgol newydd. |

| **5.5 Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad.<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £22.46m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai posibilrwydd o wella safonau. Adroddodd Estyn bod rhai ysgolion pob oed wedi codi safonau mewn ardal.<br>▪ Potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y byddai'r staff yn yr ysgol newydd yn gallu gweithio ynghyd a rhannu arfer dda i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm penodol.<br>▪ Byddai'n sicrhau na fydd yr ystod oedran mewn dosbarthiadau'n fwy na dwy flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae ysgolion mwy yn tueddu i fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Cyfleoedd i staff rannu arbenigeddau ac arfer dda.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Ysgol o 1500 o ddisgyblion, 800+ o'r rheini yn ddisgyblion cynradd. Yr ysgol yn debygol o gael ei hystyried yn rhy fawr gan yr Awdurdod Lleol.<br>▪ Posibilrwydd o ddiffyg ymgeiswyr am rôl arweinyddol mewn ysgol gynradd fawr.<br>▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'r ysgol newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif ac yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn cynnwys amgylcheddau dysgu allanol a byddai'r ysgol wedi ei dylunio i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd.<br>▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu. | ▪ Gellir cwestiynu goblygiadau cyllidol a gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol y Graig. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagolygon y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a thegwch ymdriniaeth ar draws yr ardal.<br>▪ Byddai'n lleihau'r costau refeniw cyffredinol ac yn arwain at arbediad cyllidol o £124k. | ▪ Diffyg cyllid o'r amlen ysgolion 21ain ganrif a fyddai'n gallu golygu bod rhaid i'r Awdurdod Lleol fuddsoddi llawer mwy na 50% o'r amcan adeilad £20m+. |

| **5.5 Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad.<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £22.46m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Ni ddisgwylir unrhyw gost cludiant ychwanegol. Mae'n debygol byddai costau cludiant yn cynyddu'n arwyddocaol dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd rhagwelir bydd ysgolion dros eu capasiti yn arwyddocaol, a fyddai'n golygu gorfod cludo disgyblion o'u dalgylchoedd i'r ysgolion sydd â llefydd gweigion. (o dan y ddarpariaeth bresennol, os mae'r tueddiadau presennol yn parhau, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, o dan yr opsiwn hwn, dim ond 5 gytundeb bws fyddai eu hangen yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Byddai ôl-groniad cynnal a chadw'n o £4.38 miliwn yn cael ei ddileu.<br>▪ Buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol yn yr ardal mewn amser o doriadau cyllidol. | ▪ Os yw'r awdurdod yn cyllido 50% o'r gost cyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth o £9.8 miliwn, rhagwelir y byddai costau blynyddol yn £504k. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster newydd er budd y gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeiladau cymuned. |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Byddai canfod safle addas ar gyfer ysgol o'r maint hwn yn her yn y rhan hon o Langefni gan fod safle Ysgol Gyfun Llangefni'n anaddas am estyniad oherwydd diffyg gofod ac anawsterau mynediad (yn bennaf o safbwynt iechyd a diogelwch).<br>▪ Posibilrwydd y byddai llif y traffig yn cynyddu yng nghanol y dref, yn dibynnu ar leoliad yr ysgol newydd. |

| **5.6 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £4.38m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Dim cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant nac felly'n sefydlu'r amodau i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |

| **5.6 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £4.38m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig am y blynyddoedd sydd i ddod (seiliedig ar ffigurau Ionawr 2019) |
| 5.Cyllidol | ▪ Dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw o £4.38m. | ▪ Nid yw'n hyfyw ar gyfer y dyfodol o ran cyllid oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel yr ystâd adeiladau ysgolion. Nid oes gan y Cyngor yr arian i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Dim arbedion refeniw.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Pe ariennid y gwaith i ymgymryd ag ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost flynyddol am ad-daliadau fyddai o gwmpas £346k y flwyddyn am 20 mlynedd.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.7 Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |

| **5.7 Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella'r adeilad ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif. | ▪ Dim digon o dir ar gael i ymestyn yr ysgolion i gyflawni'r capasiti rhagamcanol gofynnol.<br>▪ Ystyriaethau a pryderon iechyd a diogelwch yn ystod y gwaith adeiladu ar bob safle ynghyd â mwy o draffig i safleoedd presennol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i'r dyfodol | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai cost cludiant ychwanegol o £150k yn cael ei hosgoi yn y dyfodol. (Dim angen am gytundebau bws ychwanegol i gludo plant allan o'r dalgylch os fyddai ysgol y dalgylch dros ei chapasiti). | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn y gyllideb ysgol - dim arbedion refeniw. Byddai costau refeniw ychwanegol o tua £70k y flwyddyn oherwydd costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau (gan gynnwys costau TAC, Glanhau, Ynni a Chynnal a Chadw Tiroedd).<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor yr arian i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllidebol a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn gael ei archwilio'n fanwl gan Lywodraeth Cymru.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai arian ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol y byddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd diffyg gofod.<br>▪ Os na ellir denu cyllid gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrifir mai'r gost o ad-dalu benthyciad digefnogaeth fyddai tua £343k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.8 Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau yn well a galluogi ysgolion i archwilio ffyrdd i wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oed tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda drwy'r continwwm ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/ cydweithredu'n datblygu'n araf yng Nghymru – dal yn y cyfnod peilot.<br>▪ Mae'n debyg y byddai'n cymryd amser i wreiddio cydweithrediad clwstwr cyn i glystyru ddod yn brif lif.<br>▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bobPennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant nac felly'n sefydlu'r amodau i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor.<br>▪ Gwell defnydd o adnoddau ar draws ysgolion Llangefni. | ▪ Nid yw'n hyfyw ar gyfer y dyfodol o ran cyllid oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel yr ystâd adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o ataliad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.9 Defnyddio’r ysgolion fel hybiau cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymuned e.e. Iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg i’r gymuned, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol**<br><br>Yn seiliedig ar dim gwariant cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau’r dosbarthiadau na’r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti’r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu’r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw’n mynd i’r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw’n mynd i’r afael â’r angen i wella’r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw’n mynd i’r afael â’r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu’r plant i ddysgu’n annibynnol ac felly ni ellir darparu’r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw’n mynd i’r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau’r ysgolion unigol – nid yw’n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Nid yw’n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw’n mynd i’r afael â’r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Posibilrwydd o gydbwyso costau’r ysgol gyda’r incwm a ddaw o ddefnydd cymunedol. | ▪ Nid yw’n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw’n ymdrin â’r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw’n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Mae’n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o’r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai’r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai’r defnydd presennol y gwna’r gymuned o’r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Yr aflonyddwch lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. Pob ysgol yn parhau i fod yn annibynnol. | ▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol wrth i wasanaethau rannu safle’r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd bod gwasanaethau’r Cyngor wedi eu tynnu i’r Pencadlys yn Llangefni i gefnogi’r agenda effeithlonrwydd.<br>▪ Gofod cyfyngedig yn ystâd yr adeiladau ysgol fel hwb i wasanaethau eraill – e.e. Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol y Graig dros eu capasiti. |

| 5.10 Cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu'r plant i ddysgu'n annibynnol ac felly ni ellir darparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, mae gormod o blant mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Posibilrwydd o gydbwyso costau'r ysgol gyda'r incwm a ddaw o ddefnydd cymunedol gan wasanaethau sydd wedi eu cyd-leoli yn yr ysgolion. | ▪ Nid yw'n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n ymdrin â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Cost cludiant ychwanegol o £150k gan y byddai'n rhaid cludo disgyblion o'r dalgylch oherwydd bod ysgolion dros eu capasiti.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Yr aflonyddwch lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol wrth i wasanaethau eraill rannu safle'r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd gwrthdyniad gwasanaethau i'r Pencadlys yn Llangefni i gynorthwyo agenda effeithlonrwydd.<br>▪ Gofod cyfyngedig yn ystâd bresennol yr adeiladau ysgol i ddefnyddio ysgolion fel hwb i wasanaethau eraill – e.e. Ysgol Corn Hir, |

| **5.10 Cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | Ysgol Bodffordd ac Ysgol y Graig dros eu capasiti. |

| **5.11 Sefydlu ysgolion aml-safle : (CA1 – ar yr un safle), (CA2 – ar safle arall)**<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir e.e. Ysgol Bodffordd (Meithrin, Bl. 0 -1) ac Ysgol Corn Hir (Bl. 2-6)<br>&<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn e.e. Ysgol y Graig (Bl. 1-6) ac Ysgol Talwrn (Meithrin- Bl. 0)<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £6.8m i adeiladu estyniad ar y 4 adeilad presennol i gymryd rhagolygon y nifer disgyblion i'r dyfodol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau a'r ystodau oedran yr addysgir mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gall arwain at welliant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Ni fyddai gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, byddai'n bosib datblygu uwch dîm rheoli a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu'r plant i ddysgu'n annibynnol ac felly ni ellir darparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid fyddai'n ganiataol yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae'n debyg y byddai cost cludiant ychwanegol o tua £85k sy'n arbediad o £65k o'i gymharu â'r amcangyfrif cost am gludiant ychwanegol o £150k i'r dyfodol o dan y trefniadau presennol. (O dan y drefn bresennol, rhagwelir bydd angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, i gludo disgyblion allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. yn yr ardal. O dan yr opsiwn hwn, amcangyfrifir byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol i gludo plant rhwng Ysgol Y Graig ag Ysgol Talwrn ag Ysgol Bodffordd ac ysgol Corn Hir.<br>▪ Bydd yn lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl | ▪ Nid yw'n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw ostyngiad yng nghost cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau'n cynyddu o tua £78k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth o £3.4 miliwn, a'r gost am hyn fyddai tua £166k y flwyddyn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |

| **5.11 Sefydlu ysgolion aml-safle : (CA1 – ar yr un safle), (CA2 – ar safle arall)**<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir e.e. Ysgol Bodffordd (Meithrin, Bl. 0 -1) ac Ysgol Corn Hir (Bl. 2-6)<br>&<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn e.e. Ysgol y Graig (Bl. 1-6) ac Ysgol Talwrn (Meithrin- Bl. 0)<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £6.8m i adeiladu estyniad ar y 4 adeilad presennol i gymryd rhagolygon y nifer disgyblion i'r dyfodol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Logisteg – byddai'n broblem i rieni godi a gollwng eu plant os ydynt yn mynychu safleoedd gwahanol. |

Fel yr amlygir uchod, mae'r Awdurdod wedi ystyried nifer o wahanol opsiynau amgen rhesymol ac er bod manteision ac anfanteision i bob opsiwn, **daw i'r canlyniad nad oes datrysiad hyfyw ar gyfer ardal gyfan Llangefni i'w archwilio ymhellach dan raglen buddsoddi 21ain Ganrif i Gymru.**

O ganlyniad, yn unol â'r Strategaeth Addysg, ystyrir yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ynghyd â chynigion amgen oherwydd eu hagosrwydd at ei gilydd (1.8 milltir – Google Maps). Dywedir yn Strategaeth Addysg gyhoeddedig yr Awdurdod (Hydref 2018): "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno."

Ystyrir papur cynnig ar wahân ar gyfer Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn oherwydd eu hagosrwydd at ei gilydd (1.9 milltir – Google Maps).

Ni ystyrir Ysgol Gyfun Llangefni yn y cynnig hwn oherwydd:

- Diffyg argaeledd safle posib arall ac addasrwydd y safle presennol;
- Diffyg gofod, aceri a hygyrchedd;
- Diffyg arian wedi'i adnabod drwy y rhaglen buddsoddiad 21$^{ain}$ ganrif.

## 6. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR

Isod, amlinellir yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a sut yr eir i'r afael â hwynt gan y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

| | **Heriau allweddol** | **Sut yr eir i'r afael â hwynt gan y cynnig** |
|---|---|---|
| **6.1.Niferoedd Disgyblion** | Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol (Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir) dros eu capasiti o tua 11%.<br><br>Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(59%)<br>• Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl]<br><br>Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(72%)<br>• Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]<br><br>Disgwylir i ragolygon niferoedd disgyblion yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir gynyddu erbyn Medi 2024.<br>Ysgol Bodffordd – Capasiti heb y meithrin yw 63/ Rhagwelir 77 yn 2024.<br>Ysgol Corn Hir – Capasiti heb y meithrin yw 204/ Rhagwelir 243 yn 2024.<br>(Mae mwy o fanylion ar gael yn adran 6.12 o'r papur hwn) | Bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd leoedd digonol i gwrdd â'r galw.<br>Yn ogystal â hyn, addysgir disgyblion Ysgol Bodffordd mewn dosbarthiadau ag ystodau oedran agosach, a gall hyn gael effaith gadarnhaol ar safonau.<br>Bydd hefyd lai o ddsgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd. |
| **6.2. Lleoedd Gweigion** | Nid oes lleoedd dros ben yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Mae'r ddwy ysgol dros eu capasiti. | Dylunnir yr ysgol i fod â digon o leoedd i allu darparu ar gyfer y galw am leoedd disgyblion yn y dalgylch. |
| **6.3.Dosbarthu'r cwricwlwm** | Gofod cyfyngedig sydd gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG), yn enwedig i gwrdd â'r galw ar gyfer y cyfnod sylfaen. | Adeiladir yr Ysgol Corn Hir newydd er pwrpas cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). Bydd yn ddarparedig i gyflwyno'r cwricwlwm llawn mewn modd addas, gwahaniaethol, eang ac amrywiol, a bydd yn fuddiol i bob disgybl. |
| **6.4.Cost y disgybl** | Amrywiad yn y gost y disgybl :<br><br>▪ Ysgol Bodffordd (2019/20)=£4,274<br>▪ Ysgol Corn Hir (2019/20)=£3,587<br><br>Cyfartaledd cynradd Ynys Môn ar gyfer 2019/20 yw £3,988. | Byddai lleihad yng nghyfartaledd y gost fesul disgybl yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br>Rhagolygir y byddai'r gost fesul disgybl yn yr Ysgol Corn Hir newydd tua £3,736.<br>Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor. |
| **6.5.Adeilad ysgol** | Mae gan Ysgol Bodffordd ôl-groniad cynnal a chadw o £134,000 (2019) a gradd cyflwr B (boddhaol, perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad).<br>Mae gan Ysgol Corn Hir ôl-groniad cynnal a chadw o £234,000 (2019) a gradd cyflwr C (Gwael, yn arddangos dirywiad mawr ac / neu ddim yn gweithredu fel y dylai).<br>Mae gan Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd faterion hygyrchedd i bobl anabl ac nid ydynt ond yn | Dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd i fod â chostau cynnal a chadw isel gyda gradd BREEAM ardderchog.<br>Byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw ar y cyd rhwng yr ysgolion, sef £368,000, yn cael ei ddileu. |

<table>
<tr><th></th><th>Heriau allweddol</th><th>Sut yr eir i’r afael â hwynt gan y cynnig</th></tr>
<tr><td></td><td>cydymffurfio’r rhannol â’r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</td><td>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.</td></tr>
<tr><td>6.6 Safonau</td><td>Mae’r tabl yn dangos crynodeb o arolygiadau Estyn yn y ddwy ysgol (mae manylion pellach ar gael yn adran 6.10)<br><br>
<table>
<tr><th>Dyddiad yr Arolwg</th><th>Bodffordd Mehefin 2015</th><th>Corn Hir Mai 2013</th></tr>
<tr><td>Safonau</td><td>Digonol</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td><td>Rhagorol</td></tr>
<tr><td>Addysgu a phrofiadau dysgu</td><td>Digonol</td><td>Da & Rhagorol</td></tr>
<tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Arweinyddiaeth a rheolaeth</td><td>Digonol</td><td>Da</td></tr>
</table>
Derbyniodd Ysgol Corn Hir adroddiad Estyn gwell o’i chymharu ag Ysgol Bodffordd<br><br>
<u>Categoreiddio-Ffynhonell GwE – Tachwedd 2019</u><br><br>
<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Ysgol Bodffordd</th><th>Ysgol Corn Hir</th></tr>
<tr><td>2019</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2018</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>Melyngoch</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2016</td><td>Melyngoch</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>Melyngoch</td><td>Gwyrdd</td></tr>
</table>
<br>Mae’r ysgolion yn derbyn cymorth gan GwE.<br>Ar hyn o bryd mae Ysgol Bodffordd wedi'i chategoreiddio'n felyn (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 10 diwrnod o gefnogaeth).<br><br>Mae Ysgol Corn Hir wedi'i chategoreiddio'n wyrdd (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 4 diwrnod o gefnogaeth).<br>Mae Ysgol Corn Hir wedi cynnal ei statws gwyrdd ers 2015.</td><td>Bydd yr ysgol Corn Hir newydd mewn sefyllfa i allu cynnal graddfeydd Estyn yr Ysgol Corn bresennol (Da a Rhagorol) ac i gadw’r statws categoreiddio gwyrdd.<br><br>Bydd disgyblion Ysgol Bodffordd yn cael budd o ran codi safonau.</td></tr>
<tr><td>6.7. Ymrwymiad Addysgu’r Pennaeth</td><td>Ysgol Bodffordd – 80% o ymrwymiad addysgu (Ffynhonnell- cadarnhad y Pennaeth)<br><br>Ysgol Corn Hir – dim ymrwymiad addysgu (Ffynhonell – cadarnhad y Pennaeth)</td><td>Yn yr Ysgol Corn Hir newydd, rhagwelir na fydd gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu. Yn ogystal â hyn, gall y Pennaeth ffurfio tîm rheoli a fydd yn cryfhau ac yn cynyddu capasiti arweinyddol.</td></tr>
<tr><td>6.8 Cyllid</td><td>Ysgol Bodffordd - 3% dros y gyllideb (2019/20) ac ni wneir y diffyg tan 31/03/2022 pan ddisgwylir i niferoedd disgyblion gynyddu.<br>Ysgol Corn Hir – o fewn y gyllideb a gyda 3% o gronfeydd wrth gefn yn 2019/20, a defnyddir hanner ohono i ariannu staff ychwanegol.<br>Mae'r sefyllfa uchod ar adeg pan mae'r Awdurdod Lleol yn edrych i wneud arbedion. Er nad yw Setliad Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau (ar y 7/1/2020), mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ofynnol i'r awdurdod fynd i'r afael â bwlch cyllido o £ 8.5m dros y 3 blynedd sydd i ddod.<br><br>(Gweler adran 6.14 cyllidebau ysgolion am wybodaeth bellach)</td><td>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd mewn gwell sefyllfa i wynebu unrhyw doriadau ariannol arfaethedig yn y dyfodol. Mae ysgolion o'r maint hwn mewn gwell sefyllfa i gyflawni maint dosbarthiadau effeithlon o ddosbarthiadau h.y nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos at 30.</td></tr>
</table>

| | Heriau allweddol | Sut yr eir i'r afael â hwynt gan y cynnig |
|---|---|---|
| **6.9 Yr Iaith Gymraeg** | Parhau i ddatblygu defnydd o'r iaith Gymraeg yn amgylchedd yr ysgol.<br>(Mae'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi targedau a osodir yn y Cynllun Cymraeg mewn Addysg cymeradwy a sut y byddai'r cynnig yn ehangu darpariaeth Gymraeg ar gael yn adran 6.11 isod) | Gyda disgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) ac Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg yn y cartref, mae gan yr Ysgol Corn Hir newydd y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg gyfredol. |

**6.10 Safonau ac Ansawdd Addysg – arolygiadau diweddaraf Estyn yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**
Mae'r adran ganlynol yn cymharu'r arolygiadau Estyn diweddaraf yn y ddwy ysgol.

Isod, crynhoir y beirniadaethau cyffredinol am berfformiad yr ysgolion, rhagolygon gwella, beirniadaethau unigol am safonau, lles, dysgu ac addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

| | Perfformiad yr ysgol | Rhagolygon gwella | Safonau | Lles | Dysgu ac addysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd Mehefin 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Da | Digonol | Da | Digonol |
| Corn Hir Mai 2013 | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Da |

| | |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys esiamplau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector. |
| Da | Nifer o gryfderau ac nid oes unrhyw feysydd pwysig angen eu gwella'n arwyddocaol. |
| Digonol | Cryfderau'n gorbwyso'r gwendidau. |
| Anfoddhaol | Gwendidau mawrion yn gorbwyso cryfderau. |

Mae'r crynodeb uchod yn dangos bod deilliannau'r arolygiadau Estyn yn fwy cadarnhaol ar gyfer Ysgol Corn Hir nag ar gyfer Ysgol Bodffordd.

Dychwelodd Estyn i ymgymryd ag ymweliad monitro yn Ysgol Bodffordd ym mis Hydref 2016, a nodir yn yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Bodffordd wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn yn Hydref 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

Dengys y tabl canlynol amlinelliad manylach o rai o ganfyddiadau Estyn mewn perthynas â chyd-destun yr ysgol, perfformiad yr ysgol, rhagolygon gwella, arweinyddiaeth a rheolaeth, lles disgyblion, anghenion dysgu ychwanegol [ADY] a'r iaith Gymraeg.

| Ysgol Bodffordd: Mehefin 2015 | Ysgol Corn Hir: Mai 2013 |
|---|---|
| Cyd-destun yr ysgol<br>▪ Trefnir disgyblion yn dri dosbarth oed cymysg. | Cyd-destun yr ysgol<br>▪ Addysgir disgyblion mewn saith dosbarth sy'n cynnwys plant yr un oed. |
| Mae perfformiad yr ysgol yn **ddigonol** oherwydd bod:<br>▪ y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>▪ y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu sgiliau darllen cynnar; | Mae perfformiad yr ysgol yn **dda** oherwydd bod:<br>▪ disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau rhifedd a llythrennedd;<br>▪ presenoldeb disgyblion wedi bod yn uchel yn ystod blynyddoedd diweddar;<br>▪ disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda; |

| Ysgol Bodffordd: Mehefin 2015 | Ysgol Corn Hir: Mai 2013 |
|---|---|
| ▪ llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ystod o ddeunydd darllen yn dda yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddarllen yn datblygu'n llwyddiannus;<br>▪ llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac yn ddarllenadwy, ac yn defnyddio ystod o atalnodau yn gywir i greu ystyr glir;<br>▪ gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen afael cadarn mewn nifer o ffeithiau yn unol â'u hoedran a'u gallu;<br>▪ y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn gwrtais, yn groesawgar ac yn hapus iawn yn eu hysgol;<br>▪ cyfraddau presenoldeb uchel yn cymharu'n dda â'r rheiny mewn ysgolion tebyg.<br>Fodd bynnag:<br>▪ nid yw sgiliau ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion hŷn, yn enwedig disgyblion mwy abl, yn datblygu'n llawn mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith;<br>▪ mae arddull ysgrifennu'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cynnwys gwallau ac wedi ei seilio'n ormod ar ffurfiau llafar Cymraeg;<br>▪ nid yw sgiliau mathemategol ymchwiliol y mwyafrif o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol;<br>▪ nid yw cynllunio'r athrawon yn ddigon effeithiol i gwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion;<br>▪ nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol;<br>▪ nid yw sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn sicrhau eu bod yn deall y camau nesaf i'w cymryd i wella cynnwys eu gwaith yn ddigon aml. | ▪ yr addysgu'n gyson effeithiol;<br>▪ yr ysgol yn cynllunio mewn modd cydgysylltiol i ddatblygu annibyniaeth ymysg disgyblion;<br>▪ yr ymestynnir disgyblion hyd eithaf eu gallu; a<br>▪ perthnasau cryf rhwng staff a disgyblion yn sicrhau cyfranogaeth uchel gan ddisgyblion. |
| Mae rhagolygon gwella'n **ddigonol** oherwydd bod:<br>▪ y pennaeth mewn gofal yn darparu arweinyddiaeth glir ac yn sicrhau bod gwerthoedd yr ysgol yn cael eu dyblygu er mwyn cyflawni nodau yn dda;<br>▪ yr ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;<br>▪ cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunan arfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol;<br>▪ mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau cefnogol sy'n cyfranogi'n briodol at ddeilliannau a lles disgyblion;<br>▪ mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol mewn rhwydweithiau proffesiynol ag ysgolion cyfagos.<br>Fodd bynnag:<br>▪ nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad ar waith i'r holl athrawon;<br>▪ nid oes trefniadau ffurfiol wedi eu hadnabod gan yr ysgol i gyflawni cyfrifoldebau arweinyddol yn absenoldeb y pennaeth;<br>▪ mae Llywodraethwyr yn or-ddibynnol ar wybodaeth ddogfennol gan y pennaeth yn ystod y broses hunan arfarnu;<br>▪ nid oes blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella arweinyddiaeth;<br>▪ mae'r adroddiad hunan arfarnu yn disgrifio darpariaeth yn hytrach na'n arfarnu effeithlonrwydd strategaethau'r ysgol ar safonau. | Mae rhagolygon gwella'n **dda** oherwydd bod:<br>▪ yr ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion yr arolwg blaenorol;<br>▪ yr ysgol yn bwriadu sicrhau gwelliannau yn safonau disgyblion yn effeithiol iawn;<br>▪ disgwyliadau cytunedig am safonau uchel gan ddisgyblion;<br>▪ yr ysgol yn adnabod ei hun yn arbennig o dda drwy fonitro addysgu er mwyn gwella ansawdd yn effeithiol;<br>▪ llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol;<br>▪ yr ysgol yn creu cymunedau dysgu llwyddiannus sydd eisoes yn mynd i'r afael â chodi safonau. |
| Barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn **ddigonol**<br>▪ Mewn cyfnod byr, mae'r Pennaeth mewn gofal wedi darparu arweinyddiaeth glir ac wedi sicrhau y dyblygir gwerthoedd yr ysgol er mwyn cyflawni ei | Barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn **dda**<br>▪ Mae arweinyddiaeth gadarn yn weledigaeth glir gan y Pennaeth ar gyfer codi safonau ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Disgwyliadau uchel o gynnydd bob |

| Ysgol Bodffordd: Mehefin 2015 | Ysgol Corn Hir: Mai 2013 |
|---|---|
| amcanion. Mae'r holl staff yn ei chefnogi ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n rhesymol briodol.<br>▪ Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion ysgol gyfan ac i gymryd cyfrifoldeb am feysydd amrywiol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau ar gyfer hyn yn ddigon ffurfiol ac nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad yn eu lle i'r holl athrawon, gan gynnwys adnabod eu hanghenion datblygu proffesiynol yn ddigon effeithiol.<br>▪ Mae'r corff llywodraethu yn dechrau datblygu ei rôl strategol i fonitro gweithdrefnau yn ffurfiol ac i ddal yr ysgol yn gyfrifol am ei pherfformiad yn fwy effeithiol. | disgybl. Staff yn gweithio'n effeithiol ac yn cytgordio fel tîm.<br>▪ Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol mewn ystod eang o ddyletswyddau. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol, gan gynnwys gofyn pam bod gwahaniaeth rhwng cyflawniad grwpiau amrywiol o ddisgyblion. |
| Barnwyd bod lles disgyblion yn **dda.**<br>▪ Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac mae'r aelodau yn deall eu bod yn cynrychioli barn disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rôl o wneud penderfyniadau wedi ei datblygu'n llawn.<br>▪ Mae dealltwriaeth disgyblion o gryfderau eu gwaith a'r hyn y gallent wneud i'w wella yn datblygu'n dda o ganlyniad i asesiad effeithiol ar gyfer strategaethau dysgu.<br>▪ Mae bron i holl ddisgyblion yr ysgol yn gwrtais, croesawgar ac yn hapus yn eu hysgol. Nodwedd gref yw'r teimlad o deulu, ac mae disgyblion, athrawon ac oedolion eraill sy'n defnyddio adnoddau cymunedol yn yr adeilad yn cydweithredu'n hawdd.<br>▪ Mae bron i bob disgybl yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn ystyriol o deimladau a dyheadau'r disgyblion eraill o'u cwmpas. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithredu'n gyfeillgar ac yn dangos parch at ei gilydd ac yn pryderu am ei gilydd.<br>▪ Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawl i fod yn ddiogel ac o bwysigrwydd cadw'n iach, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael bwyd a diod iachus ac i ddatblygu ffitrwydd. Yn ystod amseroedd chwarae, maent i gyd yn mwynhau amryw o weithgareddau priodol ar yr iard.<br>▪ Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi bod yn dda ac wedi bod yn gyson yn y 50% uchaf neu uwch o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol. | Barnwyd bod lles disgyblion yn **rhagorol**.<br>▪ Mae'r ffordd mae disgyblion yn mynegi eu syniadau yn wych. Mae disgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau yn effeithiol iawn drwy ofyn i'w cyfoedion am eu barn a dylanwadu ar eu profiadau yn yr ysgol.<br>▪ Maent yn arddangos sgiliau personol arbennig o dda drwy gymryd cyfrifoldeb dros eu llwyddiant a chyfrannu at ddewis yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi. Mae disgyblion yn cydweithredu'n effeithiol.<br>▪ Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol. Mae'r 'Criw Clên' yn cyfrannu'n dda at les disgyblion eraill. Mae ymwybyddiaeth ddwys disgyblion o gadw'n heini a byw yn iach yn glir.<br>▪ Mae ymddygiad disgyblion tuag at ei gilydd, tuag at staff a thuag at ymwelwyr yn arbennig o dda. Maent yn dangos parch at bawb o'u hamgylch. |
| ▪ Nid oes gwahaniaeth nodedig yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim i'w cymharu â'u cyfoedion, na rhwng perfformiad merched a bechgyn.<br>▪ Mae bron i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol. | ▪ Mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi cyflawni'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.<br>▪ Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth sensitif ac anogaeth i lwyddo. Mae cynlluniau addysg unigol o safon dda ac mae'r ysgol yn sicrhau cwricwlwm eang i bob disgybl drwy wahaniaethu'n ofalus. O ganlyniad i'r gefnogaeth hon, maent yn ennill hyder ac mae eu hunanwerth yn cynyddu'n arwyddocaol. |
| ▪ Mewn Cymraeg, mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf neu well am dair blynedd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi gwella dros y 4 blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uchaf (lefel 5) yn anghyson o'i chymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg. Mewn | ▪ Mewn Cymraeg, mae cyflawniad disgyblion yn gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu, ond mae'n rhoi'r ysgol ymysg y 50% isaf (ond ger trothwy'r 50% uchaf). Mae cyflawniad disgyblion ar lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2 , sy'n rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer Cymraeg a Saesneg. |

| Ysgol Bodffordd: Mehefin 2015 | Ysgol Corn Hir: Mai 2013 |
|---|---|
| Cymraeg, mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf neu well am dair blynedd. | ▪ Mae'r ysgol yn rhoi sylw blaenllaw i ddatblygu'r iaith Gymraeg. |

Rhestrir isod y prif gasgliadau y gellir eu llunio o'r adroddiadau Estyn uchod :

- Mae'r dosbarthiadau yn Ysgol Corn Hir yn cynnwys plant yr un oed tra bod tri dosbarth oed cymysg yn Ysgol Bodffordd.
- Mae gwahaniaeth yn y safonau a gyflawnir yn Ysgol Corn Hir – mae bob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd a llythrennedd, ymestynnir disgyblion hyd eithaf eu gallu ac mae ansawdd yr addysgu yn gyson effeithiol.
- Roedd rhagolygon gwella yn well yn Ysgol Corn Hir oherwydd bod yr ysgol yn monitro addysgu er mwyn gwella ansawdd yn effeithiol, sicrhau bod cynlluniau i sicrhau gwelliannau yn safonau'r disgyblion yn effeithiol a fod gan ddisgyblion ddisgwyliadau cytunedig am safonau uchel.
- Barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn well yn Ysgol Corn Hir oherwydd yr arweinyddiaeth gadarn a ddarperir gan y Pennaeth a'r rôl a chwaraeir gan y Corff Llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol.
- Er bod y farn am les yn wahanol [Corn Hir – rhagorol; Bodffordd – da], awgrymir y testun bod y ddwy ysgol yn gweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â lles disgyblion – dealltwriaeth disgyblion o sut i wella eu gwaith; disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol, bod yn ystyriol o eraill gan gydweithredu a dangos pryder tuag at ei gilydd, a dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach ac ymarfer y corff yn gyson.
- Mae'r ddwy ysgol yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni safonau da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 a bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.
- Nid oes gwahaniaeth canfyddadwy yn safonau'r Gymraeg yn y ddwy ysgol – mae safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda yn y ddwy ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r ddwy ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r iaith Gymraeg.

**6.11 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Ysgol cyfrwng Gymraeg fydd yr Ysgol Corn Hir newydd. Felly ni fydd newid yn y categori iaith gan fod Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.

Byddai gwireddu'r cynnig yn cefnogi Deilliant 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod (wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018), sef:
**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o addysg gynradd i'r uwchradd.
**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae Fforwm Iaith Iaith y Sir yn monitro cynnydd Cynllun Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod (WESP) yn chwarterol.

Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir wedi bod yn llwyddiannus wrth roi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith; disgwylir y bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn adeiladu ar y sylfaen cadarn hwn i sicrhau y defnyddir y Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Disgwylir hefyd yr anogir disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Asesir effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad Effaith ( gweler Atodiad 1)

Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd, yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau iaith Gymraeg drwy gyfathrebu â nifer fwy o ddisgyblion. Bydd 85% (67 o ddisgyblion) a fydd yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd yn siarad Cymraeg yn y cartref o'i chymharu â 61% (137 o ddisgyblion) o'r Ysgol Corn Hir bresennol.

### 6.12 Niferoedd Disgyblion a Rhagolygon Disgyblion

Niferoedd disgyblion - hanesyddol

| Ysgol | Capasiti – heb y Meithrin | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2015 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2016 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2017 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2018 | Nifer presennol o ddisgyblion ar y gofrestr Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 61 | 55 | 68 | 63 | 70 |
| Corn Hir | 204 | 200 | 207 | 221 | 224 | 226 |

**Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol 11% dros eu capasiti**

Niferoedd Disgyblion – Rhagolygon Pum Mlynedd

| | Capasiti – heb y Meithrin | Rhagolygon niferoedd Medi 2020 | Rhagolygon niferoedd Medi 2021 | Rhagolygon niferoedd Medi 2022 | Rhagolygon niferoedd Medi 2023 | Rhagolygon niferoedd Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 74 | 76 | 77 | 79 | 74 |
| Corn Hir | 204 | 238 | 242 | 242 | 241 | 243 |

Mae rhagolygon yn cadarnhau y bydd niferoedd disgyblion yn cynyddu i gyfuniad o 320 erbyn 2024. O ganlyniad, mae'r cynnig i adeiladu ysgol sydd â chapasiti o 360 yn realistig ac yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Fuddsoddi Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r capasiti newydd yn darparu ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod.

| Ysgol | Nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Bodffordd | 18 | 3 |
| Corn Hir | 219 | 37 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu fod gan bob tŷ ym Môn gyfartaledd o 0.17 o blant oed cynradd. Drwy luosi'r nifer o ddatblygiadau tai â 0.17, ceir amcangyfrif o'r nifer o blant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno:

Mae'n bwysig nodi bod rhagolygon yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Yn Hydref 2019:

- Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(59%)
- Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl]
- Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(72%)
- Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]

### 6.13 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Pe cytunir ar y cynnig cyfredol, byddai'n arwain at newid yn amgylchedd dysgu'r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r newid fod yn fwy heriol i rai disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir yr holl gamau ymarferol i sicrhau lleiafswm o aflonyddwch ac i gynorthwyo disgyblion gydag unrhyw drosglwyddiad.

Bydd disgyblion ag ADY sy'n mynychu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol yn yr amgylchedd dysgu newydd. Mae hefyd yn bosib y byddai'r ysgol  Corn Hir newydd yn darparu ystod fwy eang o arbenigeddau i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol.

Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth a chymorth priodol i ddisgyblion ADY. Os oes gan rieni sydd â disgyblion ADY cofrestredig unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol â Dr Einir Thomas (Rheolwraig Anghenion Dysgu Ychwanegol)
E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru , ffôn 01286 679007.

### 6.14 Cyllidebau Ysgolion a Costau Rheolaidd

Mae'r arfarniad cyllidol isod yn manylu ar y sefyllfa a'r costau cyfredol ar gyfer yr ysgolion.

| | Cyllideb Blwyddyn Gyfan 2018/19 | Gwir Wariant 2018/19 | 2018/19 Gwarged / (Diffyg) | Balansau'r Ysgolion 31/3/18 | Balansau'r Ysgolion 31/3/19 | Nifer o ddisgyblion yn Medi 2018 (defnyddir i osod cyllideb 2019/20) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Corn Hir** | £820,317 | £861,804 | -£41,487 | £64,053 | £22,566 | 226 |
| **Ysgol Bodffordd** | £315,593 | £327,915 | -£12,322 | £2,427 | £-9,895 | 70 |

**Er eglurder** – Nid yw'r gyllideb Flwyddyn Gyfan uchod er pwrpas y ddogfen hon yn cario balans o'r flwyddyn flaenorol drosodd.

Y costau rheolaidd blynyddol i 300 o ddisgyblion fydd £1,123,288 ar sail y fformiwla cyllido presennol ar gyfer ysgolion, sydd ar gael drwy ddyraniad cyllideb blynyddol yr awdurdod. Y gost reolaidd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd yn eu ffurf bresennol ac ar gyfer 300 o ddisgyblion cyfunol fyddai £1,126,222 (ac eithrio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chronfa Cyfnod Sylfaen nas effeithir). Mae'r cynnig felly'n cynhyrchu arbediad blynyddol net o £2,934 a ddyrannir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion ar sail 300 o ddisgyblion.

Pe byddai niferoedd disgyblion yn cynyddu i 360 o ddisgyblion, byddai'r arbediad blynyddol net a ddyrannir drwy'r fformiwla cyllido ysgolion yn cynyddu i £15,174.

Y gost drafnidiaeth ychwanegol a ragwelir o dan y cynnig fydd £70k y flwyddyn. O ran y trefniant presennol, y costau cludiant ychwanegol a ragwelir fydd £90k, gan y byddai ysgolion yn yr ardaloedd dros gapasiti a byddai angen cludo disgyblion i ysgolion lle mae lleoedd dros ben, a fyddai y tu allan i'r dalgylch. Byddai hyn yn arwain at osgoi costau ychwanegol o £20k y flwyddyn.

### 6.15 Y Ddarpariaeth cyn ysgol

Mae'r ddarpariaeth gyn-ysgol ganlynol ar gael yn ardal Bodffordd / Corn Hir Llangefni:

- Mae Ysgol Bodffordd wedi'i chofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 11 ac ym mis Medi 2019, roedd 15 o blant yn defnyddio'r cyfleuster hwn. Bydd y ddarpariaeth hon yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd.

  Y rhagolygon ar gyfer darpariaeth feithrin i blant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd yw:

| Meithrin | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bodffordd | 15 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |

- Mae Cylch Meithrin yng Nghanolfan Gymuned Bodffordd sy'n gyllidol annibynnol o Ysgol Bodffordd. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru â'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod tymor ysgol yn unig. Mae rhan o'r cynnig yn cynnwys cau Ysgol Bodffordd, y gall fod â goblygiadau i'r Cylch Meithrin. Mae posibilrwydd y bydd niferoedd gofal plant cofleidiol yn lleihau wrth i'r plant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd drosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. Ym mis Medi 2019, roedd 17 o blant yn defnyddio'r cyfleuster hwn (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys plant sydd eisoes yn derbyn addysg blynyddoedd cynnar yn Ysgol Bodffordd).

- Lleolir Meithrinfa Blodyn Tatws ym Mharc Cefni, Bodffordd. Cofrestrir y gwasanaeth yn breifat i ofalu am uchafswm o 37 o blant o 3 mis oed i 12 oed. Ni chomisiynir y gwasanaeth hwn i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar. Gan fod galw am ddarpariaeth feithrin yn yr ardal, ychydig o effaith sydd gan y cynnig ar y ddarpariaeth breifat hon. (Nid yw'r uned gofal plant yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn darparu ar gyfer plant dan 2 oed).
- Mae Cylch Meithrin ar dir Ysgol Corn Hir. Mae'r gwasanaeth yn derbyn plant rhwng 2 – 4 oed ac ar hyn o bryd yn cynnal 2 sesiwn a hanner bob dydd i 26 o blant bob sesiwn. Ym mis Medi 2019, roedd 30 (2-3 oed) a 30 (3-4 oed) yn defnyddio'r cyfleuster hwn.

Mae'r Ysgol Corn Hir newydd yn cynnig uned gofal plant gyda chapasiti o hyd at 50 ar gyfer plant 2-4 oed ynghyd â chapasiti meithrin o 51 i gwrdd â'r galw.

**6.16 Crynodeb**

Y rhesymau dros y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion o Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** yw**:**

- Mae Ysgol Corn Hir (220+ o ddisgyblion) ac Ysgol Bodffordd (70+ o ddisgyblion) yn 1.8 milltir oddi wrth ei gilydd (ffynhonnell: google maps). Fel y nodir yn Strategaeth Addysg cyhoeddedig yr Awdurdod (Hydref 2018), "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno".
- Mae gan y cynnig y posibilrwydd o godi safonau, h.y. mae arfer bresennol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar safonau yn yr Ysgol Corn Hir newydd. Yn ogystal â hyn, bydd staff yn yr ysgol Corn Hir newydd yn gallu gweithio ynghyd, rhannu arfer dda a datblygu arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm penodol, a bydd yr amgylchedd dysgu yn creu'r amodau sydd eu hangen ar athrawon i lwyddo drwy gynnig y posibilrwydd o ddosbarthiadau ystod oedran sengl neu fwyafswm o ddwy flynedd. Mae hefyd yn cynnig y posibilrwydd o ddatblygu mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion bregus a mwy abl a thalentog.
- Mae'n cynnig y posibilrwydd i wella capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth drwy fanteisio ar dim arweinyddol estynedig. Mae hefyd yn mynd i'r afael â chynllunio olyniaeth drwy roi cyfrifoldebau arweinyddol i aelodau unigol o staff. Bydd hyn yn sicrhau capasiti arweinyddol i fynd i'r afael â'r heriau strategol a rheolaethol sy'n gysylltiedig â rhedeg ysgolion llwyddiannus.
- Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion. Amgylcheddau dysgu allanol cyfyngedig sydd gan yr ysgolion presennol i hybu disgyblion i ddysgu'n annibynnol gan gynnwys amgylcheddau dysgu allanol addas.
- Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei dylunio i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd ac i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir dros eu capasiti ac mae rhagolygon yn dangos cynnydd pellach dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd y cynnig yn darparu lleoedd digonol yn yr ysgol Corn Hir newydd i gwrdd â galw presennol a rhagolygon y dyfodol.
- Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a dilëir y costau ôl-groniad cynnal a chadw. Bydd y cynnig hefyd yn lleihau'r costau refeniw yn gyffredinol ac yn arwain at arbedion cyllidol.

Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael a'r effaith ar yr iaith Gymraeg a lles disgyblion, h.y. mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod :-

- Safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda yn y ddwy ysgol a bod y ddwy ysgol yn blaenoriaethu datblygiad yr iaith Gymraeg.
- Y ddwy ysgol yn sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni safonau da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 a bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.
- Y ddwy ysgol yn mynd i'r afael â lles disgyblion yn effeithiol – dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith; ymddwyn yn gyfrifol, bod yn ystyriol o eraill, deall pwysigrwydd cadw'n iach ac yn heini.

Mae'r adran uchod yn dangos fod gan y cynnig effaith hynod o gadarnhaol ar y gyrwyr allweddol a nodir yn adran 4. Fodd bynnag, mae ymrwymiad gan yr Awdurdod i :

- Weithio â'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned bresennol [ar sail profiad blaenorol mewn ardal arall ar yr Ynys] gan nodi y byddai'r cyfleusterau yn yr Ysgol Corn Hir newydd hefyd ar gael os byddai'r nifer o bobl sy'n mynychu unrhyw weithgaredd yn debygol o fod yn fwy na chapasiti presennol y Ganolfan Gymuned.

- Ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bodffordd i'r ysgol Corn Hir newydd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

Felly ystyrir bod y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** yn ddatrysiad rhesymol i ateb yr heriau allweddol mae'r ddwy ysgol yn eu hwynebu.

## 7. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL BODFFORDD

**Mae'r adran hon yn adnabod yr opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Bodffordd.** Mae derbynion cyfalaf wedi eu hystyried ble'n briodol wrth gyfrifo costau ad-dalu blynyddol yr opsiynau isod.

| **7.1 Y Cynnig -"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Bydd yn adeiladu ar y safonau da a welir yn bresennol a byddai disgyblion yr ardal yn cael budd o hyn.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'r ysgol o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti cyfredol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch cyllid, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen.<br>▪ Arwain at ostyngiad o £ 15k mewn costau refeniw trwy'r fformiwla ariannu ysgolion, a £20k arall mewn cost cludiant. O dan y trefniant presennol, rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd nad oes digon o leoedd yn yr ysgolion. O dan y cynnig, byddai digon o leoedd ysgol yn y dalgylch, ond rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion o Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd. | ▪ Byddai'n rhaid i'r Cyngor gyllido cyfran o'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir mai cost hyn fyddai £213k y flwyddyn. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol Corn Hir newydd. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – Yn seiliedig ar y nifer bresennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (06/19), byddai 34% yn teithio llai i safle'r ysgol arfaethedig newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach.<br>▪ Posibilrwydd o gynnydd mewn costau cludiant. |

**7.2 Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol.**

Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m.

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Bydd yn adeiladu ar y safonau da a welir yn bresennol a byddai disgyblion yr ardal yn cael budd o hyn.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | ▪ Risg na fydd y safonau da a welir ar hyn o bryd yn yr Ysgol Corn Hir gyfredol yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. (Mae'r Ysgol Corn Hir gyfredol wedi'i chategoreiddio fel Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). Mae'n hanfodol bod y statws categoreiddio" Gwyrdd A" hwn yn cael ei gynnal yn yr Ysgol Corn Hir newydd . |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'r ysgol o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti cyfredol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch arian, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen.<br>▪ Arwain at ostyngiad o £ 15k mewn costau refeniw trwy'r fformiwla ariannu ysgolion, a £ 20k arall mewn cost cludiant. O dan y trefniant presennol, rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol yn y | ▪ Byddai'n rhaid i'r Cyngor gyllido cyfran o'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir mai cost hyn fyddai £213k y flwyddyn. |

| **7.2 Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | blynyddoedd i ddod i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd nad oes digon o leoedd yn yr ysgolion. O dan y cynnig, byddai digon o leoedd ysgol yn y dalgylch, ond rhagwelir y byddai angen 2 gontract bws ychwanegol i gludo disgyblion o Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd. | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol Corn Hir newydd. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – Yn seiliedig ar y nifer bresennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (06/19), byddai 34% yn teithio llai i safle'r ysgol arfaethedig newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach.<br>▪ Posibilrwydd o gynnydd mewn costau cludiant. |

| **7.3 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Bodffordd fel y mae hi.**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai'r safonau a welir yn Ysgol Bodffordd yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Melyn B. (Categori cymorth Melyn, a dyfarniad B am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | ▪ Byddai adeilad Ysgol Bodffordd yn ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau cyfredol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Bodffordd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Byddai'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Ysgol Bodffordd yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Melyn B . (Categori cymorth Melyn, a dyfarniad B am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | ▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Pennaeth Ysgol Bodffordd yn 80%. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw adeilad yr ysgol ond yn cydymffurfio'r rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Bodffordd yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau i ddarparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol. Mae Ysgol Bodffordd dros ei chapasiti. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |

| **7.3 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Bodffordd fel y mae hi.**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir cynnydd ym mhoblogaeth y disgyblion. Golyga hyn y byddai'n rhaid cludo disgyblion allan o'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti.Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Dim aflonyddwch i'r disgyblion, rhieni na'r staff. | |

| **7.4 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir**<br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn gan gynnwys rheolwyr safle yn yr ysgolion.<br>▪ Ehangu'r cyfleon am weithgareddau i ddisgyblion – ehangu'r dewis ac opsiynau cwricwlaidd i ddisgyblion wrth i ysgolion ddod ynghyd i ddarparu mynediad at gyrsiau a chyfleusterau ei gilydd, gan arwain at welliannau posib i ansawdd y dysgu ar gyfer staff a disgyblion. | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Bodffordd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol. Byddai'n rhaid cynllunio hyn yn ofalus.<br>▪ Mwy o bosibilrwydd y byddai cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu yn enwedig ar draws cyfnodau gan fod y ddwy ysgol yn dilyn yr un fethodoleg dysgu ac addysgu.<br>▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys rheolwyr safle ar gyfer yr ysgolion. | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau yn Ysgol Bodffordd<br>▪ Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol yn Ysgol Bodffordd. |

| **7.4 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir**<br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪Gwella cyfleoedd am weithgareddau i ddisgyblion – byddai'n ehangu dewis ac opsiynau cwricwlaidd i ddisgyblion wrth i ysgolion ddod ynghyd i ddarparu mynediad i gyrsiau a chyfleusterau ei gilydd, sy'n arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu i staff a disgyblion. | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw sydd ar adeilad yr ysgol. (Ôl-groniad cynnal a chadw yn £93,000 yn Ionawr 2018).<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'r rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion. Mae Ysgol Bodffordd dros ei chapasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪Pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪Arbedion costau addysgu o tua £30k y flwyddyn. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪Pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff. | |

**7.5. Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir**
h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau'n well, a galluogi ysgolion i archwilio i ffyrdd o gyflawni pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Byddai angen ffocws yn y clwstwr i wella safonau. | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Bodffordd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Wrth i ysgolion gydweithredu ar agweddau arwain a rheoli, gellir arwain at welliannau arweinyddiaeth a rheolaeth. | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r diffygion yn ystâd yr adeiladau ysgol a chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw uchel cyfredol ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau cost gyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Pob ysgol yn y clwstwr yn aros yn annibynnol. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/cydweithrediad yn datblygu'n araf yng Nghymru – dal yn y cyfnod peilot. |

| **7.6 Cynnal y Meithrin a Blynyddoedd 0-1 yn Ysgol Bodffordd a Blynyddoedd 2-6 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau ac ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'r ysgolion ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai costau adeiladau yn cynyddu o tua £39k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei chyllido drwy fenthyca digefnogaeth gyda chost o tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |

| **7.6 Cynnal y Meithrin a Blynyddoedd 0-1 yn Ysgol Bodffordd a Blynyddoedd 2-6 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol. | ▪ Mae'n debyg na fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth ac y rhoddir enw newydd iddynt.<br>▪ Logisteg – byddai'n broblem i rieni godi a gadael eu plant os ydynt yn mynychu safleoedd gwahanol. |

| **7.7 Defnyddio Ysgol Bodffordd fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae drwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor.<br>▪ Posibilrwydd o gydbwyso costau'r ysgol gyda'r incwm a ddaw o ddefnydd cymunedol. | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid oes gan y Cyngor y cyllid i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a thoriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw. |

| 7.7 Defnyddio Ysgol Bodffordd fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn.<br>▪ Nid yw o reidrwydd yn lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Denu gwasanaethau cymunedol addas yn anodd oherwydd yr agosrwydd at dref Llangefni, lle lleolir y rhan helaeth o wasanaethau'r Cyngor. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Byddai'n rhaid rheoli materion diogelu plant ychwanegol gan y byddai gan bobl trydydd parti fynediad at safle'r ysgol. |

| 7.8 Cydleoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Bodffordd<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fyddai unrhyw newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |

| **7.8 Cydleoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Bodffordd**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a thoriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o gyllid.<br>▪ Nid yw o reidrwydd yn lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Byddai denu gwasanaethau cymunedol addas yn anodd oherwydd yr agosrwydd at dref Llangefni, lle lleolir y rhan helaeth o wasanaethau'r Cyngor.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Bydd denu gwasanaethau i gydleoli yn her.<br>▪ Byddai'n rhaid rheoli materion diogelu plant ychwanegol gan y byddai gan bobl trydydd parti fynediad at safle'r ysgol. |

| **7.9 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol.( Byddai angen estyniad gan fod y ddwy ysgol dros gapasiti) | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i |

| **7.9 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol.( Byddai angen estyniad gan fod y ddwy ysgol dros gapasiti) | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost y disgybl.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau yn cynyddu o tua £39k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei chyllido drwy fenthyca digefnogaeth gyda chost o tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar y safle. | ▪ Ni fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol a byddent yn cael enw newydd. |

| **7.10 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £134k dros 20 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â |

| 7.10 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Bodffordd<br><br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £134k dros 20 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn dwy ohonynt.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd am y blynyddoedd sydd i ddod . |
| 5.Cyllidol | ▪ Dilëir y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw. | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid oes gan y Cyngor y cyllid i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol. Pe ariennir y gost ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost o ad-dalu fyddai tua £11k y flwyddyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn.<br>▪ Dim arbedion refeniw. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Dim llawer o aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| 7.11 Ehangu ôl troed Ysgol Bodffordd er mwyn gwneud yr ysgol yn amgylchedd dysgu ehangach –<br>Yn seiliedig ar estyniad i gymryd 60 o ddisgyblion ychwanegol.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad |

| **7.11 Ehangu ôl troed Ysgol Bodffordd er mwyn gwneud yr ysgol yn amgylchedd dysgu ehangach –** Yn seiliedig ar estyniad i gymryd 60 o ddisgyblion ychwanegol.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m. | | |
|---|---|---|
| | | addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Nid oes digon o ofod ar gael i ehangu'r ysgol er mwyn cwrdd â'r amcangyfrif capasiti gofynnol yn Ysgol Corn Hir / Ysgol Bodffordd.<br>▪ Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ystod adeiladu ar bob safle, a mwy o draffig ar y safleoedd presennol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gyfer y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol.<br>▪ Byddai'n lleihau'r gost y disgybl ym Modffordd o tua £250 y disgybl. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei archwilio'n fanwl gan Llywodraeth Cymru .<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe byddai'r Cyngor yn cyllido'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, y gost fyddai tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Peth aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. |

| **7.12 Adeiladu llawr arall yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i |

| **7.12 Adeiladu llawr arall yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Nid yw strwythur presennol yr adeilad yn debygol o gymryd llawr arall heb addasiadau strwythurol mawrion.<br>▪ Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ystod adeiladu ar bob safle – byddai'n rhaid i'r ysgol gau a symud i rywle dros dro. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol.<br>▪ Byddai'n lleihau'r gost y disgybl ym Modffordd o tua £250 y disgybl. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw yng nghyllideb yr ysgol - byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Costau ychwanegol – logisteg o ychwanegu llawr arall chryfhau'r sylfaeni.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei archwilio'n fanwl gan Llywodraeth Cymru..<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe byddai'r Cyngor yn cyllido'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, y gost fyddai tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Peth aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **7.13 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r |

| **7.13 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella'r adeilad ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Nid oes digon o ofod ar gael i leoli ystafell ddosbarth dros dro heb gael effaith ar y mannau chwarae allanol sydd ar gael. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol.<br>▪ Byddai'n lleihau'r gost y disgybl ym Modffordd o tua £250 y disgybl. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe byddai'r Cyngor yn cyllido'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, y gost fyddai tua £71k y flwyddyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol ar amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Peth aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

Felly, nid yw'r opsiynau amgen rhesymol a ystyrir uchod yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gyrwyr allweddol (a drafodir yn adran 4) a wynebir gan Ysgol Bodffordd ac o ganlyniad, y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** yw'r cynnig a gyflwynir gan y Cyngor.

## 8. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL BODFFORDD

Gan fod y cynnig uchod yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Bodffordd, sef ysgol sydd ar restr ysgolion gwledig [Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)], asesir bob opsiwn amgen rhesymol a ystyriwyd yn adran 7 yn y tabl yn adran 8.2 mewn perthynas â'r effaith debygol ar:

- Ansawdd a Safonau Addysg
- Y gymuned
- Threfniadau teithio i ddisgyblion.

Paratowyd asesiad effaith cymuned (gweler Atodiad 1) i archwilio'r effaith hirdymor cyffredinol a gaiff cau'r ysgol wledig a cholli'r adeilad fel cyfleuster cymunedol ar y bobl a'r gymuned. Cafwyd manylion y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn lleol yng Nghanolfan Gymunedol Bodffordd a'r maes chwarae o holiadur a gwblhawyd gan Gyngor Cymuned Bodffordd.

Mae Adran 8.1 yn adnabod sut y gellir cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r Ysgol Corn Hir newydd ac unrhyw gyfleusterau y gellir eu cynnig e.e. sut y cynorthwyir disgyblion, yn enwedig disgyblion llai ffodus, i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.

### 8.1 Ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r Ysgol Corn Hir newydd

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd teuluoedd, rhieni a disgyblion yn cael y budd mwyaf allan o ymgysylltu a defnyddio'r cyfleusterau yn y ddarpariaeth newydd.

Bydd yr ymgysylltiad yn amlochrog ac yn cynnwys rhai o'r canlynol.

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau allgyrsiol | Clybiau – Urdd, Rygbi, Pêl-rwyd, Pêl-droed |
| Darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol | Clwb brecwast<br>Clwb hanner awr ar ôl ysgol<br>Clwb ar ôl ysgol |
| Defnydd o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned | Tir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol<br>Bodffordd: Canolfan gymuned ar gyfer grwpiau Drama, Gŵyl Bêl-droed, Eisteddfod Leol, Meithrin, Pensiynwyr, Dawns, Cylch Llenyddiaeth.<br><br>Corn Hir: Neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol. |

*Cafwyd y manylion ynglŷn â chyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid.

Disgwylir i'r ysgol Corn Hir newydd fod â darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol o ran clybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, bydd pob disgybl, beth bynnag eu cefndir, yn cael eu hannog i gymryd rhan, a disgwylir i'r ysgol wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai ffodus i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynnal y clybiau yn ystod amser cinio, trefniadau â rhieni i godi eu plant neu drefniadau cludiant, a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Disgwylir hefyd i'r Ysgol Corn Hir newydd sefydlu darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol addas ar gyfer rhieni sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau gofal plant. Bydd hyn yn amodol ar ffi, a chyfrifoldeb y rhieni fydd darparu cludiant i ac o'r ysgol.

Bydd cyfleusterau'r ysgol Corn Hir newydd ar gael i'r gymuned eu defnyddio. Bydd y rhain yn cynnwys neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymuned, ystafell gyfarfod gymuned yn ogystal ag Uned Gofal Plant l i blant 2 i 4 oed. Gellir darparu'r rhan fwyaf, os nad pob cyfleuster a gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol Corn Hir ar hyn o bryd yn yr Ysgol Corn Hir newydd. Byddai'r Cyngor yn dymuno gweithio â grwpiau cymuned lleol ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned fel y gellir cynnal y ddarpariaeth bresennol. Byddai'r cyfleusterau yn yr Ysgol Corn Hir newydd hefyd ar gael i'w

defnyddio os yw'r nifer o bobl sy'n mynychu'r gweithgaredd yn debygol o fod yn fwy na chapasiti'r Ganolfan Gymuned.

### 8.2 Effaith Dewisiadau Amgen Rhesymol

Os yw'r opsiwn rhesymol amgen wedi ei adnabod fel un buddiol yna fe'i nodir fel un cadarnhaol, ond nodir opsiwn rhesymol amgen a all fod yn niweidiol fel un negyddol. Nodir unrhyw opsiynau amgen rhesymol nad ydynt yn cael effaith arwyddocaol fel rhai niwtral.

| Opsiynau amgen rhesymol i Ysgol Bodffordd [adran 7] | Effaith ar Ansawdd a Safonau | Effaith ar y Gymuned | Effaith ar drefniadau teithio gwahanol |
|---|---|---|---|
| Y Cynnig<br><br>Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodfforddd ac Ysgol Corn Hir. (7.1) | Cadarnhaol<br>Byddai posibilrwydd o wella safonau. Nododd Estyn bod tuedd i safonau disgyblion fod yn well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion bach neu ganolig.<br><br>Bydd yn adeiladu ar y safonau da a welir yn yr Ysgol Corn Hir gyfredol a byddai disgyblion yr ardal yn cael budd o hyn.<br>(Mae'r Ysgol Corn Hir gyfredol wedi'i chategoreiddio fel Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). Mae'n hanfodol bod y statws categoreiddio" Gwyrdd A" hwn yn cael ei gynnal yn yr Ysgol Corn Hir newydd . | Niwtral<br>Byddai'r Cyngor eisiau gweithio â'r gymuned i sicrhau parhad y ganolfan gymuned yn Bodffordd. Byddai'r cyfleusterau yn yr Ysgol Corn Hir newydd hefyd ar gael i gymuned Bodffordd pe bai angen capasiti ychwanegol. | Negyddol<br>Amser teithio ychwanegol i rai * disgyblion.<br>Gan yr ystyrir y llwybr rhwng Bodffordd a Llangefni (B5109) fel un peryglus, byddai disgyblion o Ysgol Bodffordd yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.<br><br>*Mae ffigyrau presennol yn awgrymu y bydd tua 1/3 yn byw yn agosach i'r safle arfaethedig [ger Corn Hir] ac felly byddent yn manteisio o ran trefniadau teithio. Byddai'n rhaid i tua 2/3 o ddisgyblion, yn bennaf o Ysgol Bodffordd, deithio ymhellach i'r safle arfaethedig ger ardal Corn Hir. |
| Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol. (7.2) | Niwtral<br>Byddai posibilrwydd o wella safonau. Nododd Estyn bod tuedd i safonau disgyblion fod yn well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion bach neu ganolig.<br><br>Fodd bynnag, mae risg trwy gau'r Ysgol Corn Hir gyfredol na fyddai ei statws categoreiddio cyfredol o Gwyrdd A ". (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn unol â'r drefn categoreiddio ysgolion) yn trosglwyddo i ysgol newydd. | Niwtral<br>Byddai'r Cyngor eisiau gweithio â'r gymuned i sicrhau parhad y ganolfan gymuned yn Bodffordd. Byddai'r cyfleusterau yn yr Ysgol Corn Hir newydd hefyd ar gael i gymuned Bodffordd pe bai angen capasiti ychwanegol. | Negyddol<br>Amser teithio ychwanegol i rai* disgyblion.<br>Gan yr ystyrir y llwybr rhwng Bodffordd a Llangefni (B5109) fel un peryglus, byddai disgyblion o Ysgol Bodffordd yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.<br><br>*Mae ffigyrau presennol yn awgrymu y bydd tua 1/3 yn byw yn agosach i'r safle arfaethedig [ger Corn Hir] ac felly byddent yn manteisio o ran trefniadau teithio. Byddai'n rhaid i tua 2/3 o ddisgyblion, yn bennaf o Ysgol Bodffordd, deithio ymhellach i'r safle arfaethedig ger ardal Corn Hir. |
| Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael | Negyddol<br>Posibilrwydd na fyddai'n arwain at wella safonau nac yn gallu dosbarthu | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |

| Opsiynau amgen rhesymol i Ysgol Bodffordd [adran 7] | Effaith ar Ansawdd a Safonau | Effaith ar y Gymuned | Effaith ar drefniadau teithio gwahanol |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bodffordd fel y mae hi. (7.3) | Cwricwlwm i Gymru (CIG). I'r tymor canolig /hir. | | |
| Ffedereiddio Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir. (7.4) | Niwtral<br>Posibilrwydd y bydd ymglymiad Ysgol Corn Hir yn codi safonau. Fodd bynnag, ni fydd newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd. | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir. (7.5) | Negyddol<br>Annhebygol o gael effaith gadarnhaol ar safonau. | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Cynnal y Meithrin a Blynyddoedd 0-1 yn Ysgol Bodffordd a Blynyddoedd 2-6 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol (7.6) | Niwtral<br>Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau a'r ystodau oedran yr addysgir mewn dosbarthiadau unigol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib na fydd hyn yn cael effaith ar safonau. Bydd capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth yn aros yr un fath. | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Negyddol<br>Mwy o amser teithio i rai disgyblion.<br>Logisteg – byddai'n broblem i rieni godi a gadael eu plant os ydynt yn mynychu safleoedd gwahanol. |
| Defnyddio Ysgol Bodffordd fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol (7.7) | Negyddol<br>Dim effaith ar safonau. Byddai capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth yn aros yr un fath. | Cadarnhaol<br>Byddai'r Ganolfan Gymuned yn parhau. Posibilrwydd o gynyddu cwmpas y gwasanaethau cymuned. Fodd bynnag, byddai denu 'cwsmeriaid' yn her. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Cydleoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Bodffordd (7.8) | Negyddol<br>Dim effaith ar safonau. | Cadarnhaol<br>Byddai'r Ganolfan Gymuned yn parhau. Posibilrwydd o gynyddu cwmpas y gwasanaethau cymuned. Fodd bynnag, byddai denu 'cwsmeriaid' yn her. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. (7.9) | Niwtral<br>Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau a'r ystodau oedran yr addysgir mewn dosbarthiadau unigol. | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Bodffordd. (7.10) | Negyddol<br>Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |

| Opsiynau amgen rhesymol i Ysgol Bodffordd [adran 7] | Effaith ar Ansawdd a Safonau | Effaith ar y Gymuned | Effaith ar drefniadau teithio gwahanol |
|---|---|---|---|
| | nosbarthiadau'r ysgol. Dim newid yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. | | |
| Ehangu ôl troed Ysgol Bodffordd er mwyn gwneud yr ysgol yn amgylchedd dysgu ehangach. (7.11) | Negyddol<br>Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. Dim newid yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. | Cadarnhaol<br>Gall gofod gwell olygu cynnydd yn nefnydd cyfleusterau ysgol i'r gymuned. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Adeiladu llawr arall yn Ysgol Bodffordd (7.12) | Negyddol<br>Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. Dim newid yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. | Cadarnhaol<br>Gall gofod gwell olygu cynnydd yn nefnydd cyfleusterau ysgol i'r gymuned. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |
| Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Bodffordd. (7.13) | Negyddol<br>Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. Dim newid yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. | Niwtral<br>Byddai'r cyfleusterau cymunedol presennol yn aros fel y maent. | Niwtral<br>Byddai trefniadau teithio i ddisgyblion yn aros yr un fath. |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod rhai effeithiau cadarnhaol a negyddol yn gysylltiedig â'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd ar gyfer Ysgol Bodffordd.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod gan y cynnig i "**Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir" ,** effaith gadarnhaol ar safonau, effaith niwtral ar effaith ar y gymuned ac effaith negyddol ar drefniadau teithio rhai disgyblion.

Er mwyn lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau andwyol mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i :-

- Weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol [gan dynnu ar brofiad blaenorol mewn ardal arall o'r Ynys],
- Darparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer ysgolion.

## 9. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CORN HIR

**Mae'r adran hon yn adnabod yr opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Corn Hir.** Mae derbynion cyfalaf wedi eu hystyried ble'n briodol wrth gyfrifo costau ad-dalu blynyddol yr opsiynau isod.

| **9.1"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪Bydd yn adeiladu ar y safonau da a welir yn bresennol a byddai disgyblion yr ardal yn cael budd o hyn.<br>▪Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'r ysgol o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪Yn cyflawni gofynion capasiti cyfredol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch cyllid, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen.<br>▪ Yn arwain at ostyngiad o £15k mewn costau refeniw trwy'r fformiwla ariannu ysgolion, a £20k arall mewn cost cludiant. O dan y trefniant presennol, rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd nad oes digon o leoedd ysgol. O dan y cynnig, byddai digon o leoedd ysgol yn y dalgylch, ond rhagwelir y byddai angen 2 gontract bws ychwanegol | ▪ Byddai'n rhaid i'r Cyngor gyllido cyfran o'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir mai cost hyn fyddai £213k y flwyddyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | i gludo disgyblion o Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd. | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol Corn Hir newydd. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – Yn seiliedig ar y nifer bresennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (06/19), byddai 34% yn teithio llai i safle'r ysgol arfaethedig newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach.<br>▪ Posibilrwydd o gynnydd mewn costau cludiant. |

| 9.2 **Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Bydd yn adeiladu ar y safonau da a welir yn bresennol a byddai disgyblion yr ardal yn cael budd o hyn.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | ▪ Risg na fydd y safonau da a welir ar hyn o bryd yn yr Ysgol Corn Hir gyfredol yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. (Mae'r Ysgol Corn Hir gyfredol wedi'i chategoreiddio fel Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). Mae'n hanfodol bod y statws categoreiddio" Gwyrdd A" hwn yn cael ei gynnal yn yr Ysgol Corn Hir newydd . |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'r ysgol o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti cyfredol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch arian, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen ac yn arwain at leihad mewn costau refeniw.<br>▪ Yn arwain at ostyngiad o £15k mewn costau refeniw trwy'r fformiwla ariannu ysgolion, a | ▪ Byddai'n rhaid i'r Cyngor gyllido cyfran o'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir mai cost hyn fyddai £213k y flwyddyn. |

| 9.2 **Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | £20k arall mewn cost cludiant. O dan y trefniant presennol, rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd nad oes digon o leoedd ysgol. O dan y cynnig, byddai digon o leoedd ysgol yn y dalgylch, ond rhagwelir y byddai angen 2 gontract bws ychwanegol i gludo disgyblion o Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd.<br>▪ Buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol mewn cyfnod o gyfyngiad cyllidol. | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol Corn Hir newydd. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – Yn seiliedig ar y nifer bresennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (06/19), byddai 34% yn teithio llai i safle'r ysgol arfaethedig newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach.<br>▪ Posibilrwydd o gynnydd mewn costau cludiant. |

| 9.3 **Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Corn Hir fel y mae hi.**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai'r safonau a welir yn Ysgol Corn Hir yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | ▪ Byddai adeilad Ysgol Corn Hir yn ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau cyfredol yn y tymor canolig i'r tymor hir. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Byddai'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Ysgol Corn Hir yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A . (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'r rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |

| **9.3 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Corn Hir fel y mae hi.**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Materion Iechyd a Diogelwch – iard yr ysgol yn rhy fach; traffig a pharcio (cyn ac ar ôl ysgol) |

| **9.4 Ffedereiddio Ysgol Corn Hir gydag Ysgol Bodffordd**<br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys rheolwyr safle ar gyfer yr ysgolion.<br>▪ Posibilrwydd o weithgareddau cyfunol i ddisgyblion drwy gyfleoedd ar y cyd i blant o oedran tebyg o ysgolion gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn arwain at welliant yn safonau'r ardal. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn Ysgol Bodffordd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol. Byddai'n rhaid cynllunio hyn yn ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu.<br>▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys rheolwyr safle ar gyfer yr ysgolion. | ▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw na'r angen i wella adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. |

| **9.4 Ffedereiddio Ysgol Corn Hir gydag Ysgol Bodffordd**<br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Ni fyddai Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd yn cael budd o ysgol newydd.<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'r rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn y ddwy ysgol. |
| 5.Cyllidol | ▪ Pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Arbedion costau addysgu o tua £30k y flwyddyn.<br>▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn % uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Nid yw'n dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. | |

| **9.5. Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Corn Hir gydag Ysgol Bodffordd**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau'n well, a galluogi ysgolion i archwilio i ffyrdd o gyflawni pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion |

| **9.5. Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Corn Hir gydag Ysgol Bodffordd**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau'n well, a galluogi ysgolion i archwilio i ffyrdd o gyflawni pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn y ddwy ysgol. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r diffygion yn ystâd yr adeiladau ysgol na chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw uchel cyfredol ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau cost gyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Pob ysgol yn y clwstwr yn aros yn annibynnol. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/cydweithrediad yn datblygu'n araf yng Nghymru – dal yn y cyfnod peilot. |

| **9.6 Cynnal Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bodffordd a CA2 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol**<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £ 3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau ac ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r |

| 9.6 Cynnal Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bodffordd a CA2 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £ 3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu ymhellach uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'r ysgolion ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai costau adeiladau yn cynyddu o tua £39k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei ariannu trwy fenthyca digefnogaeth, a fyddai'n costio oddeutu £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Logisteg – problemau'n codi o ran rhieni'n gorfod codi eu plant o safleoedd gwahanol. |

| **9.7 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at wella safonau a mynd i'r afael â'r amrywiad ym maint ac ystodau oedran dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | |

| **9.7 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladu ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae dwy ohonynt dros eu capasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £35k y flwyddyn. Felly mae yna osgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau yn cynyddu o tua £39k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei chyllido drwy fenthyca digefnogaeth gyda chost o tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | |

| **9.8 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £234k dros 20 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif nac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol y plant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn dwy ohonynt.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd am y blynyddoedd sydd i ddod (11% yn ormod yn erbyn y capasiti presennol yn Ionawr 2019 ac yn cynyddu) |
| 5.Cyllidol | ▪ Dilëir y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw. | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw adeiladu uchel ystâd yr adeiladau ysgol. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol. Pe ariennir y gost ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost o ad-dalu fyddai tua £18k y flwyddyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn % uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £90k y flwyddyn.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag anhawster yr ysgolion i osod cyllideb gytbwys. |

| **9.8 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £234k dros 20 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Y tarfu lleiaf bosib<br>▪ i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **9.9 Ehangu Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £ 1.7m ar estyniad i ddarparu ar gyfer 60 o ddisgyblion ychwanegol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd – bydd y patrwm presennol o gydbwyso'r ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Nid oes digon o ofod ar gael i ehangu'r ysgol er mwyn cwrdd â'r amcangyfrif capasiti gofynnol yn Ysgol Corn Hir.<br>▪ Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ystod adeiladu a mwy o draffig ar y safleoedd presennol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu digon o leoedd yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Corn Hir ar gyfer y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yn aosgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei archwilio'n fanwl gan Llywodraeth Cymru.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe byddai'r Cyngor yn cyllido'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, y gost fyddai tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |

| **9.9 Ehangu Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £ 1.7m ar estyniad i ddarparu ar gyfer 60 o ddisgyblion ychwanegol. | | |
|---|---|---|
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Peth aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **9.10 Adeiladu llawr arall yn Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £ 1.7m ar estyniad i ddarparu ar gyfer 60 o ddisgyblion ychwanegol. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. |
| 3.Adeiliadau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Nid yw strwythur presennol yr adeilad yn debygol o gymryd llawr arall heb addasiadau strwythurol mawrion.<br>▪ Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ystod adeiladu ar bob safle – byddai'n rhaid i'r ysgol gau a symud i rywle dros dro. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir ar gyfer y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yn aosgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw yng nghyllideb yr ysgol - byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Costau ychwanegol – logisteg o ychwanegu llawr arall chryfhau'r sylfaeni.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei archwilio'n fanwl gan Llywodraeth Cymru.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe byddai'r Cyngor yn cyllido'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, y gost fyddai tua £83k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresenno dda.. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Peth aflonyddwch i ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **9.11 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. |

| **9.11 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 3.Adeiliadau Ysgol | | ▪ Nid oes digon o ofod ar gael i leoli ystafell ddosbarth dros dro heb gael effaith ar y mannau chwarae allanol sydd ar gael. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd ar gyfer y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ O dan y ddarpariaeth gyfredol, mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu, a fyddai'n arwain at gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gost oddeutu £ 90k y flwyddyn. Pe bai'r dewis arall hwn yn cael ei wireddu, dim ond un cytundeb bws ychwanegol fyddai ei angen i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Bodffordd a Corn Hir ar gost amcangyfrifedig o £ 35k y flwyddyn. Felly mae yn aosgoi cost cludo o £ 55k y flwyddyn yn y dyfodol. | ▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg o fewn cyllideb yr ysgol – byddai costau adeiladau'n cynyddu o £20k.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor y cyllid i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei archwilio'n fanwl gan Llywodraeth Cymru.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai cyllid ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Pe bai'r cyngor yn ariannu'r gost gyfalaf trwy fenthyca heb gefnogaeth, byddai hyn yn costio oddeutu £ 71k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth bresennol dda. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

**Crynodeb**

Mae'r opsiwn amgen rhesymol yn 9.1 uchod yn mynd i'r afael yn llawn â'r gyrwyr allweddol a wynebir gan Ysgol Corn Hir, ac o ganlyniad, y cynnig i:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

yw'r cynnig a gyflwynir gan y Cyngor.

## 10. GWYBODAETH GYLLIDOL

### 10.1 Costau Cludiant

O dan y cynnig newydd amcangyfrifir y bydd y costau cludo sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cynyddu costau oddeutu 70k y flwyddyn wrth gymharu â'r gost drafnidiaeth gyfredol. Rhagwelir y byddai angen 2 gontract bws ychwanegol i gludo disgyblion o Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd, gan fod y ffordd rhwng Bodffordd a'r Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei nodi fel llwybr peryglus.

O dan y trefniant presennol, rhagwelir y bydd cost cludiant yn cynyddu £90k yn y dyfodol, wrth gymharu â'r gost drafnidiaeth gyfredol, oherwydd y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod ysgolion yr ardal eisoes yn dros gapasiti, felly byddai'n rhaid cludo unrhyw ddisgyblion ychwanegol i ysgolion sydd â lleoedd dros ben. Rhagwelir y byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar gost o oddeutu £90k y flwyddyn.

Felly, bydd osgoi cost o £ 20k yn y dyfodol o dan y pennawd trafnidiaeth os gwireddir y cynnig.

### 10.2 Amcan Gost Gyfalaf Ysgol Corn Hir Newydd

Bu i'r Cyngor basio penderfyniad i'r holl dderbyniadau cyfalaf sy'n deillio o gau ysgolion gael eu neilltuo ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Drwy ddarparu Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu, bydd yr Ysgol Bodffordd a'r Ysgol Corn Hir bresennol yn cyflawni'r gofynion.

Bydd gwerthu Ysgol Corn Hir yn rhyddhau derbyniad cyfalaf thuag at y gost o adeiladu'r ysgol Corn Hir newydd. Gwneir unrhyw benderfyniad ynglŷn â dyfodol Ysgol Bodffordd yn dilyn trafodaethau â grwpiau cymuned lleol sydd â diddordeb mewn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol ar y safle.

Amcangyfrifir mai cost gyfalaf y cynnig yn bresennol fydd £9.527m; ariennir y gost yn rhannol (50%) gan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Gall y gost gyfalaf gynyddu'n unol â chwyddiant ac o ganlyniad i Brexit, ac mae costau deunyddiau adeiladu am gynyddu yn Ionawr ac Ebrill 2020.
Gall y Cyngor ddiogelu £640k o gyllid ychwanegol gan Llywodraeth Cymru, i hwyluso a chefnogi cyd-leoliad y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth Gofal Plant fel rhan o'r cynnig hwn. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad "Ffyniant i Bawb" Llywodraeth Cymru i gyflwyno canolfannau dysgu cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig gofal plant, cefnogaeth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad cymunedol at gyfleusterau o amgylch yr ysgol.

Y bwriad yw cyllido adran ofal plant yr adeilad newydd 100% gan grant Llywodraeth Cymru (£640k). Rhagwelir hefyd y bydd 50% o gost gyfalaf yr ysgol yn cael ei chyllido gan grant Llywodraeth Cymru (£4.764m). Disgwylir y bydd gofyniad cyllid yr Awdurdod, sef £4.764m, yn cael ei gyllido drwy:

- £320k o dderbyniadau cyfalaf drwy werthiant safleoedd sydd dros ben;
- £4.444m o fenthyciad digefnogaeth nad ydyw'n denu grant llywodraeth.

Dangosir cyfanswm y gost a ffynonellau'r cyllid yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y Gost( Yn cynnwys grant gofal plant £640k) | £10,167,360 |
| Grant Ysgolion 21ain Ganrif( Yn cynnwys grant gofal plant £640k) | £5,403,680 |
| Cyfraniad yr Awdurdod i'r prosiect | £4,763,680 |

Rhagwelir y bydd arbedion refeniw'r prosiect hwn (ac eithrio costau cyllido sy'n gysylltiedig â'r adeilad):
- tua £15k y flwyddyn yn ôl y fformiwla cyllido ysgolion; ac
- arbedion costau cludiant pellach o £20k gan y byddai'n rhaid cludo disgyblion i ysgolion tu allan i'r dalgylch fel arall oherwydd diffyg capasiti;
- a fyddai'n arwain at arbediad refeniw net cyfredol o £35k y flwyddyn.

Y gost am fenthyciad di-gefnogaeth o £4.444m fydd tua £213k y flwyddyn. Clustnodir yr £35k o arbediad refeniw a ddaw o ganlyniad tuag at ad-dalu'r benthyciad di-gefnogaeth, a disgwylir £60k y flwyddyn gan

y datblygwr tai rhwng 2019/20 a 2026/27. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y ffordd orau i gyllido'r diffyg sy'n weddill (£178k neu £118k).

Bydd rhaid cyllido rhai costau trosiannol tymor byr. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Costau unwaith ac am byth ychwanegol i alluogi rhyddhau aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o'r Ysgol Corn Hir bresennol i baratoi ar gyfer agor yr Ysgol Corn Hir newydd a throsglwyddo disgyblion o Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i'r adeilad newydd. ;
- Potensial o gostau colli gwaith a potensial o amddiffyniad tâl i staff;
- Costau'r 2 adeilad sydd wedi cau tan y gellir cael gwared ohonynt.

Mae rhoi amcangyfrif o'r gost drosiannol yn her gan ei bod yn dibynnu'n fawr ar y staff sy'n gysylltiedig. Yn seiliedig ar y senario drutaf, amcangyfrifir y bydd y gost drosiannol oddeutu £ 40k y flwyddyn dros gyfnod o rhwng 3 a 5 mlynedd ..
Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno ar bolisi, y bydd balansau ysgolion bydd yn cau yn trosglwyddo i'r ysgol olynol, hyd at y trothwy isaf o £50,000 neu 5% o'r gyllideb flynyddol. Bydd unrhyw falansau dros ben sy'n uwch na'r terfyn hwn yn cyfrannu at y costau trosiannol yr eir iddynt.

## 11. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir (gweler adran 7 a 9) a'u heffaith bosib ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned a threfniadau teithio Ysgol Bodffordd (adran 8), cynnig dewisol yr Awdurdod i ymgynghori arno yw:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".**

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r datrysiad gorau posib sy'n mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni a'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

Mae potensial iddo gael effaith gadarnhaol ar **safonau**, h.y.
- byddai arferion presennol yn cael effaith gadarnhaol ar yr Ysgol Corn Hir newydd;
- byddai staff yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn gallu gweithio ynghyd, rhannu arfer dda a datblygu arbenigeddau mewn meysydd cwricwlwm penodol;
- byddai'n sicrhau nad oes ystod oedran o fwy na dwy flynedd mewn dosbarthiadau;
- posibilrwydd o ystod ehangach o arbenigeddau a chapasiti i gynnig cyfleoedd a'r addysg gorau bosib ar gyfer plant a phobl ifanc ac i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy abl a thalentog;
- byddai unrhyw adeilad newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif ac yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.

Mae potensial iddo gael effaith niwtral ar y **gymuned**, h.y. cynnig y posibilrwydd o barhad y Ganolfan Gymuned ym Modffordd. Yn ogystal â hyn, byddai'r cyfleusterau yn yr ysgol Corn Hir newydd ar gael i'w defnyddio os byddai'r nifer o bobl sy'n mynychu gweithgaredd ym Modffordd yn debygol o fod yn fwy na chapasiti'r Ganolfan Gymuned.

Mae'n debygol o gael effaith negyddol ar **drefniadau teithio rhai disgyblion** gan y byddai tua 1/3 yn byw'n agosach at y safle arfaethedig [ger Corn Hir] a thua 2/3 o ddisgyblion, yn bennaf o Fodffordd, yn gorfod teithio ymhellach i safle arfaethedig yr ysgol newydd ger ardal Corn Hir. Cynigia'r Awdurdod y byddai'n darparu cludiant i'r Ysgol Corn Hir newydd yn ddi-dâl i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu Ysgol Bodffordd ar hyn o bryd sydd yn byw yn dalgylch presennol Ysgol Bodffordd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

Glyna'r cynnig at amcanion y rhaglen Band 'A' 21ain Ganrif a Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 sy'n anelu at:
- wella cyrhaeddiad a safonau addysg;
- gynyddu capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth;
- leihau lleoedd gweigion;
- leihau'r ystod o wariant fesul disgybl drwy gynnig cyfleoedd mwy cyfartal ar draws ysgolion;
- gynnal a gwella darpariaeth iaith Gymraeg;

- sicrhau bod adeiladau ysgol yn ffit i bwrpas;
- wella defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Ariennir y cynnig 50/50 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy raglen Band ‘A’ ysgolion yr 21ain ganrif. Byddai buddsoddiad y Cyngor yn dod o fenthyciad 50 mlynedd ac yn rhannol drwy’r derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthiant safle presennol Ysgol Corn Hir.

Yn ogystal â hyn, ac i wireddu’r cynnig, bydd y Cyngor yn ymateb i faterion penodol a gododd o’r asesiadau effaith a ymgymerwyd â nhw drwy:

- Ddarparu gwasanaeth bysiau o Fodffordd i safle’r Ysgol Corn Hir newydd yn unol â pholisi cludiant ysgolion yr Awdurdod;
- Weithio â’r gymuned ym Modffordd i sicrhau dyfodol hirdymor y Ganolfan Gymuned.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

**Cynnig i**

# "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"

## ASESIAD EFFAITH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 12 Gorffennaf 2019 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Carol Sorahan – Rheolwr Rhaglen |
| **Dyddiad adolygu** | Mae hon yn ddogfen weithio ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i ymgynghoriad yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn diwygiedig, a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law. |

**CYNNWYS**

1. CYFLWYNIAD .... 3
2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB .... 4
3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG .... 14
4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL .... 27
5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 .... 41
6. CASGLIAD .... 44
Atodiad 2 – Hawliau Dynol .... 45
Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .... 45

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth gynnig unrhyw newidiadau i drefniadaeth eu hysgolion, mae gofyn i Awdurdodau Lleol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru, ymgymryd ag asesiadau o'r effaith y cânt ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned.

Y cynnig dan sylw yw:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur er mwyn asesu defnydd cymunedol yn yr ysgolion ac i gael manylion am unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn y gymuned leol neu yn y gymuned ehangach.

Seiliwyd y dystiolaeth a gasglwyd er pwrpas yr asesiadau ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad Effaith Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad Effaith Cymunedol
Adran 5 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Adran 6 – Casgliad

**Mae hon yn ddogfen waith ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu at yr asesiad effaith.**

| **Hanes adolygu**: | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 0.1 | 12 Gorffennaf 2019 | Drafft cyntaf |
| 0.2 | 19 Awst 2019 | Ail ddrafft |
| 0.3 | 29 Awst 2019 | Trydydd ddrafft |
| 0.4 | 13 Tachwedd 2019 | Diweddaru data |
| 0.5 | 18 Rhagfyr 2019 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |

## 2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ymgymerwyd â'r asesiad effaith cydraddoldeb hwn i gwrdd â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Rho Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau i ystyried:

- Ddileu anffafriaeth, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd yr amddiffynnir a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd yr amddiffynnir a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n amddiffyn y naw nodwedd ganlynol (yr adnabyddir fel 'grwpiau yr amddiffynnir'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 2.2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol Cymru) 2011

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau uchod i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith polisïau ac arferion ar grwpiau yr amddiffynnir gan y Ddeddf. Golyga hyn bod rhaid i'r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau yr amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' (*h.y. rhoi pwysau priodol*) i ganlyniadau'r fath asesiadau.

Bydd cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r achosion busnes moderneiddio ysgolion yn ystod proses datblygu'r prosiect ac os caiff ei wireddu, bydd y gwir effaith yn cael ei monitro. Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i bawb.

### 2.3 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

| **2.3.1 Cefndir** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig a asesir yw **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".** |
| **Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Mae'r Awdurdod eisoes wedi ymgynghori ar y cynnig ar ffurf wahanol. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Newid a gwella darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni isod:<br>▪ Sicrhau fod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws bob ysgol i sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd eu potensial.<br>▪ Sicrhau fod gan ysgolion leoedd digonol ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol.<br>▪ Sicrhau fod yr amrywiadau yn y gwariant fesul disgybl yn cael eu gwneud yn unol ac yn fwy cyson ar draws yr ysgolion.<br>▪ Sicrhau bod ansawdd ystâd yr ysgolion ar sylfaen cadarn ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Sicrhau bod strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth ein hysgolion yn darparu sail gadarn ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth strategol ein hysgolion i'r dyfodol. |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Carol Sorahan, Rheolwr Rhaglen |
| **Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen<br>Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen |

| 2.3.1 Cefndir | |
|---|---|
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?** | Oes – mae'r cynnig yn rhan o strategaeth moderneiddio ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, asesir bob cynnig ar ei rinweddau ei hun. |
| **Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Ar gyfer y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig, h.y. Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgol, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ddwy ysgol. |

| 2.3.2 Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydyw - fe'i hasesir ar wahân yn yr adran Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). | |
| **Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Os gwireddir y cynnig, bydd darn o'r ysgol Corn Hir newydd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer gwersi Cymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn penderfynu a fydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg yn ddyddiol. | |
| **A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – asesir hwn ar wahân yn adran Asesiad Effaith Iaith y ddogfen hon (Adran 3). | |
| **A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hybu'r iaith Gymraeg yn yr Ysgol Corn Hir newydd ac yn yr ardal dan sylw h.y. Llangefni a Bodffordd. | |
| **Oes yna unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (**Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2). | Nac oes. Dim materion Hawliau Dynol wedi ei adnabod. | |
| **Ydi'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** | Cymru lewyrchus | Ydyw |
| | Cymru gydnerth | Ydyw |
| | Cymru iachach | Ydyw |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydyw |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydyw |

| | | |
|---|---|---|
| (Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydyw |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydyw |
| | Asesir hwn hefyd ar wahân yn adran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) y ddogfen hon (Adran 5). | |
| **Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gyda rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar dri achlysur gwahanol sef Hydref – Tachwedd 2016; Ionawr – Mawrth 2017 a Chwefror – Ebrill 2018.<br>Cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriadau hyn mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016, 17 Gorffennaf 2017 a 30 Ebrill 2018.<br>Paratôdd yr Awdurdod asesiadau effaith cydraddoldeb, cymunedol ac iaith ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol. | |
| **Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | Do – mae'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgolion wedi'i gynnwys:<br>Cydbwysedd rhywedd, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a phrydau ysgol am ddim.<br>Gyrrwyd holiaduron i Benaethiaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chynhwyswyd yr hyn a gyflenwyd ganddynt yn yr asesiad yma. | |
| **Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod hyd yma. | |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut y cydymffurfia'r Awdurdod â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phwy sydd wedi eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu anffafriaeth ac aflonyddu** | √ | |
| **Gwella cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin perthnasau da** | √ | |
| **Amddiffyn ac hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

**2.3.3 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae'r Awdurdod wedi ystyried effeithiau negyddol, niwtral a chadarnhaol y cynnig ac wedi adnabod beth y gellir ei wneud i leihau neu i wella'r effaith.

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg lawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn derbyn disgyblion yn 3 oed yn rhan amser.</td><td>Bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol gynradd newydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno a fydd yn cael eu trefnu ar y cyd. Bydd yn darparu cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Os gwireddir y cynnig:<ul><li>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gwbl hygyrch i bob disgybl.</li><li>Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol. Fodd bynnag, mewn ysgol fwy, bydd mwy o staff yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n bosib y bydd cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod fwy o arbenigeddau i allu ymdrin â sbectrwm mwy eang o ADY.</li></ul></td><td>Bydd yr Awdurdod yn darparu cynhorthwy a chymorth priodol i anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Asesir anghenion unigol wrth drosglwyddo i unrhyw ysgol.<br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cynhorthwy a chymorth priodol i anghenion aelodau o staff.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw cyfredol a'r rhaniad os gwireddi'r y cynnig.<table><tr><th>Rhyw</th><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th><th>Ysgol Corn Hir Newydd</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>56%</td><td>53%</td><td>54%</td></tr><tr><td>Merched</td><td>44%</td><td>47%</td><td>46%</td></tr></table></td><td>Caiff perfformiad bob disgybl ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL), plant mewn gofal a'r mwy galluog a thalentog. Caiff perfformiad addysgol bechgyn a merched ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng bechgyn a merched a'r grwpiau amrywiol cysylltiedig.</td></tr>
</table>

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Newid Rhyw** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd. | Os oes problemau yn codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail priodas/partneriaeth sifil ymysg staff yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Mae gan staff benywaidd sy'n dod yn feichiog hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan staff gwrywaidd hawl i gyfnod tadolaeth yn unol â'r Polisi Cyfnod Tadolaeth. Nid oes tystiolaeth bod unrhyw wahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd ymysg staff yr ysgolion. |
| **Hil** | Dim effaith | Data CYBLD Ionawr 2019<br>**Ysgol Bodffordd**: Gwyn Prydeinig 96.5%<br>**Ysgol Corn Hir**: Gwyn Prydeinig 96.9% | Os byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os byddai aelodau o staff o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr Ysgol Corn Hir newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. |
| **Crefydd neu Gred** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Gall y cynnig ddarparu'r cyfle i wella dealltwriaeth disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd mewn niferoedd disgyblion wrth i ddisgyblion gymysgu â disgyblion eraill o gefndiroedd mwy amrywiol.<br>Dewis y rhieni yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chrefydd neu gred eu plentyn â'r ysgol.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol ymysg staff ysgol. Dewis y |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | rhiant yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol eu plentyn â'r ysgol.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd ymysg staff na disgyblion yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>Ystyrir ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod. | Negyddol | Enwir Ysgol Bodffordd fel ysgol wledig yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br>Mae'r adroddiad thematig "Ysgolion Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion llai i gydweddu'r gwaith gydag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr o ran oedran a chamau datblygiad." Mae hyn yn berthnasol i ysgolion bychain. Mae ystwythder o ran staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy ym Môn. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at y gymuned, defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Mae gan ysgolion mwy hefyd ran allweddol i'w chwarae o ran yr agwedd hon.<br>Mewn ysgol gynradd fwy fel yr un a gynhigir, mae mwy o staff yn debygol o arbenigo mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.<br>Wrth ystyried ei opsiynau moderneiddio ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac anghenion hirdymor ein cymunedau drwy gydweithrediad.<br>Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i weithio â chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi pe byddai'r ysgol yn cau.<br>Gellid lliniaru effaith negyddol bosibl cau Ysgol Bodffordd a'r Ganolfan Gymunedol trwy weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol. |

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Cymdeithasol-economaidd arall<br>Y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.</td><td>Cadarnhaol</td><td>Byddai'n darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion y ddwy ysgol i fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br><table><tr><th colspan="2">Ffigyrau Prydau Ysgol am Ddim CYBLD 2019</th></tr><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>15 disgybl neu 21%</td><td>14 disgybl neu 6%</td></tr></table><br>Ar hyn o bryd, mae 14.4% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Môn â hawl i brydau ysgol am ddim.</td><td>Yn yr Ysgol Corn Hir newydd, byddai'r Awdurdod yn darparu system ddi-arian parod ar gyfer prydau ysgol am ddim, a fyddai'n atal unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.<br>Yn ôl niferoedd presennol, tua 10% fyddai'r nifer o blant â hawl i brydau ysgol am ddim os byddai'r cynnig yn cael ei wireddu.<br>Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (PYD) yn y ddwy ysgol yn rhagorol, a disgwylir i hyn barhau yn yr Ysgol Corn Hir newydd.</td></tr>
<tr><td>Cymdeithasol-economaidd arall<br>Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.</td><td>Cadarnhaol</td><td>Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y ddwy ysgol fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig.</td><td>Disgwylir i'r ysgol Corn Hir newydd fod â darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol o ran clybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, bydd pob disgybl, beth bynnag eu cefndir, yn cael eu hannog i gymryd rhan, a disgwylir i'r ysgol wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai ffodus i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynnal y clybiau yn ystod amser cinio, trefniadau â rhieni i godi eu plant neu drefniadau cludiant, a darparu cludiant ar ôl ysgol.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Effaith gyfunol ar gydraddoldeb | **+3 Cadarnhaol** |

**Casgliad – Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.**

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg ar wahân yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (Adran 3).

| **2.3.4 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| **Nodwch sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol yr amlygir yn 2.3.3** | Y cynnig yw i **,"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".**<br>Gellid lliniaru effaith negyddol bosibl cau Ysgol Bodffordd a'r Ganolfan Gymunedol trwy weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol. |
| **Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nac eu lliniaru?** | Nid oes effeithiau negyddol o'r asesiad hwn na ellir eu lliniaru. |
| **Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 3)<br><br>Asesir sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant ymhellach ymlaen yn y ddogfen (Adran 5). | **Cymru lewyrchus** - pe gwireddid y cynnig, byddai'n arwain at leihad mewn defnydd o ynni yn yr adeilad a lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid. Bydd yr addysg a dderbynnir gan y disgyblion yn cynorthwyo i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ar gyfer y dyfodol.<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal –** bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd yn ffit i bwrpas a bydd yn sicrhau bod capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu.<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd wedi'i lleoli o amgylch Bodffordd a dalgylch Corn Hir.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei hadeiladu i safonau BREAAM ac yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Defnyddir hwn a rhannau penodol o'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw a thyfu mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Gweler yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn Adran 3. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg a bydd y cynnig yn o leiaf cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Sir.<br>Bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd Ardal Gemau Amlbwrpas (MUGA) a fydd yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. |
| **A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na |
| **A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd papur cynnig yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith i roi awdurdod i swyddogion i symud ymlaen ag ymgynghoriad statudol. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol yna'n cael ei baratoi a bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig neu beidio. |
| **Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes – bydd y paramedrau canlynol yn parhau i gael eu monitro:<br>Oedran disgyblion; cydbwysedd rhyw'r disgyblion; data hil/ethnigrwydd/ cenedligrwydd; yr iaith a siaredir gan ddisgyblion; % o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br>Rhoddir ystyriaeth hefyd i fonitro'r data canlynol:<br>% o ddisgyblion sydd ar Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br>% o ddisgyblion sydd wedi nodi anawsterau corfforol<br>% o staff sydd wedi datgan anabledd |

## 3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Mae'r un disgwyliad yn wir o ran y Gymraeg ym mhob ysgol, sy'n darparu cyfle i bob disgybl yn y Sir i ennill sgiliau priodol i fod yn hyderus yn ddwyieithog. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw raglen newydd a gyflwynir - megis prosiectau'n deillio o'r rhaglen Ysgolion 21ain ganrif - yn amodol ar ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o ganolfannau'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Polisi Iaith Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn destun i'r nod a'r amcanion canlynol:

### 3.1 Nod:

I bob disgybl sy'n mynd drwy system addysg Môn fod yn ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu'n gyfartal yn y ddwy iaith ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

### 3.2 Amcan Cyffredinol:

- Datblygu capasiti bob disgybl a myfyriwr yn y Sir i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

- Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith ymysg y gweithlu addysg a phlant ifanc sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr awdurdod ac fel cyfrwng dysgu.

- Bod holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiaeth, yn eu bywydau cymdeithasol ac yn eu trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

### 3.3 Amcanion Penodol:

- **Blynyddoedd cynnar** - Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth bwrpasol ac effeithlon gan gynnwys trochi i bob disgybl beth bynnag eu cefndir ieithyddol i sicrhau sylfaen cadarn yn yr iaith i'w galluogi i gyflawni'r nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted a bo modd.

- **Cyfnod sylfaen -** Adeiladu ar y sylfaeni a osodir yn y blynyddoedd cynnar drwy ddatblygu'r gafael sydd gan y disgyblion ar yr iaith, a dechrau ar y broses o ddatblygu eu sgiliau Saesneg cyn diwedd y cyfnod.

- **Cyfnod Allweddol 2(CA2) -** Parhau i ddatblygu medrau Cymraeg a Saesneg y plant gan roi sylw i ddatblygu eu medrau iaith yn y ddwy iaith drwy sicrhau lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y cyfnod gyda chynllunio pwrpasol.

  I ddisgyblion sy'n ddysgwyr Cymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosib drwy ganolfannau iaith cynradd.

**Addysg arbennig:** O ran disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys, mae gan Bennaeth yr hawl i ystyried bob achos yn unigol (drwy ymgynghori â'r Gwasanaeth Dysgu), gan sicrhau fod gan ddisgyblion y medrau ieithyddol angenrheidiol i ymdopi fel oedolion yn eu cymunedau.

**3.4 Defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion**

Cymraeg yw categori iaith Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Categori iaith yr Ysgol Corn Hir newydd fydd Cymraeg.

Asesir effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg isod (3.5).

### 3.5 Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | Mae hon yn ddogfen waith a fe'i hadolygir yn rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i ymgynghoriad yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn diwygiedig, a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law. |

| **3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw ddatblygiad Technoleg Gwybodaeth ( TG) newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydyw, effaith gadarnhaol- gweler isod.<br><br>Bydd – bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebiadau yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob arwydd yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |

| **3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith? | Gweler isod. |
| A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd? | Bydd unrhyw swyddi athrawon newydd yn cael eu creu yn ôl y strwythur staffio a ddatblygir gan y corff llywodraethu Ysgol Corn Hir newydd. |
| A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith? | Bydd – bydd unrhyw staff newydd a benodir yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddent yn parhau i roi'r polisi ar waith. |
| A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith? | Bydd – bydd trefniadau â thrydydd partïon yn cydymffurfio â'r polisi iaith. |
| A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg? | Bydd – y % o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'r % o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref. |
| Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | Gyda data a gesglir gan y Gwasanaeth Addysg megis y % o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis y canran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr. |

| **3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr? | Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg. |
| A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd y gwasanaeth cyfan ar gael yn Gymraeg - fodd bynnag, bydd disgyblion yn cael dysgu rhai pynciau trwy gyfrwng y Saesneg. |

| 3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br><br>A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na - bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod.<br><br>Ydyw – anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg yw un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y cynnig hwn.<br><br>Ydyw – darperir yr un safon o wasanaeth i bob disgybl.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oediad yn y gwasanaeth. |
| A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | Bydd- gweler isod.<br><br>Ydyw – bydd arwyddion yn yr adeilad ysgol arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio deunydd iaith Gymraeg.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r polisi yn sicrhau y gwelir arwyddion dwyieithog gan lawer yn yr ardal. |
| A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg?<br><br>A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd- gweler isod.<br><br>Bydd – bydd disgyblion yn derbyn addysg mewn Cymraeg a Saesneg. Bydd gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn ddwyieithog e.e. darpariaeth cludiant a gofal plant.<br><br>Byddant – bydd plant yn derbyn addysg gan staff dwyieithog. |

| 3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau? | Bydd y Cyngor eisiau gweithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau dyfodol hirdymor y ganolfan gymunedol. |

| **3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br><br>A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br><br>A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Ydyw – bydd y cynnig yn darparu lleoedd digonol i ddisgyblion presennol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ac hefyd yn darparu lleoedd digonol i ddisgyblion sy'n dod o ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch.<br>Ydyw – gall ddarparu mwy o swyddi yn ardal yr Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig o Langefni.<br><br>Bydd – mae'r cynnig hefyd yn cynnwys uned Feithrin ar gyfer plant cyn-ysgol. |
| A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br><br>A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br><br>A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydyw- gweler isod.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br>Ydyw – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg mewn clybiau ar ôl ysgol.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r cynnig hwn yn darparu Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau Urdd yn parhau yn yr Ysgol Corn Hir Newydd. |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig? | <br><br>Ydyw – Llywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'r prosiect yn rhannol. |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br><br>A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Llywodraeth Cymru.<br><br>Oes – mae gan Lywodraeth Cymru ei safonau neu bolisïau iaith Gymraeg ei hun.<br><br>Ydyw – bydd y cynnig hefyd yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br>A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2020 yn y ffyrdd canlynol:<br>**Deilliant 1** – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>**Deilliant 2** – Sicrhau bod cynhigion Ysgolion 21ain Ganrif yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Drwy gael Uned Gofal Plant a fydd yn darparu gofal cofleidiol i blant cyn-ysgol a byddai'n darparu sylfaen cadarn i'r plant yno cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd newydd. Felly byddai'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o blant saith oed yr addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 uchod.<br>Drwy weithredu'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a thrwy ddosbarthu cynllun moderneiddio ysgolion y Sir, bydd yn helpu i Sicrhau bod cynhigion Ysgolion 21ain Ganrif yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant hyd at 11 oed.<br>Mae polisi iaith newydd yr Awdurdod yn cyfeirio at yr amcan i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cwrdd â thargedau Cymraeg fel Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol. Bwriedir defnyddio model gofal plant fel yr un dan ystyriaeth yn y prosiect hwn i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn. |

| 3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfranogwr allweddol i uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu gweithgareddau drwy'r Urdd (gweler Asesiad Effaith Cymunedol – Adran 4) a byddai hyn yn wir hefyd yn yr Ysgol Corn Hir newydd.

**NODER** – Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn cynnig gwersi Cymraeg i'r gymuned – mae'n debyg iawn bod hyn oherwydd nad oes llawer o alw am wersi Cymraeg yn yr ardal gan fod dros 75% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ysgol gyfleuster i gynnig gwersi Cymraeg a byddai gan yr Ysgol Corn Hir newydd ystafell gymunedol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg neu ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe byddai Canolfan Gymunedol Bodffordd yn aros yn y pentref ar ôl agor yr Ysgol Corn Hir newydd, byddai'r gwasanaethau a'r darpariaethau a ddarperir yno yn parhau.

### 3.5.5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ac ysgol gyfrwng Cymraeg fyddai'r Ysgol Corn Hir wedi ei hadleoli a'i hehangu hefyd. Felly ni fydd newid yn y categori iaith os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig.

Byddai gwireddiad y cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018)

**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod yn chwarterol.

### 3.5.6 Effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg

| **Meini Prawf Iaith** | **Arsylwadau** | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Yr iaith a siaredir yn y cartref | Siaradwyr Cymraeg rhugl yn y cartref (pob oedran):<br>• Ysgol Bodffordd – 67 disgybl neu 85%<br>• Ysgol Corn Hir – 137 disgybl neu 61%<br>Data (CYBLD Ion 2019) | Niwtral | Pe gwireddid y cynnig, ar sail ffigyrau cyfredol, byddai 67% neu 204 o'r disgyblion yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Byddai gwireddu'r cynnig yn rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gyfathrebu â chanran uwch o ddisgyblion (mewn cymhariaeth â'r nifer presennol o ddisgyblion yn y ddwy ysgol). |
| Categori iaith yr ysgolion presennol | Bodffordd – Cymraeg<br>Corn Hir – Cymraeg<br>**Statws Siarter Iaith Gymraeg**<br>Bodffordd - Efydd (2016)<br>Corn Hir – Aur (2018) | Cadarnhaol | Addysgir disgyblion y ddwy ysgol yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd datblygu disgyblion dwyieithog yn ffocws parhaol ac arwyddocaol yn y Cynllun Gweithredu Ysgol.<br>• Gellir targedu datblygiad anghenion iaith penodol y garfan gyda threfniadau dosbarth.<br>• Wrth dracio disgyblion, bydd eu cynnydd mewn datblygu dwyieithrwydd yn cael ei ystyried.<br>• Bydd adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau'r disgyblion ym mhob carfan iaith.<br>• Cynnydd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol<br>• Cynnydd o ran y Siarter Iaith<br><br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57% o bobl Môn yn siarad Cymraeg. Mae'r canran wedi lleihau dros y degawdau diwethaf – roedd | Cadarnhaol | Angen hybu defnydd o'r Gymraeg (Asesiad Lles Ynys Môn 2017). Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn |

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td></td><td>62% o bobl Môn yn gallu siarad Cymraeg yn 1981.</td><td></td><td>cynorthwyo i gynyddu defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned.<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o’r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae’r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o’r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro’n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br><br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o’r Gymraeg a bydd yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o’r Gymraeg gan ddisgyblion yn ystod oriau ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ar y safle.</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth addysg/ asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (FP, 7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (CA2, 11 oed)</td><td>Cyfnod Sylfaen
<table>
<tr><td colspan="4">% o ddisgyblion sy’n cyflawni Deilliant CS 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg</td></tr>
<tr><th>Ysgol</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th></tr>
<tr><td>Bodffordd</td><td>100.0%</td><td>88.9%</td><td>80.0%</td></tr>
<tr><td>Corn Hir</td><td>97.1%</td><td>100.0%</td><td>96.8%</td></tr>
</table>
<table>
<tr><td>% o ddisgyblion sy’n cyflawni Deilliant CS 6 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg</td></tr>
</table></td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae’r data gyferbyn yn dangos fod y ddwy ysgol gynradd yn perfformio’n dda o ran yr iaith Gymraeg. Mae holl ddisgyblion y ddwy ysgol yn derbyn eu hasesiadau athrawon yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ni fydd newid felly yn hyn o beth waeth beth fydd yn digwydd. Fodd bynnag, mae lle i wella.<br><br>Gellir gweld o’r data gyferbyn bod y nifer o ddisgyblion sy’n cyflawni’r safon ofynnol ychydig yn uwch yn Ysgol Corn Hir. Bydd hyn yn arwain at well safonau Cymraeg yn yr Ysgol Corn Hir newydd.</td></tr>
</table>

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | (see tables below) | | Gellid darparu adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion, gan ddarparu arsylwadau ar lythrennedd, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â'u cynnydd tuag at fod yn ddwyieithog. |

| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 71.4% | 55.6% | 60.0% |
| Corn Hir | 52.9% | 50.0% | 48.4% |

**Cyfnod Allweddol 2**

% o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 CA2 neu uwch mewn **Cymraeg** iaith gyntaf

| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 88.9% | 100.0% | 77.8% |
| Corn Hir | 96.9% | 100.0% | 93.3% |

% o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 CA2 neu uwch mewn **Cymraeg** iaith gyntaf

| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 22.2% | 16.7% | 11.1% |
| Corn Hir | 40.6% | 52.4% | 53.3% |

% o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 CA2 neu uwch mewn **Saesneg** iaith gyntaf

| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 88.9% | 100.0% | 88.9% |
| Corn Hir | 93.8% | 100.0% | 93.3% |

% o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 CA2 neu uwch mewn **Saesneg** iaith gyntaf

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td></td><td><table><tr><th>Ysgol</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th></tr><tr><td>Bodffordd</td><td>33.3%</td><td>66.7%</td><td>11.1%</td></tr><tr><td>Corn Hir</td><td>46.9%</td><td>57.1%</td><td>53.3%</td></tr></table>Setiau Data Craidd Cymru Gyfan</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol</td><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol yw dwyieithog.</td><td>Niwtral</td><td>Ni fydd hyn yn newid yn yr Ysgol Corn Hir newydd. Gellir gwella hyn drwy ddarparu mwy o le i chwarae a thrwy gynllunio chwarae strwythuredig ar yr iard.<br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r iaith gan ddisgyblion.</td></tr>
<tr><td>Ymglymiad yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg</td><td>Mae'r ddwy ysgol wedi'u hymrwymo mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.</td><td>Niwtral</td><td>Ni fydd hyn yn newid yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br>Gweler gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau a gynhelir yn y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith Cymunedol isod.</td></tr>
<tr><td>Gallu staff addysgu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Bob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td><td>Bob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw newid yn statws ieithyddol yr Ysgol Corn Hir newydd .</td></tr>
<tr><td>Gallu Llywodraethwyr i siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Bob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (8 allan o 8)</td><td>Bob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (12 allan o 12)</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae'r ddwy set o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg felly ni fydd newid yn natur ieithyddol y Llywodraethwyr os gwireddir y cynnig.</td></tr>
</table>

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Effaith gyfunol ar yr iaith Gymraeg | **+3 Cadarnhaol** | |

**Casgliad – byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.**

## 4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig "i adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, a chau Ysgol Bodffordd" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd ac yn Ysgol Corn Hir dros y 5 mlynedd ddiwethaf a rhagolygon niferoedd disgyblion am y 5 mlynedd nesaf:

### 4.1 Niferoedd disgyblion yn y gorffennol

| Ysgol | Capasiti – heb y Meithrin | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2015 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2016 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2017 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2018 | Nifer presennol o ddisgyblion ar y gofrestr Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 61 | 55 | 68 | 63 | 70 |
| Corn Hir | 204 | 200 | 207 | 221 | 224 | 226 |

**Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol 11% dros eu capasiti**

### 4.2 Rhagolygon Pum Mlynedd 2020-2024

| | Capasiti – heb y Meithrin | Rhagolygon niferoedd Medi 2020 | Rhagolygon niferoedd Medi 2021 | Rhagolygon niferoedd Medi 2022 | Rhagolygon niferoedd Medi 2023 | Rhagolygon niferoedd Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 74 | 76 | 77 | 79 | 74 |
| Corn Hir | 204 | 238 | 242 | 242 | 241 | 243 |

Mae rhagolygon yn cadarnhau y bydd niferoedd disgyblion yn cynyddu i gyfuniad o 320 erbyn 2024.

O ganlyniad, mae'r cynnig i adeiladu ysgol sydd â chapasiti o 360 yn realistig ac yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Fuddsoddi Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r capasiti newydd yn darparu ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod.

| Ysgol | Nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Bodffordd | 18 | 3 |
| Corn Hir | 219 | 37 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu fod gan bob tŷ ym Môn gyfartaledd o 0.17 o blant oed cynradd. Drwy luosi'r nifer o ddatblygiadau tai â 0.17, ceir amcangyfrif o'r nifer o blant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

Mae'n bwysig nodi bod rhagolygon yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Yn Hydref 2019:

- Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(59%)
- Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl]
- Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(72%)

- Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]

**4.3 Y Ddarpariaeth cyn ysgol**

Mae'r ddarpariaeth gyn-ysgol ganlynol ar gael yn ardal Bodffordd / Corn Hir Llangefni:

- Mae Ysgol Bodffordd wedi'i chofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 11 ac ym mis Medi 2019, roedd 15 o blant yn defnyddio'r cyfleuster hwn. Bydd y ddarpariaeth hon yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd.

Y rhagolygon ar gyfer darpariaeth feithrin i blant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd yw:

| Meithrin | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bodffordd | 15 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |

- Mae Cylch Meithrin yng Nghanolfan Gymuned Bodffordd sy'n gyllidol annibynnol o Ysgol Bodffordd. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru â'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod tymor ysgol yn unig. Mae rhan o'r cynnig yn cynnwys cau Ysgol Bodffordd, y gall fod â goblygiadau i'r Cylch Meithrin. Mae posibilrwydd y bydd niferoedd gofal plant cofleidiol yn lleihau wrth i'r plant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd drosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. Ym mis Medi 2019, roedd 17 o blant yn defnyddio'r cyfleuster hwn (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys plant sydd eisoes yn derbyn addysg blynyddoedd cynnar yn Ysgol Bodffordd).
- Lleolir Meithrinfa Blodyn Tatws ym Mharc Cefni, Bodffordd. Cofrestrir y gwasanaeth yn breifat i ofalu am uchafswm o 37 o blant o 3 mis oed i 12 oed. Ni chomisiynir y gwasanaeth hwn i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar. Gan fod galw am ddarpariaeth feithrin yn yr ardal, ychydig o effaith sydd gan y cynnig ar y ddarpariaeth breifat hon. (Nid yw'r uned gofal plant yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn darparu ar gyfer plant dan 2 oed).
- Mae Cylch Meithrin ar dir Ysgol Corn Hir. Mae'r gwasanaeth yn derbyn plant rhwng 2 – 4 oed ac ar hyn o bryd yn cynnal 2 sesiwn a hanner bob dydd i 26 o blant bob sesiwn. Ym mis Medi 2019, roedd 30 (2-3 oed) a 30 (3-4 oed) yn defnyddio'r cyfleuster hwn.

Mae'r Ysgol Corn Hir newydd yn cynnig uned gofal plant gyda chapasiti o hyd at 50 ar gyfer plant 2-4 oed ynghyd â chapasiti meithrin o 51 i gwrdd â'r galw.

## 4.4 Gwybodaeth ynglŷn â'r ysgolion

**Ysgol Bodffordd (**Bodffordd, Ynys Môn LL77 7LZ**)**
Codwyd Ysgol Bodffordd yn 1880 ac adeiladwyd rhan gymunedol yr adeilad yn 1986.
Mae'n adeilad to pîg unllawr. Mae tair ystafell ddosbarth gan gynnwys ystafell a arferai fod yn ystafell adnoddau yn ogystal â neuadd / ffreutur [107.5m2], ystafell staff a swyddfa i'r Pennaeth.
Mae man chwarae caled a maes chwarae ar y safle. Mae'r neuadd hefyd yn cael ei defnyddio gan y gymuned.

Yn Hydref 2019, roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 41 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (59%) Mae 10% o ddisgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir [ 7 Disgybl]

**Ysgol Corn Hir** (Llangefni**,** Ynys Môn LL77 7JB)

Adeiladwyd Ysgol Corn Hir yn 1986. Mae wyth ystafell ddosbarth sy'n cynnwys yr ystafell ddosbarth symudol. Mae ystafelloedd dosbarth wedi disodli'r ganolfan adnoddau a'r llyfrgell a oedd ar y safle. Yn ogystal â'r neuadd / ystafell fwyta [102.4m2], mae ystafell staff a swyddfa i'r Pennaeth.
Mae man chwarae caled a maes chwarae ar y safle.
Yn Hydref 2019, roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 166 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (72%). Mae 3% o ddisgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Corn Hir yn dod o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 Disgybl]

## 4.5 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion

Cafwyd manylion o gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Darparodd Cyngor Cymunedol Bodffordd hefyd fanylion ynglŷn â gweithgareddau lleol a gynhelir.

### 4.5.1 Gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:

| Ysgol Bodffordd Gweithgaredd | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clwb Chwaraeon yr Urdd | 3.30-4.30 | Unwaith yr wythnos yn ystod tymor yr haf |
| Clwb Rygbi ar ôl ysgol | 3.30-4.30 | Pan mae'r cae yn briodol i'w ddefnyddio |
| Clwb Plant (gofalu am blant sydd â brodyr neu chwiorydd yn CA2 rhwng 3:00 a 3:30) | Tymor | Bob dydd am 3yh yn ystod y tymor |
| Gweithgareddau'r Urdd (achlysurol)<br>• Sinema<br>• Cwis<br>• Celf a Chrefft | 3.30-5.00 | Anelu at unwaith y mis |
| Cae'r ysgol ar gael i blant lleol drwy'r flwyddyn – ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau | Drwy'r flwyddyn | Fel bod angen |

| Ysgol Corn Hir<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Ar ôl ysgol – clwb hanner awr | Tymor | Dyddiol |
| Clwb gofal ar ôl ysgol | Tymor | Dyddiol |
| Clwb pêl-droed | Tymor | Wythnosol |
| Clwb pêl-rwyd | Tymor | Wythnosol |
| Urdd  - Dosbarthiadau amrywiol | Tymor | Wythnosol |
| Clwb rygbi | Tymor | Wythnosol |

### 4.5.2 Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a ddefnyddir gan grwpiau lleol:

| **Ysgol Bodffordd**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Drama Charles Williams | | Cwrdd fel bod angen |
| Gŵyl Ddrama Charles Williams | | Bob blwyddyn, tuag Ebrill |
| Gŵyl Bêl-droed Osian Roberts | | Bob blwyddyn, tua Mai / Mehefin |
| Celf a Chrefft Eisteddfod, Arlwyo a Gwaith Llaw, Eisteddfod Bodffordd | | Bob blwyddyn. Defnyddio'r Ganolfan ac adnoddau ysgol am 2 ddiwrnod - Mehefin |
| Pwyllgor Eisteddfod Bodffordd | | Yn ôl y gofyn a'r angen |
| Eisteddfod Bodffordd (ers 1986) | | Bob blwyddyn. Defnyddio'r Ganolfan, yr Ysgol, yr Iard a'r Cae - Gorffennaf |
| Agor y Llyfr | | |
| Meithrinfa Bodffordd (ers 1986) | | Dydd Llun, Mawrth, Mercher ac Iau bob wythnos |
| Merched Bodffordd | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis<br>(3ydd ddydd Llun o bob mis) |
| Clwb Pensiynwyr | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis<br>(Ail ddydd Mawrth o bob mis) |
| Gyrfa Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis<br>(weithiau 3)<br>Nos Iau – bob pythefnos |
| Ysgol Ddawns | Yn ystod y tymor | Unwaith yr wythnos ar ddyddiau Mercher |
| Cylch Llenyddol Bodffordd | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis<br>(4ydd ddydd Llun o'r mis) |
| Partïon Pen-blwydd | Yn ystod y tymor, y gwyliau a'r penwythnos | Yn ôl y gofyn |
| Clwb Rygbi Llangefni – defnydd o'r Ganolfan ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf bob blwyddyn | | Unwaith y flwyddyn – dros 2 ddiwrnod |

| Ysgol Corn Hir<br><br>Defnyddiwr a chyfleuster | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | |
| Tir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | |

Yn ôl yr wybodaeth a gyflwynwyd gan y Penaethiaid, defnyddir y cyfleusterau yn Ysgol Bodffordd, h.y. Canolfan Gymuned Bodffordd gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

### 4.5.3 Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:

| Ysgol Bodffordd<br><br>Gwasanaeth | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Capel Sardis | Tymor | Dwywaith y flwyddyn (ac eithrio ymarferion) |
| Capel Sardis – fel hafan ddiogel mewn achos o argyfwng | Tymor | |
| Eglwys Sant Llwydian | Tymor | |
| Canolfan Gymuned – nosweithiau cymdeithasol<br><br>Rhieni ac Athrawon – e.e. Bingo | Term / yn ôl yr angen | |
| Canolfan Gymuned – disgos / gweithgareddau hwylus a drefnir gan rieni ac athrawon | Tymor | |
| Iard / adeilad yr ysgol – ffeiriau ysgol / Ffair Nadolig / noswaith siopa Nadolig (cefnogi busnesau cartref a lleol) | Tymor | |
| Gweithgareddau chwaraeon hwylus (Wedi ei drefnu gan rieni) | Tymor | |

| Ysgol Corn Hir<br><br>Gwasanaeth | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Pa mor aml bob wythnos? |
|---|---|---|
| Capel Lleol – Moreia | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Capel Lleol – Cildwrn | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Plas Arthur, Llangefni | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Nant y Pandy | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Eglwys St. Cyngar | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Oriel Môn | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Cwrs Golff Llangefni | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Cyngor Sir | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Llyfrgell | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Tesco Bangor | Tymor ysgol | Achlysurol |

**4.5.4 Cyfleusterau cymunedol wedi eu lleoli ger Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir (gan gynnwys busnesau lleol).**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Bodffordd | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Ysgol Feithrin Bodffordd | Cymraeg | Ers 1986 |
| Cae chwarae'r ysgol | Ar gael i bawb | |
| Iard – defnyddir fel maes parcio ar gyfer gweithgareddau cymunedol gyda'r nos ac ar y penwythnos | Ar gael i bawb sy'n defnyddio'r Ganolfan fel canolfan weithgareddau | |
| Roberts Radio | Dwyieithog | |
| Garej Tŷ Crwn / Atgyweirio Cyfrifiadurol | Dwyieithog | |
| Dolphin Travel (Bysiau) | Dwyieithog | |
| Siop Baent / Addurno | Dwyieithog | |
| Hamdden Parc Cefni | Dwyieithog | |
| Blodyn Tatws | Dwyieithog | |
| Inch-Less / Modfedd Llai | Dwyieithog | |
| Creative Hair Salon | Dwyieithog | |
| Serenity Beauty and Skin Care | Dwyieithog | |
| Physio Môn | Dwyieithog | |

| Enw’r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Corn Hir | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Llangefni – nifer fawr o fusnesau | Dwyieithog | Sefydledig |
| Canolfan Plas Arthur | Dwyieithog | Ers agor |
| Parc Sglefrio | Dwyieithog | Ers agor |
| Capel Cildwrn | Cymraeg | Ers agor |

**4.5.6 Gweithgareddau cymuned sydd ar gael ger Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:**

| Enw’r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Bodffordd | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Bodffordd Cyf | Dwyieithog | |
| Cyngor Cymuned | Dwyieithog | |

| Enw’r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Corn Hir | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Clwb Rygbi Llangefni | Dwyieithog | Medi – Gorffennaf |
| Clwb Pêl-droed Llangefni | Dwyieithog | Medi – Gorffennaf |
| Park Run | Dwyieithog | |

**4.5.7 Gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:**

| Ysgol Bodffordd | Iaith | Annibynnol o’r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Dyddiau a Gynhelir |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau ysgol | Llun-Gwener |
| Clwb Brecwast Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau ysgol | Llun-Gwener |
| Clwb Plant (Gofalu am ddisgyblion sydd â brodyr neu chwiorydd yn CA2 o 3.00 tan 3.30) | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen am 3yh | Llun-Gwener |

| Ysgol Corn Hir | Iaith | Annibynnol o’r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Dyddiau a Gynhelir |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |
| Clwb ar ôl Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |
| Clwb Hanner Awr | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |

Os awdurdodir y cynnig, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cefnogi ac yn ymgysylltu â'r Ysgol Corn Hir newydd. Er bod y canran o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn isel (Ysgol Bodffordd 5%, Ysgol Corn Hir 7%, Môn 14%), ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu trin yn wahanol i'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Corn Hir Newydd megis y rhai a nodwyd eisoes.

Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn Ysgol Gymuned ac felly'n cynnwys neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ystafell gyfarfod gymunedol yn ogystal ag Uned Feithrin Cyn-Ysgol i blant sydd rhwng 2 a 4 oed. Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r rhan fwyaf os nad pob cyfleuster a gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol Corn Hir yn cael eu darparu gan yr ysgol gynradd newydd.

#### 4.5.8 Gweithgareddau sydd ar gael yn lleol a gynhelir ym Modffordd

**Mae Cyngor Cymuned Bodffordd hefyd wedi darparu manylion o weithgareddau a gynhelir yn lleol:**

| Gweithgaredd | Pa mor aml? | Ymhle? |
|---|---|---|
| Clwb Pensiynwyr | Unwaith y mis | Canolfan Gymuned |
| Cylch Llenyddiaeth | Unwaith y mis<br>Rhwng Hyd – Mawrth | Canolfan Gymuned |
| Merched Bodffordd | Unwaith y mis | Canolfan Gymuned |
| Gŵyl Ddrama | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Eisteddfod | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Arddangosfa Celf a Chrefft | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Ffair Haf a Gŵyl Bêl-droed | Unwaith y flwyddyn | Canolfan gymuned a'r cae chwarae |
| Gyrfa Chwist | Bob pythefnos | Canolfan Gymuned |
| Bingo | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Gwersi Dawnsio i Blant | Bob wythnos | Canolfan Gymuned |
| Ymarferion Tân | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Pwyllgor Eisteddfod | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Pwyllgor Gŵyl Ddrama | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Cyngherddau at Achosion Da | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Ymarferion Urdd | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Partïon Pen-blwydd | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Sefydliadau Allanol | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Cyngor Cymuned | Bob mis | Canolfan Gymuned |

| Gweithgaredd | Pa mor aml? | Ymhle? |
|---|---|---|
| | | |

**Sylwadau pellach gan Gyngor Cymuned Bodffordd**

| |
|---|
| Fel y gwelir uchod, mae'r Ganolfan Gymuned, yr ysgol a'r cae chwarae i gyd yn hanfodol i sicrhau dyfodol y gymuned a'r iaith. |

Mae'n bosib y byddai cau Ysgol Bodffordd yn annog rhai teuluoedd i adael y gymuned a hyd yn oed yn rhwystro teuluoedd ifanc rhag symud i'r gymuned. Gall hyn o bosib gael ychydig o effaith ar yr economi leol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae adeilad arall yn y pentref, h.y. Capel y Gad a all gynnal rhai o'r digwyddiadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Gymuned sydd ynghlwm ag Ysgol Bodffordd. Mae'n bosib y gall cau'r ysgol a symud y gweithgareddau a gynhelir yn y Ganolfan Gymuned arwain at chwâl y gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio â'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned bresennol.

### 4.6 Pellter ac amser teithio

Mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd oddeutu 1.4 milltir o Ysgol Bodffordd a 0.3 milltir o'r Ysgol Corn Hir bresennol (Ffynhonnell - mapiau google).

Pe awdurdodir y cynnig, byddai'n golygu mwy o bellter teithio i rai disgyblion. Ar sail y nifer presennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (Mehefin 2019), byddai 34% yn teithio llai i'r safle Ysgol Corn Hir newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach. Gan y barnir bod y llwybr rhwng Bodffordd a Llangefni ar y B5109 yn ffordd beryglus, byddai'r Awdurdod yn darparu cludiant i'r disgyblion hyn, sy'n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r amser teithio o Ysgol Bodffordd ar fws i'r safle arfaethedig newydd ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd oddeutu 8 munud.

Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(59%)

- Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl]

Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(72%)

- Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]

Gan y cynigir y bydd Ysgol Corn Hir yn adleoli i safle sydd llai na milltir oddi wrth adeilad yr ysgol bresennol, bydd disgyblion o'r ysgol yn parhau i allu cerdded i'r Ysgol Corn Hir newydd. Fodd bynnag, gan fod safle'r Ysgol Corn Hir newydd ochr arall i'r B5109, rhagwelir y byddai'n rhaid i 15% o ddisgyblion Corn Hir groesi'r B5109. Gallai bob disgybl dal gerdded neu feicio i'r Ysgol Corn Hir newydd. Mae Asesiad Effaith Traffig wedi'i baratoi ar yr effaith a fyddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn ei chael ar drefniadau teithio staff a disgyblion. O ganlyniad i hyn, bydd yr oedfa o gyffordd y B4422 â'r B5109 at fynedfa'r Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig yn cael ei lledu, a darperir man croesi dros y B5109 i'r Ysgol Corn Hir newydd.

Oni bai am drafnidiaeth ychwanegol o Fodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd, nid yw'n debygol o gwbl y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus.

Noda Llywodraeth Cymru na ddylai plant oed cynradd orfod teithio am fwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd dan 16 oed sy'n byw **<u>2 filltir</u>** neu fwy oddi wrth yr ysgol sydd yn y dalgylch y maent yn byw ynddi. Mae'r un polisi hefyd yn nodi "na ddarperir cludiant i blant meithrin rhan amser."

### 4.7 Asesiad Effaith Cymunedol

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch | Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(59%)<br>• Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl]<br><br>Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o'r dalgylch.(72%)<br>• Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl] | Cadarnhaol | Os gwireddir y cynnig, mae'n debyg y byddai dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cael eu cyfuno. Yn ôl ffigyrau presennol, golyga hyn y byddai llai o ddisgyblion yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn dod o du allan i'w dalgylchoedd. |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Mae'r ddwy ysgol yn darparu nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau. Rhagwelir y bydd defnydd cymunedol o'r Ysgol Corn Hir newydd. | Niwtral | Drwy weithio ynghyd â'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol hirdymor Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o'r Ganolfan Gymuned yn parhau.<br>Gan y byddai Ysgol Corn Hir yn cael ei hadleoli, byddai'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol yn cael eu darparu gan yr Ysgol Corn Hir newydd. |

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | Defnyddir capel neu eglwys leol gan y ddwy ysgol ac os byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei hadeiladu, byddai ei chynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r addoldai hynny. | Niwtral | Cyfleusterau cymuned e.e. capel neu eglwys leol yn parhau beth bynnag yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Ysgol gymuned fydd yr ysgol Corn Hir newydd. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan mai ysgolion cymunedol yw Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, mae'r gymuned yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o'r adeiladau a thir yr ysgolion. | Niwtral | Drwy weithio â'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol hirdymor Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir yn y Ganolfan Gymuned ac ar ei thiroedd yn parhau. |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant + cyhoeddus | Os cymeradwyir y cynnig, bydd rhaid trefnu cludiant i'r Ysgol Corn Hir newydd gydag arian yr Awdurdod.<br>Mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant ysgol. | Negyddol | Os gwireddir y cynnig, trefnir cludiant i'r Ysgol Corn Hir newydd gan yr Awdurdod. |
| Arall<br>Effaith ar y gymuned | Gall cau Ysgol Bodffordd gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i ddarpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â phlant neu sy'n bwriadu cael plant. Fodd bynnag, gall yr ardal fod yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n edrych am ardal fwy tawel. Cydnabyddir y gall demograffig yr ardal newid dros amser. | Niwtral | Drwy weithio â'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol hirdymor Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, byddai'n lliniaru'r effaith bosib o gau Ysgol Bodffordd. |
| | Effaith gyfunol ar y gymuned | **Niwtral** | |

Tudalen 113

**Casgliad – Byddai'r cynnig i weld yn cael effaith niwtral ar y gymuned.**

## 5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredinol cyfreithiol-rwym o saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio a ddylunnir i gefnogi a dosbarthu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

### 5.1 Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio?

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | | |
|  | Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i gwrdd ag anghenion hirdymor. | Sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad ysgol yn ffit i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. |
| **Atal** | | |
|  | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag mynd yn waeth gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u nod | Diogelu dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal. |
| **Integreiddio** | | |
|  | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymuned yn ffocws i bob ysgol newydd sy'n creu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae darparu lleoedd digonol yn sicrhau y gellir dosbarthu'r cwricwlwm ac mae'n cwrdd ag amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | | |
|  | Cydweithio ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant. | Cynyddu cydweithrediad rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn cael ei dosbarthu'n barhaus i bob disgybl. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltiad ac ymglymiad dwys â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn ymwneud â chydweithredu â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol ag ysgolion, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn cwrdd ag anghenion tymor byr a dyfodol y defnyddwyr a'r gymuned y byddai'n gweini arnynt. |
| **Ymglymiad** | | |
|  | Pwysigrwydd ymglymu pobl sydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gweini. | Mae'r cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi ymglymiad rhanddeiliaid yn y cynnig. |

**5.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) byddwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau mwy hydwyth, ymgysylltu â'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol a chynnwys ein cymunedau yn y cynllunio hirdymor. Drwy ddilyn y fath broses, anelwn at alluogi cyflenwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau yn ôl yr angen, i annog rhannu adnoddau ac i arwain at wariant mwy effeithlon yn yr hirdymor.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Fel dilyniant i'r asesiad llesiant a gynhaliwyd, mae cynllun llesiant wedi'i ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y cynllun.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir bydd y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Llewyrchus | Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu yn ffit i bwrpas ac yn sicrhau y gwireddir capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo. |
| Cyfartal | Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i fwyhau gwerth pob ceiniog a waria'r Awdurdod Lleol, a gellir gwireddu hyn â buddion cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori buddion cymunedol ym mhob prosiect gan gynnwys y cynnig os gymeradwyir yr Ysgol Corn Hir newydd. Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau cydraddoldeb gwaeth beth yw gallu a chefndir disgyblion. |
| Cydnerth | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd â siroedd eraill Gogledd Cymru ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Seilir y polisi ar egwyddorion cenedlaethol dros ymgysylltiad cyhoeddus.<br>Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd proses ymgynghori statudol yn cael ei chynnal i gasglu barn y rhanddeiliaid. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gellir sefydlu grŵp o randdeiliaid er mwyn cynnal gwaith ar y cyd gyda'r Awdurdod.<br>Bydd hefyd cyfleoedd i blant gael cyfrannu at y broses.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig osodion effeithlonrwydd dŵr. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ystyried cyfleoedd i dyfu bwyd a fydd yn cefnogi ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt ac yn hygyrch i bob disgybl. Byddai hefyd yn hybu ac yn cefnogi mentrau ecogyfeillgar megis ysgolion eco. |
| Iachach | Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol sy'n rhan o'r asesiad hwn yn cadarnhau bod yr ysgolion sy'n bodoli eisoes yng Nghorn Hir a Bodffordd yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br>Yn ogystal â hyn, defnyddir yr Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu o ganlyniad i'r rhaglen moderneiddio ysgolion fel hwb cymunedol sy'n hybu cymunedau iachach e.e. drwy gynnig gweithgareddau chwaraeon i aelodau o'r gymuned. Bydd yr Awdurdod yn |

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| | ymgeisio i'w gwneud mor hawdd â phosib i gyrraedd yr ysgol drwy gerdded neu feicio. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, bydd gan randdeiliaid gyfle i leisio'u barn ac i gynnig sylwadau ar y cynnig. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu yn cyfrannu at isadeiledd cymunedol yr ardal. Mae gan y cynnig botensial i ffurfio cymuned newydd o amgylch Bodffordd a dalgylch Corn Hir. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Amgaeir yr Asesiad Effaith Iaith. Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Sir. Mae perfformiad Cymraeg y disgyblion yn y ddwy ysgol h.y. y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r safon ofynnol yn dda yn y ddwy ysgol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Alinir y rhaglen moderneiddio ysgolion a phrosiectau cysylltiedig â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Golyga hyn bod rhanddeiliaid yn deall sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cynorthwyo i gyflawni nodau busnes, amcanion strategol a chynlluniau'r Awdurdod.<br>Bydd gwelliannau i'n hysgolion yn arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni e.e. drwy gynhyrchu trydan gyda phaneli ffotofoltaidd. Bydd hyn hefyd yn arwain at leihad yng nghynhyrchiad carbon deuocsid ac yn cynorthwyo i addysgu'r disgyblion ar sut i ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth. |

## 6. CASGLIAD

Aseswyd y cynnig ar ei effaith bosib ar:

- Gydraddoldeb
- Iaith h.y. yr iaith Gymraeg
- Cymuned

Roedd yr effaith a geir ar bob rhan fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith:** **Cadarnhaol neu Negyddol** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | **+3 Cadarnhaol** |
| Iaith | **+3 Cadarnhaol** |
| Cymuned | **Niwtral** |

Ar ôl ystyried y cynnig o ran ei effaith bosib ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol. Dangosa'r ddogfen yn Adran 5 sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Ionawr 2020** |
| **Pwnc:** | **Papur Cynnig – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni**<br><br>**Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Cyfarwyddwr:** | **Rhys H Hughes**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **Carol Sorahan**<br>**carolsorahan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Bob Parry**<br>**Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**
Mae'r adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2019 i ofyn i swyddogion edrych o'r newydd ar yr amrywiol faterion mewn perthynas â moderneiddio ysgolion a'r gofynion o dan God Trefniadaeyh Ysgolion 2018 yn ardal Llangefni a dod ag adroddiad priodol yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

Mae swyddogion wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni yn ei chyfanrwydd, ac ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig yn benodol. Daw swyddogion i'r casgliad mai ehangu Ysgol Y Graig gwerth £6 miliwn a gynhigir, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd presennol a hirdymor addysg, a sicrhau bod digon o leoedd ysgol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:**

1. Cymeradwyo'r cynnig i "Cynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn." ac awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau (neu y cyfeirir atynt fel opsiynau amgen rhesymol yn y papur cynnig) fel rhan o'r papur cynnig hwn.
Mae'r papur cynnig yn amlinellu 11 opsiwn sydd wedi'u hystyried ar gyfer ardal Llangefni, yn ogystal â 10 opsiwn arall sydd wedi'u hystyried ar gyfer Ysgol Talwrn a 9 opsiwn ar gyfer Ysgol Y Graig fel ysgolion unigol.
Mae'r holl opsiynau wedi'u hystyried yn erbyn yr heriau allweddol a nodwyd ar gyfer ardal Llangefni a'r ysgolion sy'n cael eu hystyried.

| C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae'n cyd-fynd â'r strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith) a Dogfen Gyflenwi Flynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn). |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi – mae'n rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg yn ardal Llangefni ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau BREEAM a safonau Ysgolion 21ain Ganrif. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd y cynnig yn datblygu adeilad ysgol newydd fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn mynd yn "Gyfundrefn Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Yn eu tro, dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol fydd yn eu helpu nhw i fod yn oedolion ifanc sydd yn:<br>▪ ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, fydd yn barod i ddysgu drwy eu bywydau<br>▪ gyfranwyr anturus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>▪ unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.<br><br>Bydd y cynnig yn cael ei ariannu 65:35 gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Band 'B' Ysgolion 21ain Ganrif a'r Cyngor. Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf . |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Mae cydweithredu gyda a gwybodaeth a gafwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymuned a'r ysgolion wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Bydd y rhanddeiliaid canlynol hefyd yn cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Aelod Cynulliad lleol<br>• Aelodau Cynulliad Rhanbarthol<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Cymuned a Thref lleol<br>• Undebau dysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig<br>• Cylch Meithrin Talwrn a Dechrau'n Deg<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ddim ar hyn o bryd, gan mai papur cynnig yw hwn. Bydd y rhanddeiliaid (Rhieni / Gwarcheidwaid, aelodau staff, Llywodraethwyr Ysgol ac eraill sydd a diddordeb) yn cael cyfle yn ystod y broses ymgynghori statudol i gyfrannu'n rhagweithiol ac i chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd ymlaen fydd yn cael ei gytuno. |
| 5 | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir. Mae gan y cynnig gyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn Ysgol Y Graig fydd wedi ei hehangu. |

| **E – Gyda phwy a ymgynghoroch chi?** | | **Beth oedd eu harsylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA)** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**(gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae safon yr offer TGCh megis taflunyddion a byrddau gwyn rhyngweithiol yn isel yn Talwrn ac yn amrywio yn y Graig Byddai estyniad yn manteisio o is-adeiledd TGCh o safon, ynghyd a offer clyweled modern. Argymhellir cynnwys adnewyddu'r offer clyweled drwy'r ysgol i gyrraedd y safonau digidol.<br>https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg<br><br>Mae'r offer rhwydwaith yn yr ysgolion hyn wedi ei leoli mewn storfa, felly nid yw'n amharu ar staff na disgyblion oherwydd sŵn. Byddai angen gofod mewn unrhyw estyniad ar gyfer offer rhwydwaith ychwanegol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r ceblau ethernet yn yr ysgolion hyn i safon Cat5e. Argymhellir un ai ail-geblo Ysgol y Graig i CAT6A neu o leiaf ychwanegu pwyntiau CAT6A ym mhob dosbarth ar gyfer y pwyntiau di-wifr oherwydd capasiti ychwanegol.<br><br>Byddai rhaid plethu unrhyw ddatblygiad neu newid yng nghyfansoddiad / strwythur ysgolion i mewn i'r cynllun HWB sydd yn grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn ysgolion.<br><br>Mae moderneiddio technoleg ysgolion yn gostus oherwydd yr angen i ychwanegu ceblau ar gyfer systemau (mynediad drysau, CCTV, ffonau VOIP), argymhellir ystyried yr angen am dechnolegau moderneiddio fel hyn yn rhan o unrhyw gynllun. |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2020 yn dilyn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | |

| **FF – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Ddim yn berthnasol. |
| **3** | **Trais ac anhrefn** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Cydraddoldeb** | Gweler yr Asesiad Effaith cydraddoldeb – Atodiad 1 |
| **6** | **Cytundebau Canlyn** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Papur Cynnig ardal Llangefni – Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig<br>Atodiad 1- Asesiad Effaith. |

| **G – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018<br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith 20/05/2019 |

**‘PAPUR CYNNIG’**

**MODERNEIDDIO YSGOLION**

**ARDAL LLANGEFNI – SWYDDOGOL SENSITIF**

**Ionawr 2020**

**Cynnig i:**

**“Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn”**

Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL ........................................................................................ 2
1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD ........................................................................................ 5
2. Y CYNNIG ........................................................................................ 6
3. GYRWYR NEWID ALLWEDDOL ........................................................................................ 6
4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI ........................................................................................ 7
5. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI ........................................................................................ 14
6. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG ...... 31
7. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL TALWRN ............... 42
8. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL Y GRAIG ............... 57
9. GWYBODAETH GYLLIDOL ........................................................................................ 69
10. CASGLIAD ........................................................................................ 70

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mai 2019 ynglŷn â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, rhoddwyd cyfarwyddyd i swyddogion edrych ar gynigion o'r newydd, gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).

Mae'r papur hwn yn cyflwyno deilliannau'r gwaith hwn. Fe'i defnyddir i ymofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fynd ymlaen â'r broses ymgynghori statudol.

Mae'r gyrwyr allweddol a nodir yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys gwella safonau addysg; sicrhau bod adeiladau ysgol yn ffit i bwrpas; gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth; lleihau'r nifer o leoedd gweigion; lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiad yn y gost fesul disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd cymunedol a wneir o adeiladau ysgol.

Wrth gymhwyso'r gyrwyr allweddol hyn at ardal Llangefni, deuir i'r canlyniad y byddai'n rhaid i unrhyw foderneiddio ysgolion fynd i'r afael â'r meini prawf canlynol.

- Mae'n rhaid i **safonau** ar draws bob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n ardderchog. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod wedi'u categoreiddio'n wyrdd, h.y. ysgol sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth. (Cefnogaeth gan Wasanaeth Gwella Ysgolion GwE)
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu well ym mhob ysgol. I'r perwyl hwn, mae angen i bob Pennaeth fod gyda amser digyswllt digonol er mwyn cydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth gydag ymrwymiad addysgu yn y dosbarth.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni ei botensial ar draws bob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â'r galw presennol a rhagolygon niferoedd y dyfodol.Mae hefyd angen lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudedd disgyblion rhwng dalgylchoedd os oes bosib.
- Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig fod yn **gost effeithlon**, h.y. mae angen lleihau costau refeniw (costau dydd i ddydd) a mynd i'r afael ag unrhyw gostau ôl-groniad cynnal a chadw. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd rhaid cynnal neu wella **darpariaeth cyfrwng Cymraeg.**
- Mae angen cynnal y defnydd cymunedol o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig a chynyddu lle bo hynny'n bosibl.

Mae un ar ddeg o opsiynau rhesymol wedi eu ystyried ar gyfer ardal Llangefni. Yr ysgolion a ystyriwyd fel rhan o'r opsiynau hyn oedd Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Gweler yr opsiynau yn rhan 5.

Drwy ddadansoddi pob opsiwn amgen yn fanwl, daeth[wyd i'r casgliad nad oes datrysiad hyfyw ar gyfer ardal gyfan Llangefni. O ganlyniad, mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ddatrysiad posib ar gyfer dalgylch Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig.

Isod, rhestrir yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig.

- Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti o tua 3% tra bod Ysgol Talwrn dan ei chapasiti o tua 8% (ffigurau CYBLD / PLASC 2019). Disgwylir i niferoedd gynyddu yn Ysgol Y Graig erbyn Medi 2024. Mae symudiad disgyblion rhwng dalgylchoedd hefyd yn gwneud cynllunio darpariaeth yn anodd.
- Dim ond gofod cyfyngedig sydd gan adeilad Ysgol Talwrn i ddarparu'r cwricwlwm newydd.
- Mae amrywiad sylweddol yn y gost fesul disgybl yn y ddwy ysgol am 2019/20, (Ysgol Talwrn - £4,553 ac Ysgol y Graig - £3,429). Mae'r gost gyfartalog fesul disgybl yn Ysgol Talwrn hefyd yn uwch na chyfartaledd cynradd Môn sef £3,988.

- Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio'n â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Tan 2018, roedd categorïau'r ddwy ysgol yn wahanol [Ysgol Talwrn – melyn; Ysgol y Graig – gwyrdd].
- Mae'r amser a ddarperir i'r Pennaeth yn Ysgol Talwrn i fynd i'r afael â materion arweinyddiaeth a rheolaeth yn llai na'r hyn a geir yn Ysgol Y Graig.
- Roedd gan Ysgol Talwrn 13% o'i balansau dros ben ar ddechrau'r flwyddyn gyllidol 2019/20 ac mae Ysgol y Graig bellach o fewn ei chyllideb ar ddechrau 2019/20.
- Mae'r ddwy ysgol yn llwyddiannus mewn datblygu gallu disgyblion yn y Gymraeg. Byddai angen i'r cynnig moderneiddio adeiladu ar y sylfaen gadarn hon.
- Ym mis Hydref 2019, roedd dwy ran o dair (67% neu 28 o'r 42) o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i ddalgylch yr ysgol ac mae tua traean o'r holl ddisgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol y Graig.

Ystyriwyd a gwerthuswyd deg o opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Talwrn a naw o opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol y Graig yn erbyn y gyrwyr moderneiddio ysgolion allweddol. Arweinia hefyd at y canlyniad y bydd rhaid i'r Cyngor liniaru'r effaith a geir gyda'r posibilrwydd o gau Ysgol Talwrn wrth ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn i'r ysgol ehangedig newydd.

O ganlyniad i'r gwerthusiad uchod, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r cynnig canlynol ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:-

**"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Nodir manylion arfaethedig yr ysgol ehangedig newydd isod:

| **Manylion yr Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig newydd** | |
|---|---|
| Ystod oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Ysgol | 480 (4-11 oed) |
| Lleoedd Meithrin | 68 |
| Rhif mynediad | 68 |
| Lleoliad | Tir ger safle'r ysgol bresennol, Llangefni |
| Categori | Cymuned |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau arfaethedig | Cyfleuster Ysgol Gynradd 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymuned |
| Amcangyfrif o Gost y Prosiect | Tua £6 miliwn wedi'i ariannu drwy gyfalaf CSYM (35%) a rhaglen ysgolion 21ain ganrif LlC (65%) |

## 1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mai 2019 i ddiddymu penderfyniadau blaenorol am ddyfodol addysg yn ardal Llangefni, mae'r papur hwn yn cyflwyno'r opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, ac yn benodol ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig.

Ers Mehefin 2016, mae'r Cyngor wedi cynnal dau ymgynghoriad ar ddyfodol addysg yn ardal Llangefni. Mae cyfanswm o 21 o opsiynau wedi'u hystyried hyd yn hyn fel rhan o'r ymgynghoriadau hyn.

Ysgrifennwyd y papur cynnig hwn yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).

Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, er mwyn cael eu penderfyniad i fynd ymlaen â'r cyfnod ymgynghori statudol ar gyfer y cynnig ai peidio.

### 1.1 Darpariaeth addysg yn ardal Llangefni

Mae ardal Llangefni yn cynnwys Ysgol Gyfun Llangefni (uwchradd) a chwe ysgol gynradd sef Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Esceifiog, Ysgol Henblas, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Dyweder yn Strategaeth Addysg yr Awdurdod a gyhoeddwyd yn Hydref 2018 "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno."

Yng ngoleuni hyn, ni ystyrir Ysgol Esceifiog ymhellach oherwydd ei lleoliad gan ei bod 5.2 milltir oddi wrth Ysgol Corn Hir, 4.3 milltir oddi wrth Ysgol Henblas, 5.0 milltir oddi wrth Ysgol y Graig, 5.8 milltir oddi wrth Ysgol Bodffordd a 5.0 milltir oddi wrth Ysgol Talwrn (*ffynhonnell- google maps).*

Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 25 Mawrth 2019 i dynnu Ysgol Henblas o'r cynnig ar gyfer ardal Llangefni, gan y derbyniwyd sicrwydd ynglŷn â gwella safonau a chynnydd yn niferoedd disgyblion. Felly nid yw Ysgol Henblas yn rhan o'r cynnig hwn.

Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn felly yw'r ysgolion yr ystyrir hwynt ymhellach yn y papur cynnig hwn.

**1.2** Cyn cyrraedd y cynnig (Adran 2) isod, mae'r Cyngor wedi ystyried y canlynol:

- Gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 3)
- Gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni (Adran 4)
- Opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni (Adran 5)
- Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig (Adran 6)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Talwrn (Adran 7)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol y Graig (Adran 8)

**Nodwch os gwelwch yn dda- Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau yn y ddogfen yn dod o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD neu PLASC 2019).**

**2. Y CYNNIG**

Y cynnig yw:

**Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Bydd Ysgol y Graig ehangedig yn cymryd holl ddisgyblion Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn a hefyd yn cwrdd â'r galw a ragwelir ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys darpariaeth feithrin.

Nodir manylion arfaethedig yr ysgol ehangedig newydd isod:

| **Manylion yr Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig newydd** | |
|---|---|
| Ystod oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Ysgol | 480 (4-11 oed) |
| Lleoedd Meithrin | 68 |
| Rhif mynediad | 68 |
| Lleoliad | Tir ger safle'r ysgol bresennol, Llangefni |
| Categori | Cymuned |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau arfaethedig | Cyfleuster Ysgol Gynradd 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymuned |
| Amcangyfrif o Gost y Prosiect | Tua £6 miliwn wedi'i ariannu drwy gyfalaf CSYM (35%) a rhaglen ysgolion 21ain ganrif LlC (65%) |

**3. GYRWYR NEWID ALLWEDDOL**

Mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn Hydref 2018 yn amlinellu'r gyrwyr newid allweddol i foderneiddio ysgolion:

- Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad.
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Anelu i leihau'r amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cynllunio olyniaeth
- Ehangu'r defnydd o adeiladau ysgolion gan y gymuned
- Cyfleusterau gofal plant a chymunedol i rieni a thrigolion hŷn
- Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Darpariaeth feithrin
- Darpariaeth ôl-16
- Sicrhau bod adeiladau ysgolion addas i bwrpas.

Mae'r adran ganlynol yn amlygu gyrwyr newid allweddol perthnasol yn ardal Llangefni.

## 4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI

Isod, nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni yn seiliedig ar y gyrwyr allweddol a nodir yn Adran 3.

1. Safonau
Gwella safonau addysg ar draws ardal Llangefni drwy sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial. Bydd hyn yn cynnwys creu amgylchedd dysgu sy'n galluogi plant, staff a'r Pennaeth i lwyddo, lleihau'r nifer o ddosbarthiadau cynradd lle mae ystod oedran o fwy na dwy flynedd, a sicrhau fod gan y Pennaeth amser digyswllt digonol i fynd i'r afael â heriau arweinyddiaeth a rheolaeth sydd ynghlwm â'r rôl [gweler y gyrrwr nesaf].

2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Gwella capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth a mynd i'r afael â chynllunio olyniaeth drwy sicrhau bod y strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ardal hon o'r radd flaenaf a bod digon o amser a chapasiti ar gael i'r tîm arweinyddol fynd i'r afael â'r heriau strategol a rheolaethol sydd ynghlwm â rhedeg ysgolion llwyddiannus.

3. Adeilad Ysgol
Sicrhau bod yr ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig nawr ac i'r dyfodol i'r holl ddisgyblion ac athrawon, gan roi cyfle i bob disgybl gyflawni eu potensial ar draws bob maes dysgu.

4. Lleoedd Ysgol
Sicrhau bod lleoedd digonol yn yr ardal ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion.

5. Cyllidol
Sicrhau y lleiheir yr amrywiad yn y gost fesul disgybl a'r gost refeniw sydd ynghlwm â rhedeg ysgolion yr ardal, a sicrhau yr eir i afael â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.

6. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cynnal a gwella darpariaeth dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

7. Defnydd Cymunedol
Cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgol (e.e. darpariaeth feithrin a/neu gofal plant) a darparu, lle fo'n bosib cyfleusterau gofal plant a chymunedol i rieni a'r henoed.

8. Materion cyffredinol
Materion eraill e.e. llif traffig, canfod safle.

Trafodir y gyrwyr hyn ar gyfer ardal Llangefni mewn mwy o fanylder isod (Adrannau 4.1 - 4.7).

### 4.1 Safonau

#### 4.1.1 Arolygiadau Estyn

Mae Estyn yn adrodd ar ansawdd a safonau addysg. Isod ceir gwybodaeth o'r arolygiadau Estyn diweddaraf yn ysgolion ardal Llangefni:

| Ysgol | Bodffordd* | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mehefin 2015 | Mai 2013 | Ionawr 2019 | Hydref 2018 | Mai 2014 |
| Safonau | Digonol | Da | Da | Da | Digonol |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da | Rhagorol | Da | Da | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol | Da & Rhagorol | Da | Da | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | Da | Da | Da | Da |

| Ysgol | Bodffordd* | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol | Da | Da | Da | Digonol |

**Graddau Estyn** –

| Barn | Beth mae'r barnau yn ei feddwl |
|---|---|
| Rhagorol | Nifer o gryfderau, gan gynnwys esiamplau arwyddocaol o arferion sy'n arwain y sector |
| Da | Nifer o gryfderau ac nid oes unrhyw feysydd pwysig angen gwelliant sylweddol |
| Digonol | Cryfderau'n gorbwyso'r meysydd sydd angen eu gwella |
| Anfoddhaol | Meysydd sydd angen eu gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

***NODER** – Dychwelodd Estyn i ymgymryd ag ymweliad monitro ym mis Hydref 2016, a nodir yn yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Bodffordd wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn yn Hydref 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

****NODER** – Dychwelodd Estyn i ymgymryd ag ymweliad monitro ym mis Hydref 2015, a nodir yn yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gyfun Llangefni wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn adolygiad Estyn yn Hydref 2015. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

Dymuna'r Awdurdod sicrhau bod deillianau arolygiadau Estyn yn dda neu'n well, h.y. deilliant o Dda neu Ragorol ym mhob categori.

Byddai'n rhaid i unrhyw waith moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni gynnal os nad gwella'r agweddau da a rhagorol a nodwyd gan Estyn yn ogystal â mynd i'r afael â'r diffygion a amlinellir uchod.

### 4.1.2 Categoreiddio Ysgolion

Mae'r system gategoreiddio ysgolion yn adrodd ar pa mor dda mae ysgol yn perfformio. Ystyria hefyd ba mor effeithiol y mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i wella.

Mae'r system yn adnabod yr ysgolion sydd angen y mwyaf o gymorth, cefnogaeth ac arweiniad i wella. Mae hefyd yn adnabod y rheiny sy'n gwneud yn dda ond y gallent fod yn gwneud yn well a'r rhai sy'n effeithiol iawn a gallent gefnogi eraill i wella.

Rhoddir pob ysgol yn un o bedwar categori lliw – gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch.
Mae lliw'r categori'n dangos y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol (ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gefnogaeth a'r rhai yn y categori coch sydd angen y gefnogaeth fwyaf dwys). Bydd bob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth, her ac ymyrraeth wedi ei theilwra yn seiliedig ar y categori hwn gan GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru).

Nodir y categorïau priodol ar gyfer yr ysgolion unigol isod: (Ffynhonnell: GwE -Tachwedd 2019)

| Blwyddyn | Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir | Ysgol Y Graig | Ysgol Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| 2019 | Melyn | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| 2018 | Melyn | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Gwyrdd |
| 2017 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyn |
| 2016 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyn |
| 2015 | Melyngoch | Gwyrdd | Gwyrdd | Melyn | Melyngoch |

Mae'r tabl isod yn esbonio yn fanwl beth yw ystyr pob lliw:

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Ysgolion nad oes angen eu monitro llawer**<br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac wedi gosod yr ysgol yn chwarter uchaf y PYD. Patrwm o wella neu gynnal safonau uchel yn gyson yn yr holl ddangosyddion a phynciau.<br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn sylweddol uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg ac yn uwch na thargedau awdurdod lleol.<br>Gwaharddiadau parhaol yn brin a gwaharddiadau tymor penodol yn isel.<br>Hunan arfarnu'n gadarn gyda ffocws clir ar safonau a pherfformiad ac yn rhoi dealltwriaeth fanwl gywir i arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau.<br>Strategaethau gwella pendant yn y CGY a thargedau deilliannau mesuradwy. Ffocws parhaus ar fonitro a gwerthuso cynnydd er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targedau hyn yn llwyddiannus.<br>Arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i addysgu sy'n cael effaith sylweddol. Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda gyda rhywfaint yn rhagorol.<br>Llywodraethwyr yn cymryd rhan effeithiol o ran herio a chefnogi'r ysgol i wneud gwelliannau.<br>Dim ymweliad dilynol yn dilyn arolygiad<br>Polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u sefydlu [hyfforddiant ar gyfer aelod staff a llywodraethwr dynodedig, staff, gwiriadau CRB fan leiaf]. |
| **Melyn** | **Ysgolion y mae arnynt angen eu monitro a'u cefnogi'n ysgafn**<br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac wedi gosod yr ysgol yn hanner uchaf y dosbarthiad PYD. Patrwm o wella neu gynnal safonau da ym mwyafrif y dangosyddion a phynciau.<br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf ymhell dros y canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg ac yn cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau awdurdod lleol.<br>Gwaharddiadau parhaol yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod a gwaharddiadau tymor penodol yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.<br>Hunan arfarnu'n drwyadl gyda ffocws ar safonau a pherfformiad ac yn rhoi darlun cyffredinol dda i arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau.<br>Strategaethau gwella da yn y cynllun gwella ysgol ac mae gan fwyafrif y gweithgareddau a thargedau ddeilliannau mesuradwy.<br>Arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod yr addysgu'n effeithiol. Mae ansawdd yr addysgu'n dda.<br>Llywodraethwyr yn herio ac yn cefnogi'r ysgol i wneud gwelliannau.<br>Monitro gan yr ALl yn dilyn arolygiad<br>Polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u sefydlu [hyfforddiant ar gyfer aelod staff a llywodraethwr dynodedig, staff, gwiriadau CRB fan leiaf]. |

| | |
|---|---|
| **Melyngoch** | **Ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth a monitro penodol**<br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ar adegau, ac yn is ar adegau eraill. Perfformiad mewn rhai dangosyddion wedi gosod yr ysgol yn hanner isaf y dosbarthiad PYD. Patrwm amrywiol o wella neu gynnal safonau da. Amrywiaeth mewn perfformiad ar draws pynciau, yn arbennig yn y pynciau craidd.<br>Presenoldeb yn is na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Gall presenoldeb ddisgyn yn is na thargedau awdurdod lleol. Mae yna rywfaint o duedd tuag at welliant.<br>Gwaharddiadau parhaol yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod ond mae gwaharddiadau tymor penodol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br>Nid yw hunan arfarnu wedi'i sefydlu'n gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'n rhoi ffocws digonol ar safonau a pherfformiad ac o ganlyniad, mae dealltwriaeth arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r gwendidau yn amrywio.<br>Mae'r cynllun gwella ysgol yn amlinellu gweithgareddau ar gyfer gwneud gwelliannau mewn meysydd allweddol. Nid oes ffocws i rai o'r strategaethau a gweithgareddau, ac nid ydynt yn heriol. Nid yw'r broses o werthuso cynnydd yn ddigon eglur.<br>Nid yw'r arweinwyr yn monitro ansawdd yr addysgu yn systematig a/neu ni weithredir ar y canfyddiadau bob amser er mwyn gwneud gwelliannau mewn pryd. Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n amrywio.<br>Mae cefnogaeth y llywodraethwyr yn dda ond nid ydynt yn herio'r ysgol i wneud gwelliannau yn systematig.<br>Monitro gan Estyn yn dilyn arolygiad<br>Gwendidau yn y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant. |
| **Coch** | Ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth sylweddol<br>Perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac wedi gosod yr ysgol yn chwarter isaf y PYD ym mwyafrif y dangosyddion. Tuedd am i lawr neu safonau cyson isel. Amrywiaeth mewn perfformiad ar draws pynciau, yn arbennig yn y pynciau craidd.<br>Presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn llawer is na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Presenoldeb yn llawer is na thargedau awdurdod lleol. Nid oes tuedd tuag at welliant.<br>Gwaharddiadau parhaol yn uchel ac ar y cyfan, heb eu cefnogi gan yr awdurdod. Gwaharddiadau tymor penodol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br>Nid yw'r prosesau hunan arfarnu yn ddigon trwyadl. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a pherfformiad ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn adnabod meysydd i'w gwella yn gywir.<br>Nid yw'r camau a/neu'r targedau yn y cynllun gwella ysgol yn ddigon llym na heriol. Nid ydynt yn debygol o arwain at welliannau angenrheidiol.<br>Ni chaiff yr addysgu na'r dysgu eu monitro'n gyson nac yn effeithiol. Mae yna rywfaint o addysgu anfoddhaol.<br>Ni chaiff y llywodraethwyr fawr o effaith ar gyfeiriad na gwaith yr ysgol a/neu nid ydynt yn ei herio i wneud gwelliannau.<br>Gwelliant sylweddol yn dilyn arolygiad.<br>Gwendidau yn y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant.. |

Disgwylir y byddai'r ysgol wedi ei ehangu'n cael ei chategoreiddio'n wyrdd, yr un fath ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig.

### 4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tabl isod yn nodi ymrwymiad addysgu'r Pennaeth ym mhob ysgol.

| Ysgol | Bodffordd | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Ysgol Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| % Ymrwymiad addysgu'r Pennaeth | 80% | 0% | 0% | 70% | 0% |

Mae'r tabl uchod yn dangos nad oes gan Benaethiaid yn yr ysgolion cynradd mwyaf nac yn yr ysgol uwchradd unrhyw ymrwymiad addysgu ffurfiol. Yn y ddwy ysgol gynradd leiaf (Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn), mae'r ymrwymiad addysgu'n arwyddocaol gan fod y Penaethiaid yn addysgu am 70-80% o'r amser. Mae'r angen i gydbwyso hyn ag anghenion arweinyddol cyffredinol o ddydd i ddydd yn her fawr. Mae ar Benaethiaid angen amser digonol i fynd i'r afael â'r her arweinyddiaeth a rheolaeth law yn llaw ag unrhyw ymrwymiad addysgu, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

### 4.3 Adeiladau Ysgol

Mae'r tabl isod yn manylu ar y sefyllfa gyfredol ynglŷn â graddau cyflwr yr ysgolion (2019), yr ôl-groniad cynnal a chadw sydd ei angen i godi'r cyflwr i lefel briodol (nid disgwyliadau 21ain

ganrif) a'r lefel o gydymffurfiad â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i ddisgyblion anabl.

| Ysgol | Bodffordd | Corn Hir | Y Graig | Talwrn | Gyfun Llangefni |
|---|---|---|---|---|---|
| Ôl-groniad cynnal a chadw (2019) | £134,000 | £234,000 | £48,500 | £360,000 | £3,609,000 |
| Gradd cyflwr* | B | C | A | B | C |
| Nifer o ddosbarthiadau symudol ar y safle | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Cydymffurfiaeth â'r Deddf Cydraddoldeb 2010 | Yn rhannol | Yn rhannol | Yn llawn | Yn rhannol | Yn rhannol |
| Gofod digonol i ddosbarthu'r cwricwlwm | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Digonol | Cyfyngedig | Digonol |

*Gradd A – Da (Yn perfformio fel y dylai ac yn gweithredu'n effeithlon), Gradd B - Boddhaol (Yn perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad), Gradd C - Gwael (Yn arddangos diffygion mawr ac/neu nid yw'n gweithredu fel y dylai).

Cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw yn y pedair ysgol gynradd yw £776,500, a £3,609,000 yn Ysgol Gyfun Llangefni, sef cyfanswm o £4,385,500. Yr unig ysgol sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant anabl yw Ysgol y Graig.
Bydda'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd arfaethedig ac ail-fodelu adeilad presennol Ysgol Y Graig yn rhoi darpariaeth 21ain ganrif fyddai'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn sicrhau y byddai darpariaeth yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau hygyrchedd Deddf Cydraddoldeb 2010.

### 4.4 Lleoedd Ysgol

Isod, dangosir nifer presennol y disgyblion sydd ar y gofrestr, niferoedd y disgyblion am y pedair blynedd ddiwethaf a rhagolygon disgyblion y dyfodol hyd at 2024. Daw'r ffigyrau hyn o CYBLD 2019 [ffigurau Ionawr 2019]:

| Ysgol | Capasiti | Disgyblion Ionawr 2015 | Disgyblion Ionawr 2016 | Disgyblion Ionawr 2017 | Disgyblion Ionawr i 2018 | Disgyblion Ionawr 2019 | % Llefydd gweigion Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gyfun Llangefni | 896 | 737 | 755 | 702 | 670 | 634 | 29% |
| Ysgol | Capasiti - heb Meithrin | Disgyblion Ionawr 2015 | Disgyblion Ionawr 2016 | Disgyblion Ionawr 2017 | Disgyblion Ionawr i 2018 | Disgyblion Ionawr 2019 | % Llefydd gweigion Ionawr 2019 |
| Bodffordd 3-11 | 63 | 61 | 55 | 68 | 63 | 70 | -11% DG |
| Corn Hir 4-11 | 204 | 200 | 207 | 221 | 224 | 226 | -11% DG |
| Graig 3-11 | 330 | 333 | 333 | 335 | 326 | 339 | -3% DG |
| Talwrn 4-11 | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 | 8% |

Dengys ffigyrau Bodffordd, Corn Hir a Graig eu bod dros eu capasiti (DG).

Un o'r rhesymau pam fod Ysgol Bodffordd dros gapasiti, ydi fod rhai o ddisgyblion sydd o ddalgylch Ysgol Corn Hir ac Ysgol Y Graig yn mynychu Ysgol Bodffordd. Mae tua 10% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir. Mae tua 13% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

Mae gan Ysgol Talwrn 8% o lefydd gweigion, er bod 18% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac bod 32% o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

**RHAGOLYGON PUM MLYNEDD**

Gweler isod ragolygon niferoedd disgyblion hyd at 2024.

| | | | Rhagolygon niferoedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Capasiti | Disgyblion Medi 2019 | Medi 2020 | Medi 2021 | Medi 2022 | Medi 2023 | Medi 2024 |
| Gyfun Llangefni 11-18 | 896 | 665 | 655 | 672 | 688 | 719 | 715 |
| Ysgol | Capasiti – heb Meithrin | Disgyblion Medi 2019 | Medi 2020 | Medi 2021 | Medi 2022 | Medi 2023 | Medi 2024 |
| Bodffordd 3-11 | 63 | 69 | 74 | 76 | 77 | 79 | 77 |
| Corn Hir 4-11 | 204 | 230 | 238 | 242 | 242 | 241 | 243 |
| Graig 3-11 | 330 | 324 | 329 | 331 | 326 | 320 | 334 |
| Talwrn 4-11 | 49 | 40 | 47 | 46 | 41 | 39 | 37 |

Mae'r manylion uchod yn dangos nad yw'r ddarpariaeth cynradd bresennol yn ddigonol i gwrdd â'r galw presennol ac y byddai hyn yn parhau ac yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

**Disgyblion sy'n teithio o du allan i'r dalgylch**

Disgwylir i'r Awdurdod gynllunio darpariaeth ysgolion o amgylch y nifer o ddisgyblion sydd yn y dalgylch. Mae cynllunio darpariaeth ysgolion yn anodd oherwydd symudiad plant o du allan i'r dalgylch, e.e. mae'r canran uchel o blant sy'n mynychu o du allan i'r dalgylch yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd yn cuddio'r ffaith nad yw nifer y disgyblion sydd yn nalgylch naturiol yr ysgolion yn ddigon i lenwi'r ysgolion (gweler y tabl isod).

| Ysgol | % y disgyblion sydd yn teithio o du allan i'r dalgylch (ffigurau'r Awdurdod Hydref 2019) |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Llangefni | 13% |
| Ysgol Bodffordd | 41% |
| Ysgol Corn Hir | 28% |
| Ysgol Y Graig | 12% |
| Ysgol Talwrn | 67% |

Bydd rhaid i'r ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal sicrhau bod lleoedd ysgol digonol ar gael i gwrdd â'r niferoedd presennol mewn ysgolion, rhagolygon y dyfodol, a bod y system ysgolion yn yr ardal yn gost effeithlon, h.y. bod ysgolion yn llawn (ble'n bosib gyda disgyblion o'r dalgylch naturiol) a bod y nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos at 30.

**4.5 Cyllidol**

Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant fesul disgybl mewn ysgolion unigol:

| | Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir | Ysgol y Graig | Ysgol Talwrn | Cyfartaledd cynradd Môn | Ysgol Gyfun Llangefni | Cyfartaledd uwchradd Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost y disgybl (2019/20) | £4,274 | £3,586 | £3,429 | £4,553 | £3,988 | £5,233 | £5,039 |
| % sy'n derbyn prydau ysgol am ddim | 7% | 5% | 27% | 21% | 14.4% | 14% | 13% |
| Sefyllfa balansau ysgolion 31/03/19 | Diffyg 3% o gyllideb yr ysgol | 3% o gyllideb yr ysgol yn weddill | Diffyg 3% o gyllideb yr ysgol | 13% o gyllideb yr ysgol yn weddill | 4% o gyllideb yr ysgol yn weddill | Diffyg 2% o gyllideb yr ysgol | Diffyg 1% o gyllideb yr ysgol |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod amrywiad o £1,124 y disgybl rhwng y pedair ysgol gynradd ac amrywiad o £194 rhwng Ysgol Gyfun Llangefni a'r cyfartaledd ar gyfer yr uwchradd. Mae'r gwahaniaeth yn y gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac nid yw'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Gellir dadlau bod yr ysgolion lleiaf yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol i gynnal y lefel leiafsymiol o staffio a bod yr ysgolion mwyaf yn colli allan o ganlyniad.

Dengys hefyd bod cyllidebau ysgolion dan bwysau, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd mwyaf. Mae hyn yn amlygu'r angen i leihau cost gyffredinol addysg drwy leihau cyfanswm y gwariant fesul disgybl. Mae hyn yn gyson â'r sefyllfa ar draws yr Ynys.

**4.6 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**
Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r holl ysgolion dan ystyriaeth yn ardal Llangefni, a bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

**4.7 Defnydd cymunedol**
Ysgolion cymunedol yw holl ysgolion ardal Llangefni, a bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol. Nid yw'r ysgolion dan sylw yn ran o unrhyw ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaeth elusennol.

**4.8 Casgliadau sy'n deillio o'r gyrwyr newid allweddol ar gyfer ardal Llangefni**

- Er bod y safonau'n gyffredinol dda yn ardal Llangefni ,mae angen sicrhau gwelliant parhaus.
- Mae amrywiad sylweddol yn y gost y disgybl ar draws yr ysgolion a nodir uchod. Mae'r gost y disgybl yn yr ardal hefyd angen ei lleihau.
- Mae ysgolion yn ardal Llangefni yn gweithredu gyda chyllideb sydd mewn diffyg neu gyda chronfeydd dros ben sy'n lleihau.
- Nid oes digon o leoedd yn ysgolion ardal Llangefni. Mae dwy ysgol mwy na 10% dros eu capasiti. Yn ogystal â hyn, yn nwy o'r ysgolion mae dros 25% o'r disgyblion yn mynychu o du allan i'r dalgylch. Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â hyn.
- Un ysgol yn unig sydd a gradd "A" o ran cyflwr yr adeilad presennol. Mae cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer bob ysgol yn fwy na £4m ac nid oes gan yr Awdurdod yr adnoddau cyllidol i fynd i'r afael â hyn.
- Mae angen gwella hygyrchedd i blant anabl yn ysgolion ardal Llangefni.

**Gellir felly dod i'r casgliad bod angen moderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni i ddarparu model cynaliadwy effeithiol/effeithlon ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

Yn adran 5 i ddilyn, mae'r papur yn nodi opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni.

## 5. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER ARDAL LLANGEFNI

Mae'r adran ganlynol yn adnabod opsiynau amgen rhesymol mewn ymgais i adnabod datrysiad i ardal gyfan Llangefni sy'n mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni a nodir yn Adran 4 uchod. Mae derbynion cyfalaf wedi eu hystyried ble'n briodol wrth gyfrifo costau ad-dalu blynyddol yr opsiynau isod:

| **5.1 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn fel y maent**<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaethyn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol ar draws yr ysgolion. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly nid yw'n sefydlu'r amodau sydd eu hangen i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod ac i weithredu o fewn cyllideb gytbwys (balansau cyfunol wedi gostwng o weddill o £195,998 ar 31/03/2018 i ddiffyg o £55,835 erbyn 31/03/2019).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y rhagwelir y bydd poblogaeth y disgyblion yn cynyddu. Byddai hyn yn golygu bod rhaid cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws |

| **5.1 Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn fel y maent**<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ychwanegol yn y dyfodol – byddai'r gost o gwmpas £150k y flwyddyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol ar adeg o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.2 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gyda Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd)**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddiaeth i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys Penaethiaid Cynorthwyol.<br>▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oedran tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o gael cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |

| **5.2 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gyda Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd)**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 5.Cyllidol | ▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Gall olygu lleihad mewn costau staffio | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau refeniw yn codi yn y dyfodol oherwydd rhagwelir bydd nifer y disgyblion yn cynyddu, fyddai'n golygu byddai plant yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'w dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol – byddai'r gost o gwmpas £150k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪Byddai'n cynnal y ddarpariaeth b dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪Un Corff Llywodraethu ac un Pennaeth. | ▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |

| **5.3 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a cynyddu capasiti Corn Hir)**<br>**Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |

| **5.3 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a cynyddu capasiti Corn Hir)**<br>**Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddiaeth i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys Penaethiaid Cynorthwyol.<br>▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oedran tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws y continwwm ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o gael cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Wrth ffedereiddio YCH ac YYG, gellir ychwanegu at anghysondebau arweinyddiaeth – un ysgol gynradd o 600+ yn cael ei harwain gan Bennaeth ac ysgolion cyfagos o tua 70 a 40 yn cael eu harwain gan Benaethiaid gwahanol – gellir cwestiynu tegwch y dull arwain. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai disgyblion Corn Hir yn cael budd o ddarpariaeth addysg 21ain ganrif. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant ac felly i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n ymdrin yn ddigonol â chostau ôl-groniad cynnal a chadw na'r angen i wella adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Ni fyddai Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn nac Ysgol Gyfun Llangefni yn cael budd o'r ysgol newydd. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion ble mae gormod o ddisgyblion.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd am y blynyddoedd sydd i ddod (11% yn ormod yn erbyn y capasiti presennol ym Ionawr 2019). |
| 5.Cyllidol | ▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Er fod y gyllideb a ddyrannir drwy'r fformiwla cyllido ysgolion yn debygol o gynyddu o £26k, mae costau staffio yn debygol o leihau o tua £18k, ac mae'n debygol bydd costau cludiant yn £90k yn llai nac amcangyfrifir o dan y ddarpariaeth bresennol am y dyfodol. O dan y ddarpariaeth bresennol, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol i gludo plant allan o'r dalgylch gan nad oes digon o lefydd. Fel rhan o'r opsiwn hwn, dim ond 2 gytundeb bws fyddai eu hangen i gludo disgyblion allan o'r dalgylch, oherwydd byddai capasiti Ysgol Corn Hir yn cynyddu. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion – nid yw'n hyfyw'n gyllid yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Cost cyfalaf sylweddol, a byddai'r rhan fwyaf ohoni yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir y byddai'r ad-daliadau blynyddol am fenthyca £4.6 miliwn tua £232k y flwyddyn am 50 mlynedd. |

| **5.3 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a cynyddu capasiti Corn Hir)**<br>**Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br><br>Mae ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio ynghyd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £9.5m. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Byddai ôl-groniad cynnal a chadw yn cael ei leihau o £234. | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. | ▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |

| **5.4 Un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion: Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £20.48m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai posibilrwydd o wella safonau. Nododd Estyn (Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol - Rhagfyr 2013) bod tuedd i safonau disgyblion fod yn well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion bach neu ganolig.<br>▪ Potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y byddai'r staff yn yr ysgol newydd yn gallu gweithio ynghyd a rhannu arfer dda i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm penodol.<br>▪ Byddai'n sicrhau na fydd yr ystod oedran mewn dosbarthiadau'n fwy na dwy flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae ysgolion mwy yn tueddu i fod â mwy o arbenigeddau a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy galluog a thalentog.<br>▪ Cyfleoedd i staff rannu arbenigeddau ac arfer dda.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Byddai ysgol o 800+ o ddisgyblion cynradd (un o'r ysgolion cynradd mwyaf yng Nghymru) yn debygol o gael ei hystyried fel ysgol sy'n rhy fawr gan yr Awdurdod Lleol.<br>▪ Posibilrwydd o ddiffyg ymgeiswyr am rôl arweinyddol mewn ysgol gynradd fawr.<br>▪ Potensial o golli Llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'r ysgol newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion. | ▪ Gellir cwestiynu goblygiadau cyllidol a gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol y Graig. |

| **5.4 Un ysgol gynradd newydd yn Ardal Llangefni ar gyfer disgyblion: Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £20.48m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn cynnwys amgylcheddau dysgu allanol addas a byddai'r ysgol wedi ei dylunio i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd. | |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagolygon y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw o £776,500 yn cael eu dileu.<br>▪ Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl (Ysgol Talwrn yw'r uchaf sef £4,553 ac Ysgol y Graig yw'r isaf sef £3,429 yn 2019/20) a thegwch ymdriniaeth ar draws yr ardal.<br>▪ Amcangyfrifir arbedion refeniw o £124k y flwyddyn. Ni ddisgwylir unrhyw gost cludiant ychwanegol. Mae'n debygol byddai costau cludiant yn cynyddu'n arwyddocaol dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd rhagwelir bydd ysgolion dros eu capasiti yn arwyddocaol, a fyddai'n golygu gorfod cludo disgyblion o'u dalgylchoedd i'r ysgolion sydd â llefydd gweigion. (o dan y ddarpariaeth bresennol, os mae'r tueddiadau presennol yn parhau, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, o dan yr opsiwn hwn, dim ond 5 gytundeb bws fyddai eu hangen yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn). | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r Awdurdod, a byddai'r rhan helaeth ohoni'n cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Amcangyfrifir byddai'r gost o fenthyca £8.7 miliwn fyddai tua £455k y flwyddyn am 50 mlynedd. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster newydd er budd y gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeiladau cymuned. |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Byddai canfod safle addas ar gyfer ysgol o'r maint hwn yn her.<br>▪ Posibilrwydd y byddai llif traffig cynyddol yng nghanol y dref, yn dibynnu ar leoliad yr ysgol newydd. |

| **5.5 Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad.<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £22.46m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai posibilrwydd o wella safonau. Adroddodd Estyn bod rhai ysgolion pob oed wedi codi safonau mewn ardal. | |

| **5.5 Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad.<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £22.46m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y byddai'r staff yn yr ysgol newydd yn gallu gweithio ynghyd a rhannu arfer dda i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm penodol.<br>▪ Byddai'n sicrhau na fydd yr ystod oedran mewn dosbarthiadau'n fwy na dwy flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae ysgolion mwy yn tueddu i fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Cyfleoedd i staff rannu arbenigeddau ac arfer dda.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Ysgol o 1500 o ddisgyblion, 800+ o'r rheini yn ddisgyblion cynradd. Yr ysgol yn debygol o gael ei hystyried yn rhy fawr gan yr Awdurdod Lleol.<br>▪ Posibilrwydd o ddiffyg ymgeiswyr am rôl arweinyddol mewn ysgol gynradd fawr.<br>▪ Potensial o golli llywodraethwyr a Phenaethiaid profiadol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'r ysgol newydd yn cwrdd â safonau 21ain ganrif ac yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn cynnwys amgylcheddau dysgu allanol a byddai'r ysgol wedi ei dylunio i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd.<br>▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu. | ▪ Gellir cwestiynu goblygiadau cyllidol a gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol y Graig. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagolygon y dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a thegwch ymdriniaeth ar draws yr ardal.<br>▪ Byddai'n lleihau'r costau refeniw cyffredinol ac yn arwain at arbediad cyllidol o £124k.<br>▪ Ni ddisgwylir unrhyw gost cludiant ychwanegol. Mae'n debygol byddai costau cludiant yn cynyddu'n arwyddocaol dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd rhagwelir bydd ysgolion dros eu capasiti yn arwyddocaol, a fyddai'n golygu gorfod cludo disgyblion o'u dalgylchoedd i'r ysgolion sydd â llefydd gweigion. (o dan y ddarpariaeth bresennol, os mae'r tueddiadau presennol yn parhau, rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, o dan yr opsiwn hwn, dim ond 5 gytundeb bws fyddai eu hangen yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn). | ▪ Diffyg cyllid o'r amlen ysgolion 21ain ganrif a fyddai'n gallu golygu bod rhaid i'r Awdurdod Lleol fuddsoddi llawer mwy na 50% o'r amcan adeilad £20m+.<br>▪ Os yw'r awdurdod yn cyllido 50% o'r gost cyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth o £9.8 miliwn, rhagwelir y byddai costau blynyddol yn £504k. |

| **5.5 Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad.<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £22.46m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Byddai ôl-groniad cynnal a chadw'n o £4.38 miliwn yn cael ei ddileu.<br>▪ Buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol yn yr ardal mewn amser o doriadau cyllidol. | |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster newydd er budd y gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeiladau cymuned. |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Byddai canfod safle addas ar gyfer ysgol o'r maint hwn yn her yn y rhan hon o Langefni gan fod safle Ysgol Gyfun Llangefni'n anaddas am estyniad oherwydd diffyg gofod ac anawsterau mynediad (yn bennaf o safbwynt iechyd a diogelwch).<br>▪ Posibilrwydd y byddai llif y traffig yn cynyddu yng nghanol y dref, yn dibynnu ar leoliad yr ysgol newydd. |

| **5.6 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £4.38m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant nac felly'n sefydlu'r amodau i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd, |

| **5.6 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw ar yr holl ysgolion**<br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £4.38m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig am y blynyddoedd sydd i ddod (seiliedig ar ffigurau Ionawr 2019) |
| 5.Cyllidol | ▪ Dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw o £4.38m. | ▪ Nid yw'n hyfyw ar gyfer y dyfodol o ran cyllid oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel yr ystâd adeiladau ysgolion. Nid oes gan y Cyngor yr arian i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Dim arbedion refeniw.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Pe ariennid y gwaith i ymgymryd ag ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost flynyddol am ad-daliadau fyddai o gwmpas £346k y flwyddyn am 20 mlynedd.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.7 Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau |

| **5.7 Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella'r adeilad ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif. | ▪ Dim digon o dir ar gael i ymestyn yr ysgolion i gyflawni'r capasiti rhagamcanol gofynnol.<br>▪ Ystyriaethau a pryderon iechyd a diogelwch yn ystod y gwaith adeiladu ar bob safle ynghyd â mwy o draffig i safleoedd presennol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i'r dyfodol | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai cost cludiant ychwanegol o £150k yn cael ei hosgoi yn y dyfodol. (Dim angen am gytundebau bws ychwanegol i gludo plant allan o'r dalgylch os fyddai ysgol y dalgylch dros ei chapasiti). | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â gallu ysgolion i osod a gweithredu o fewn cyllideb gytbwys.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn y gyllideb ysgol - dim arbedion refeniw. Byddai costau refeniw ychwanegol o tua £70k y flwyddyn oherwydd costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau (gan gynnwys costau TAC, Glanhau, Ynni a Chynnal a Chadw Tiroedd).<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor yr arian i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllidebol a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn gael ei archwilio'n fanwl gan Lywodraeth Cymru.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai arian ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan mai dim ond yn rhannol y byddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd diffyg gofod.<br>▪ Os na ellir denu cyllid gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrifir mai'r gost o ad-dalu benthyciad digefnogaeth fyddai tua £343k y flwyddyn. |

| **5.7 Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.8 Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau yn well a galluogi ysgolion i archwilio ffyrdd i wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Posibilrwydd o weithgareddau ar y cyd i ddisgyblion drwy gyfleoedd cydlynol yn ymwneud â phlant o oed tebyg o ysgolion gwahanol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda drwy'r continwwm ond byddai'n rhaid rheoli hyn yn ofalus. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/ cydweithredu'n datblygu'n araf yng Nghymru – dal yn y cyfnod peilot.<br>▪ Mae'n debyg y byddai'n cymryd amser i wreiddio cydweithrediad clwstwr cyn i glystyru ddod yn brif lif.<br>▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaethyn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol i blant nac felly'n sefydlu'r amodau i ddosbarthu Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor.<br>▪ Gwell defnydd o adnoddau ar draws ysgolion Llangefni. | ▪ Nid yw'n hyfyw ar gyfer y dyfodol o ran cyllid oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel yr ystâd adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a chydraddoldeb y ddarpariaeth gan fod ysgolion llai yn |

| **5.8 Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i ddefnyddio adnoddau ac arbenigeddau yn well a galluogi ysgolion i archwilio ffyrdd i wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o ataliad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | |

| **5.9 Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymuned e.e. Iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg i'r gymuned, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol**<br><br>Yn seiliedig ar dim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu'r plant i ddysgu'n annibynnol ac felly |

| **5.9 Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymuned e.e. Iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg i'r gymuned, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol**<br><br>Yn seiliedig ar dim gwariant cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ni ellir darparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪Mae bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪Posibilrwydd o gydbwyso costau'r ysgol gyda'r incwm a ddaw o ddefnydd cymunedol. | ▪ Nid yw'n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n ymdrin â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪Yn cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. Pob ysgol yn parhau i fod yn annibynnol. | ▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol wrth i wasanaethau rannu safle'r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd bod gwasanaethau'r Cyngor wedi eu tynnu i'r Pencadlys yn Llangefni i gefnogi'r agenda effeithlonrwydd.<br>▪ Gofod cyfyngedig yn ystâd yr adeiladau ysgol fel hwb i wasanaethau eraill – e.e. Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol y Graig dros eu capasiti. |

| **5.10 Cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Dim newid mewn safonau yn yr ardal yn y tymor canolig i'r tymor hir. |

| 5.10 Cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Yn y sector cynradd, ni fyddai unrhyw newid o ran yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Bodffordd a Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim cyfle i bob Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu'r plant i ddysgu'n annibynnol ac felly ni ellir darparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, mae gormod o blant mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Posibilrwydd o gydbwyso costau'r ysgol gyda'r incwm a ddaw o ddefnydd cymunedol gan wasanaethau sydd wedi eu cyd-leoli yn yr ysgolion. | ▪ Nid yw'n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n ymdrin â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau cludiant yn cynyddu yn y dyfodol gan y byddai disgyblion yn cael eu cludo allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. (rhagwelir y byddai angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol – rhagwelir byddai'r gost tua £150k y flwyddyn).<br>▪ Cost cludiant ychwanegol o £150k gan y byddai'n rhaid cludo disgyblion o'r dalgylch oherwydd bod ysgolion dros eu capasiti.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |

| **5.10 Cydleoli gwasanaethau lleol mewn ysgolion**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Y tarfu lleiaf posibl ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol wrth i wasanaethau eraill rannu safle'r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd gwrthdyniad gwasanaethau i'r Pencadlys yn Llangefni i gynorthwyo agenda effeithlonrwydd.<br>▪ Gofod cyfyngedig yn ystâd bresennol yr adeiladau ysgol i ddefnyddio ysgolion fel hwb i wasanaethau eraill – e.e. Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol y Graig dros eu capasiti. |

| **5.11 Sefydlu ysgolion aml-safle : (CA1 – ar yr un safle), (CA2 – ar safle arall)**<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir e.e. Ysgol Bodffordd (Meithrin, Bl. 0 -1) ac Ysgol Corn Hir (Bl. 2-6)<br>&<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn e.e. Ysgol y Graig (Bl. 1-6) ac Ysgol Talwrn (Meithrin- Bl. 0)<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £6.8m i adeiladu estyniad ar y 4 adeilad presennol i gymryd rhagolygon y nifer disgyblion i'r dyfodol | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau a'r ystodau oedran yr addysgir mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gall arwain at welliant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Ni fyddai gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, byddai'n bosib datblygu uwch dîm rheoli a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeiladau Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion y 21ain Ganrif ac i ddarparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu'r plant i ddysgu'n annibynnol ac felly ni ellir darparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion |

| **5.11 Sefydlu ysgolion aml-safle : (CA1 – ar yr un safle), (CA2 – ar safle arall)**<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir e.e. Ysgol Bodffordd (Meithrin, Bl. 0 -1) ac Ysgol Corn Hir (Bl. 2-6)<br>&<br>Yn seiliedig ar ddarpariaeth aml-safle gydag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn e.e. Ysgol y Graig (Bl. 1-6) ac Ysgol Talwrn (Meithrin- Bl. 0)<br><br>Yn seiliedig ar gost oddeutu £6.8m i adeiladu estyniad ar y 4 adeilad presennol i gymryd rhagolygon y nifer disgyblion i'r dyfodol | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | unigol – nid yw'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n ymdrin ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd yn yr Ysgol | | ▪ Nid fyddai'n ganiataol yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion, ac mae gormod o ddisgyblion mewn tair ohonynt. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae'n debyg y byddai cost cludiant ychwanegol o tua £85k sy'n arbediad o £65k o'i gymharu â'r amcangyfrif cost am gludiant ychwanegol o £150k i'r dyfodol o dan y trefniadau presennol. (O dan y drefn bresennol, rhagwelir bydd angen 5 cytundeb bws yn y dyfodol, i gludo disgyblion allan o'r dalgylch gan fod ysgolion dros eu capasiti. yn yr ardal. O dan yr opsiwn hwn, amcangyfrifir byddai angen 3 cytundeb bws ychwanegol i gludo plant rhwng Ysgol Y Graig ag Ysgol Talwrn ag Ysgol Bodffordd ac ysgol Corn Hir.<br>▪ Bydd yn lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl | ▪ Nid yw'n ymdrin â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw ostyngiad yng nghost cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau adeiladau'n cynyddu o tua £78k.<br>▪ Byddai 50% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth o £3.4 miliwn, a'r gost am hyn fyddai tua £166k y flwyddyn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda bresennol. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8.Materion Cyffredinol | ▪Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Logisteg – byddai'n broblem i rieni godi a gollwng eu plant os ydynt yn mynychu safleoedd gwahanol. |

Fel yr amlygir uchod, mae'r Awdurdod wedi ystyried nifer o wahanol opsiynau amgen rhesymol ac er bod manteision ac anfanteision i bob opsiwn, **daw i'r canlyniad nad oes datrysiad hyfyw ar gyfer ardal gyfan Llangefni i'w archwilio ymhellach dan raglen buddsoddi 21ain Ganrif i Gymru.**

O ganlyniad, ystyrir yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ynghyd â chynigion amgen rhesymol oherwydd eu hagosrwydd (1.9 milltir - Google maps) yn unol â'r Strategaeth Addysg. Mae Strategaeth Addysg gyhoeddedig yr Awdurdod (Hydref 2018) yn nodi "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno."

Bydd papur cynnig ar wahân yn trafod datrysiad ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd a yn cael ei ystyried oherwydd eu hagosrwydd.

Ni chynhwysir Ysgol Gyfun Llangefni yn y papur cynnig hwn oherwydd:

- Diffyg argaeledd safle posib arall ac addasrwydd y safle presennol;
- Diffyg gofod, erwau a mynediad;
- Diffyg arian wedi'i adnabod drwy raglen buddsoddi 21ain ganrif.

## 6. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG

Isod, amlinellir yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a sut yr eir i'r afael â'r cynnig i ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn: (Defnyddir ffigurau CYBLD 2019 os na ddywedir yn wahanol)

| | Heriau allweddol | Sut yr eir i afael â hwynt gan y cynnig |
|---|---|---|
| **6.1. Niferoedd Disgyblion** | Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti o tua 3% ac mae Ysgol Talwrn o dan ei chapasiti o 8%.<br><br>Disgwylir i niferoedd Ysgol y Graig aros yn gyson tan 2024 ond disgwylir i niferoedd Ysgol Talwrn leihau dros yr un cyfnod.<br>Ysgol Talwrn – Capasiti heb y meithrin 49 / Rhagwelir 37 yn 2024.<br>Ysgol y Graig – Capasiti heb y meithrin 330 / Rhagwelir 334 yn 2024. | Bydd gan yr ysgol ehangedig newydd ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.<br>Yn ogystal â hyn, addysgir disgyblion Talwrn mewn dosbarthiadau gydag ystodau oedran llai, a all gael effaith gadarnhaol ar safonau.<br>Disgyblion yn symud llai ar draws dalgylchoedd. |
| **6.2. Lleoedd Gweigion** | Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti. Ei chapasiti yw 330, niferoedd disgyblion yn Ionawr 2019 oedd 339 (3% dros ei chapasiti).<br>Ysgol Talwrn – Capasiti 49, niferoedd disgyblion ym Ionawr 2019 oedd 45 (8% o leoedd gweigion).<br>Ym mis Hydref 2019:<br>Roedd gan Ysgol Talwrn 14% o lefydd gweigion, er fod 17% o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, a bod 31% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig. | Byddai'r ysgol ehangedig wedi'i dylunio i fod â lleoedd digonol i allu cwrdd â'r galw am leoedd ysgol yn y dalgylch. |
| **6.3. Dosbarthu'r Cwricwlwm** | Gofod cyfyngedig sydd gan adeilad Ysgol Talwrn i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG. Fodd bynnag, mae gan Ysgol y Graig ddigon o ofod i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru. | Bydd yr ysgol ehangedig wedi'i hadeiladu i bwrpas dosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). Bydd gan yr ysgol well deunydd i allu dosbarthu'r cwricwlwm llawn mewn modd priodol, gwahaniaethol, eang ac amrywiol a fydd yn fuddiol i bob disgybl. |
| **6.4. Cost fesul disgybl** | Amrywiad yn y gost fesul disgybl – cyfartaledd Ynys Môn 2019/20 = £3,988 :<br>• Ysgol Talwrn 2019/20 = £4,553<br>• Ysgol Y Graig 2019/20 = £3,429 | Byddai lleihad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol wedi ei ehangu.<br>Amcangyfrifir mai'r gost fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd fyddai £3,436. Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor. |
| **6.5. Adeilad Ysgol** | Adeiladwyd rhan o Ysgol Talwrn yn y 19eg ganrif ac mae ganddi ôl-groniad cynnal a chadw o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol - Yn perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad).<br>Mae gan Ysgol y Graig ôl-groniad cynnal a chadw o £48,500 (2019) a gradd cyflwr A (Da | Dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd i fod â chostau cynnal a chadw isel gyda gradd BREEAM ardderchog.<br>Byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw o £408,500 ar gyfer y ddwy ysgol yn cael ei ddileu. |

<table>
<tr><th></th><th>Heriau allweddol</th><th>Sut yr eir i afael â hwynt gan y cynnig</th></tr>
<tr><td></td><td>- Perfformio fel y dylai ac yn gweithio’n effeithiol).<br>Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Ysgol y Graig yn cydymffurfio’n llawn â’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</td><td>Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.</td></tr>
<tr><td>6.6.<br>Safonau</td><td>Mae’r tabl yn dangos crynodeb o arolygiadau Estyn ar gyfer y ddwy ysgol (mae manylion pellach yn Adran 6.11 o’r papur hwn isod):
<table>
<tr><th></th><th>Y Graig<br>Ion 2019</th><th>Talwrn<br>Hyd 2018</th></tr>
<tr><td>Safonau</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Addysgu a phrofiadau dysgu</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
</table>
Mae gan y ddwy ysgol adroddiad Estyn tebyg.<br><u>Categoreiddio – Ffynhonnell GwE Tachwedd 2019</u>
<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Ysgol Talwrn</th><th>Ysgol Y Graig</th></tr>
<tr><td>2019</td><td>Gwyrdd</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2018</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2016</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr>
</table>
Mae ysgolion yn derbyn cymorth gan GwE.<br>Mae Ysgol Talwrn wedi ei chategoreiddio’n wyrdd (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 4 ddiwrnod o gefnogaeth).<br>Mae Ysgol y Graig wedi’i chategoreiddio’n wyrdd (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 4 diwrnod o gefnogaeth).</td><td>Bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddfeydd Estyn ac i ddal gafael ar y statws categoreiddio gwyrdd.</td></tr>
<tr><td>6.7.<br>Ymrwymiad Addysgu’r Pennaeth</td><td>Ysgol Talwrn – cyfartaledd o 70% o ymrwymiad addysgu (Ffynhonnell – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu CYBLD Ionawr 2019).<br><br>Ysgol y Graig – dim ymrwymiad addysgu (CYBLD Ionawr 2019).</td><td>Yn yr Ysgol y Graig wedi’i hehangu, rhagwelir na fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu. Yn ogystal, bydd y Pennaeth yn gallu ystyried y tîm rheoli ymhellach i gryfhau a chynyddu capasiti arweinyddiaeth.</td></tr>
<tr><td>6.8.<br>Cyllid</td><td>Ysgol Talwrn – roedd ganddi 13% o’i balansau yn weddill ar ddiwedd mis Mawrth 2019.<br>Ysgol y Graig – roedd hi mewn diffyg o 3% ar ddiwedd mis Mawrth 2019, ac maent wedi arddangos y gallent ddod allan o’r diffyg hwn yn ystod y flwyddyn gyllidol 2019/20.</td><td>Mae ysgolion o’r maint hwn mewn gwell sefyllfa i sicrhau dosbarthiadau o faint effeithlon, h.y nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos i 30.</td></tr>
</table>

| | Heriau allweddol | Sut yr eir i afael â hwynt gan y cynnig |
|---|---|---|
| | Mae'r sefyllfa uchod ar adeg pan mae'r Awdurdod Lleol yn edrych i wneud arbedion. Er nad yw Setliad Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau(ar y 7/1/2020), mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ofynnol i'r awdurdod fynd i'r afael â bwlch cyllido o £ 8.5m dros y 3 blynedd sydd i ddod.<br>(Gweler cyllidebau ysgolion Adran 6.14 am wybodaeth bellach). | |
| **6.9.**<br>**Yr Iaith Gymraeg** | Parhau i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn amgylchedd yr ysgol.<br>(Mae'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi targedau a osodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg cymeradwy a sut y byddai'r cynnig yn ehangu darpariaeth Gymraeg ar gael yn Adran 6.11 isod). | Wrth i ddisgyblion Ysgol Talwrn (51%) ac Ysgol y Graig (73%) siarad Cymraeg, mae gan yr ysgol ehangedig y potensial i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach. |

**6.10 Ansawdd Safonau Addysg – arolygiadau diweddaraf Estyn yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig**

Mae'r adran ganlynol yn cymharu arolygiadau Estyn diweddaraf y ddwy ysgol.
Isod, crynhoir y farn gyffredinol ar safonau, lles, dysgu ac addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

| Dyddiad yr Arolwg | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Talwrn (10/18) | Da | Da | Da | Da | Da |
| Graig (01/19) | Da | Da | Da | Da | Da |

| Barn | Beth mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Ardderchog | Llawer o gryfderau, gan gynnwys esiamplau arwyddocaol o ymarfer sy'n arwain y sector. |
| Da | Llawer o gryfderau ac nid oes meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol |
| Boddhaol | Cryfderau'n gorbwyso'r meysydd sydd angen eu gwella |
| Anfoddhaol | Meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Crynhoir adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig isod:
**NODER** – Mae'r sylwadau isod am gyd-destun yr ysgolion yn disgrifio'r sefyllfa ar yr adeg cyhoeddwyd adroddiad Estyn.

| Ysgol Y Graig: Ionawr 2019 | Ysgol Talwrn: Hydref 2018 |
|---|---|
| Cyd-destun yr ysgol<br>• Mae gan yr ysgol ddeg dosbarth oed sengl, tri dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin rhan amser. | Cyd-destun yr ysgol<br>▪ Trefnir disgyblion i dri dosbarth oedran cymysg yn y boreau, a dau yn y prynhawn. |
| Mae safonau'r ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n dda. Mae llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.<br>• Mae llawer yn datblygu medrau llafar a gwrando effeithiol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu. | Mae safonau'r ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn blwyddyn 6.<br>• Mae medrau llafar rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda.<br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i ateb |

| Ysgol Y Graig: Ionawr 2019 | Ysgol Talwrn: Hydref 2018 |
|---|---|
| • Mae llawer, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion.<br>• Mae gan fwyafrif y disgyblion, ar draws yr ysgol, ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol.<br>• Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amryw ffurf i gyflawni tasgau mathemategol yn llwyddiannus.<br>• Mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. | neu gynnig atebion neu sylwadau am eu gwaith.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen.<br>• Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg, gyda llawer yn rhoi rhesymau da ynghylch pwy yw eu hoff gymeriad.<br>• Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda wrth symud drwy'r ysgol.<br>• Mae safon medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. |
| Mae lles ac agweddau at ddysgu yn yr ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Mae bron pob un disgybl yn cyfleu teimladau teyrngar am eu hysgol ac yn ymfalchïo bod perthnasoedd agos rhyngddynt â'r staff. Mae'r rhan fwyaf ag agweddau cadarnhaol at eu dysgu.<br>• Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol.<br>• Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn dda iawn.<br>• Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan reolaidd mewn gweithgareddau ymarfer corff.<br>• Mae'r rhan fwyaf yn oddefgar a sensitif i anghenion a theimladau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw.<br>• Mae'r disgyblion sydd â dyletswyddau yn cymryd eu rolau o ddifrif | • Mae lles ac agweddau at ddysgu yn yr ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Mae ymddygiad bron pob disgybl y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch..<br>• Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed.<br>• Mae gan fwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol ac maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau estynedig. Yn ystod eu gwersi, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar i gyfrannu.<br>• Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac mae'r trawstoriad o aelodau sydd wedi eu hethol i gyngor yr ysgol yn cyflawni eu gwaith yn fedrus. Mae'r aelodau yn dangos balchder yn y modd maent yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad Cymraeg. |
| Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn yr ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Mae'r athrawon yn trefnu amrywiaeth o brofiadau ysgogol<br>• Mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu ar gyfer y cyfnod sylfaen o fewn y dosbarthiadau yn effeithiol.<br>• Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysg yn dda.<br>• Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu yn fwriadus trwy gynnig ymyraethau arbenigol ac ysgogol.<br>• Mae bron pob oedolyn yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn gyson. O ganlyniad, mae safonau llafar llawer o'r disgyblion yn dda. | Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn yr ysgol yn **dda** oherwydd:<br>• Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion, sy'n meithrin dysgu llwyddiannus.<br>• Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn.<br>• Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith.<br>• Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog a gweithgareddau'n llifo'n bwrpasol.<br>• Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu |

<table>
<tr><th>Ysgol Y Graig: Ionawr 2019</th><th>Ysgol Talwrn: Hydref 2018</th></tr>
<tr><td>• Ar y cyfan, mae’r ddarpariaeth ar gyfer meithrin medrau llythrennedd yn gadarn yn y ddwy iaith<br>• Mae safonau addysgu mathemateg yn gadarn ar draws yr ysgol</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn yr ysgol yn dda oherwydd:<br>• Mae’r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryfder.<br>• Mae’r trefniadau i olrhain cynnydd y disgyblion yn gadarn<br>• Mae’r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn llwyddiannus ac yn cydweithio’n bwrpasol gydag asiantaethau allanol.<br>• Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i sicrhau bod y disgyblion yn medru gwneud dewisiadau synhwyrol am sut i gadw’n ddiogel<br>• Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol yn gadarn iawn<br>• Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn dda.<br>• Mae trefniadau buddiol yn bodoli i helpu’r disgyblion i wneud penderfyniadau doeth.<br>• Mae amrediad gwerthfawr o weithgareddau corfforol, gan gynnwys clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, sy’n llwyddo i hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion a magu eu brwdfrydedd i gadw’n iach.<br>• Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gyfrannu i weithgareddau o fewn y gymuned</td><td>Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn yr ysgol yn dda oherwydd:<br>• Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad gan staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.<br>• Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.<br>• Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.<br>• Mae’r staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw.<br>• Mae’r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau’r ysgol gyda’r rhieni yn rheolaidd ac mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn llwyddiannus.<br>• Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.<br>• Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion..<br>• Mae’r cymorthyddion dysgu yn cyfrannu’n effeithiol at gefnogi disgyblion unigol ac yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus</td></tr>
<tr><td>Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol yn dda oherwydd:<br>• Mae gan y pennaeth, staff a llywodraethwyr weledigaeth eglur, ac mae’r weledigaeth strategol hon yn arwain at ethos hynod ofalgar, diogel a chynhwysol ar draws yr ysgol, sy’n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni’n dda.<br>• Mae strwythur staffio clir gan yr ysgol<br>• Mae’r pennaeth yn amserlennu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn ddoeth<br>• Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr gan yr ysgol<br>• Mae’r llywodraethwyr yn cynnig arweiniad pwrpasol ac yn gosod her effeithiol i’r ysgol<br>• Mae’r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a’r llywodraethwyr yn ffocysu’n dda ar ddefnyddio pob twll a chornel yn yr adeilad i gefnogi dysgu a chynnydd y disgyblion</td><td>Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol yn dda oherwydd:<br>• Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i’r ysgol, sy’n sicrhau cyfeiriad strategol clir, a diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus.<br>• Mae’r staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda ac maent yn eu datblygu’n effeithiol a chydwybodol.<br>• Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer athrawon.<br>• Mae gan holl aelodau’r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella.<br>• Mae’r llywodraethwyr yn derbyn cynhaliaeth, arweiniad a hyfforddiant effeithiol. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am agweddau fel dadansoddi data, arsylwi gwersi, cyllid a diogelu plant.</td></tr>
</table>

Isod, rhestrir y prif bethau y gellir eu casglu o’r gymhariaeth uchod.

- Mae gan Ysgol y Graig ddeng dosbarth oedran sengl a thri dosbarth oedran cymysg tra trefnir disgyblion Ysgol Talwrn mewn tri dosbarth oedran cymysg yn y bore, a dau yn y prynhawn.
- Mae gwahaniaeth yn y cyllid – mae Ysgol y Graig yn derbyn 14% yn llai na chyfartaledd cost y disgybl cynradd ym Môn tra bod Ysgol Talwrn yn derbyn 14% yn uwch chyfartaledd cost y disgybl cynradd ym Môn.

- Mae tebygrwydd yn y safonau a gyflawnir yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ond mae Ysgol y Graig yn fwy llwyddiannus mewn cyflawni canrannau uwch ar gyfer lefel 5+ sy'n awgrymu bod Ysgol y Graig yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda ac yn cwrdd â lefelau uwch na lefelau Môn a Chymru.
- Barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn Dda yn y ddwy ysgol gyda Llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth ac arweiniad effeithiol wrth ymddwyn fel cyfeillion beirniadol.
- Mae'r dyfarniad am les yr un fath yn y ddwy ysgol [Y Graig – da; Talwrn – da]. Mae'r testun yn awgrymu fod y ddwy ysgol yn mynd i'r afael â lles disgyblion yn effeithiol – dealltwriaeth disgyblion o sut i wella eu gwaith; disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol, yn ystyriol o eraill, yn cydweithredu ac yn dangos consyrn am eu gilydd, a deall pwysigrwydd cadw'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.
- Mae'r ddwy ysgol yn llwyddo i sicrhau bod y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni safonau da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 a bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.
- Nid oes gwahaniaeth amlwg yn safonau'r Gymraeg yn y ddwy ysgol – mae safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda yn y ddwy ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r ddwy ysgol yn blaenoriaethu datblygu'r iaith Gymraeg.

**6.11 Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i gefnogi gweledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050, yn unol â 'Cymraeg 2050 : Strategaeth yr Iaith Gymraeg'.

Mae'r 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes' yn pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol tan 16 oed.
Mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm hwn yn nodi'r canlynol:
"Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnig ffyrdd o fanteisio ar y cysylltiadau rhwng dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, drwy annog plant a phobl ifanc i gymhwyso eu gwybodaeth am y ffordd y mae iaith yn gweithio yn y Gymraeg, er enghraifft, at y Saesneg neu ieithoedd tramor modern. Drwy wneud hyn, gallant ddod i ddeall strwythur ieithoedd. Mae hyn, ynghyd â gwerthfawrogiad o eiriau a'u tarddiad, yn gallu helpu plant a phobl ifanc i feithrin brwdfrydedd a diddordeb mewn iaith."

Yn ysgolion Môn, dysgu Cymraeg a Saesneg un ai fel iaith gyntaf neu ail iaith yw un o'r gofynion hanfodol ac mae'n adlewyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol.

Nod yr Awdurdod Lleol yw addysgu disgyblion i fod yn hollol ddwyieithog wrth iddynt adael yr ysgol gynradd ac i ddatblygu'r gallu hwn yn ystod eu cyfnod uwchradd er mwyn dod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r dyhead hwn yn unol â strategaeth gorfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn.

Bydd yr Ysgol y Graig wedi'i hehangu yn parhau i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Ni fydd felly unrhyw newid yn y categori iaith gan fod Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.

Byddai gwireddu'r cynnig yn cefnogi Deilliant 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018), sef
**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae Fforwm Iaith Gymraeg y Sir yn monitro cynnydd Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod yn chwarterol.

Mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig hefyd wedi llwyddo i roi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith; disgwylir y bydd yr ysgol ehangedig yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon i sicrhau y defnyddir y Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Disgwylir hefyd y bydd disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad Effaith (Atodiad 1)

Byddai ysgol fwy, wedi'i hehangu'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gymdeithasu â nifer fwy o ddisgyblion. Bydd cyfanswm o 51% o ddisgyblion (22 disgybl) o Ysgol y Talwrn fydd yn trosglwyddo i'r Ysgol y Graig ehangedig yn siarad Cymraeg yn y cartref o'i gymharu â 73% (209 disgybl) o ddisgyblion o'r Ysgol y Graig bresennol.

**6.12 Niferoedd Disgyblion a Rhagamcanion Disgyblion**

Niferoedd disgyblion - Hanesyddol

| Ysgol | Capasiti – heb y Meithrin | Disgyblion Ionawr 2015 | Disgyblion Ionawr 2016 | Disgyblion Ionawr 2017 | Disgyblion Ionawr 2018 | Disgyblion Ionawr 2019 | % llefydd gweigion Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Graig 3-11 | 330 | 333 | 333 | 335 | 326 | 339 | -3% DC |
| Talwrn 4-11 | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 | 8% |

**Ar hyn o bryd, mae Ysgol y Graig 3% dros ei chapasiti**

**Niferoedd disgyblion – Rhagolygon Pum Mlynedd**

| Ysgol | Capasiti – heb y Meithrin | Nifer ar y gofrestr Medi 2019 | Rhagolwg nifer ar y gofrestr Medi 2020 | Rhagolwg nifer ar y gofrestr Medi 2021 | Rhagolwg nifer ar y gofrestr Medi 2022 | Rhagolwg nifer ar y gofrestr Medi 2023 | Rhagolwg nifer ar y gofrestr Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Talwrn | 49 | 40 | 47 | 46 | 41 | 39 | 37 |
| Y Graig | 330 | 324 | 329 | 331 | 326 | 320 | 334 |

Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd niferoedd Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37, sef gostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod, rhagwelir y bydd niferoedd Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sef 3% o gynnydd. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd niferoedd yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.

Yn ogystal, mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a'r plant oedran ysgol cynradd fydd yn deillio o hyn. Dangosir niferoedd y plant oed cynradd fydd yn deillio o'r datblygiadau hyn yn y tabl isod:

| Ysgol | Nifer o ddatblygiadau tai yn y dalgylch hyd at 2026 | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Talwrn | 6 | 1 - 2 |
| Y Graig | 397 | 67 - 143 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu fod gan bob cartref ym Môn gyfartaledd o 0.17 o blant oed cynradd. Drwy luosi'r nifer o ddatblygiadau tai â 0.17, ceir amcangyfrif o'r nifer o blant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Er hynny, yn ward Tudur, mae cyfartaledd o 0.36 o blant oed cynradd ym mhob tŷ a gall hyn arwain at cyfanswm o 143 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Bydd y datblygiadau tai yn cael eu adeiladu o 2019 tan 2027 fesul cam (phase) a felly fydd y disgyblion yn cael eu hychwanegu i'r ysgol fesul ychydig dros gyfnod o 8 mlynedd. Os

gwireddir y cynnig, bydd yn golygu mai rhagolwg nifer y disgyblion yn yr ysgol ehangedig newydd rhwng 400 a 438. Felly, mae'r capasiti arfaethedig newydd yn darparu digon o le ar gyfer plant sy'n deillio o'r datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal. O ganlyniad, mae'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol i 480 yn realistig ac yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Fuddsoddi Ysgolion 21ain Ganrif.

Ym mis Hydref 2019:
Roedd gan Ysgol Talwrn 14% o lefydd gweigion, er fod 17% o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, a bod 31% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

**6.13 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
Os cytunir ar y cynnig presennol, bydd yn arwain at newid yn amgylchedd dysgu bob disgybl. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai y bydd y newid yn profi'n fwy o her i rai disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau'r lefel isaf o aflonyddwch bosib ac i gynorthwyo disgyblion ag unrhyw drosglwyddiad.

Bydd disgyblion ADY sy'n mynychu Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol yn yr amgylchedd dysgu newydd a gyflwynir gan ysgol ehangedig newydd. Bydd trefniadau ychwanegol sydd ar waith ar hyn o bryd i ddisgyblion, megis mynediad at gefnogaeth ychwanegol yn cael eu hadolygu a'u darparu yn ôl yr angen.
Mae hefyd y posibilrwydd y bydd angen i'r ysgol newydd ddatblygu ystod fwy o arbenigeddau i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol.

Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth a chymorth priodol i ddisgyblion ADY. Os oes gan rieni sydd â disgyblion ADY cofrestredig unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynhigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda Dr Einir Thomas (Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol)
E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru , ffôn 01286 679007.

**6.14 Cyllidebau Ysgolion**

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol a chostau i'r ysgolion.

| | Cyllideb Blwyddyn Lawn 2018/19 | Gwir Wariant 2018/19 | 2018/19 Gwarged/ (Diffyg) | Balansau'r Ysgolion yn 31/03/18 | Balansau'r Ysgolion yn 31/03/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Talwrn | £198,196 | £216,255 | (£18,059) | £51,764 | £33,705 |
| Ysgol y Graig | £1,301,764 | £1,349,652 | (£47,888) | £12,086 | (£35,802) |

**Er eglurder** – Nid yw'r gyllideb Blwyddyn Lawn uchod er pwrpas y ddogfen hon yn cynnwys balansau wedi'u cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol.

**Costau Rheolaidd**

Costau rheolaidd blynyddol y cynnig am ysgol â chapasiti o 480 fydd £1,374,786 yn seiliedig ar 390 o ddisgyblion yn ôl y fformiwla ariannu bresennol ar gyfer ysgolion a'r hyn sydd ar gael drwy ddyraniad cyllideb ysgolion blynyddol yr Awdurdod. Costau rheolaidd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn eu ffurf bresennol, ac yn seiliedig ar 390 o ddisgyblion cyfunol fyddai £1,379,447. Mae'r cynnig felly yn cynhyrchu arbediad net blynyddol o £4,661 a ddyrannir i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar 390 o ddisgyblion.

Os yw niferoedd disgyblion yn cynyddu i 480 o ddisgyblion, byddai'r arbediad net blynyddol a ddyrannir drwy'r fformiwla ariannu'n cynyddu i £31,255, a byddai arbediad cludiant ychwanegol o £30k gan y byddai costau'n cynyddu o £30k gyda'r cynnig. Dan y trefniadau presennol, y costau cludiant cynyddol fyddai £60k gan y byddai ysgolion yn yr ardaloedd dros

eu capasiti a byddai'n rhaid cludo disgyblion i ysgolion gyda lleoedd gweigion, sef tu allan i'r dalgylch.

### 6.15 Y Ddarpariaeth cyn ysgol

Mae sawl darparwr gofal plant ger Ysgol y Graig:

- **Darpariaeth Dechrau'n Deg.** Yn rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant dan 4 oed. Mae'n anelu at ddarparu gwasanaethau cefnogaeth ddwys i blant 0-4 oed a'u teuluoedd. Ffocws y rhaglen yw hyrwyddo sgiliau iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion dwys yn fuan. Gwneir hyn drwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad iechyd, cefnogaeth a grwpiau rhieniol, cefnogaeth iaith a chyfathrebu a gofal plant rhan amser o ansawdd i blant 2-3 oed. Tîm aml-ddisgyblaethol yw Dechrau'n Deg sy'n cynnwys Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Teulu, Staff Gofal Plant, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athrawon Blynyddoedd Cynnar, Cymorthyddion Iechyd a thîm o staff cefnogi.
- Canolfan Integredig yw Canolfan Plant Llangefni sy'n gartref i'r darpariaethau canlynol:
  - Swyddfa **Mudiad Meithrin** Gogledd Cymru.
  - **Meithrinfa Medra**. Mae'r feithrinfa ddydd hon yn cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i fabanod a phlant hyd at oed ysgol, dan ofal staff cymwysedig a phrofiadol.
  - Sefydliad elusennol nas gynhelir yw **Cylch Meithrin Stryd y Bont** a redir drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'i comisiynir ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar am 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Fe'i lleolir yng Nghanolfan Plant Llangefni. Ei gapasiti yw 24 ac roedd 18 o blant yn defnyddio'r cyfleuster ym Medi 2019.

Cofrestrir Ysgol y Graig ar gyfer plant 3-11 oed ac mae'n darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 24 fesul sesiwn ond ym Medi 2019, roedd 50 o blant yn defnyddio'r cyfleuster.

Nid oes darpariaeth feithrin yn Ysgol Talwrn. Derbynnir plant i'r ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Fodd bynnag, cynhelir sesiynau o ddarpariaeth gofal dydd (Cylch Meithrin) yn y Neuadd Bentref am 4 bore'r wythnos. Ei gapasiti yw 16 ac roedd 5 o blant yn defnyddio'r cyfleuster ym Medi 2019.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth ym Meithrinfa Medra a Chylch Meithrin Stryd y Bont yn parhau os gwireddir y cynnig. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg hefyd yn parhau ynghyd â'r ddarpariaeth feithrin yn Neuadd Bentref Talwrn.

Fel y nodir eisoes yn adran 1 a 2, y nifer o leoedd meithrin yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd fyddai 68. Y rhagolygon ar gyfer darpariaeth feithrin i blant 3-4 oed yn Ysgol y Graig yw fel a ganlyn:

| Meithrin | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Graig | 50 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 |

Byddai'r ddarpariaeth feithrin (capasiti o 68) yn yr Ysgol y Graig ehangedig yn ddigonol ar gyfer rhagolygon o'r niferoedd o blant a fyddai'n defnyddio'r cyfleuster.

## 6.16 Crynodeb

**Y rhesymau dros y cynnig i ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn yw:**

- Mae gan Ysgol y Graig 339 o ddisgyblion ac Ysgol Talwrn 45 o ddisgyblion, 1.9 milltir oddi wrth ei gilydd (ffynhonnell: google maps). Fel y nodir yn Strategaeth Addysg gyhoeddedig yr Awdurdod (Hydref 2018)
  "Wrth adolygu darpariaeth addysgol o fewn ardal neu ddalgylch rhoddir ystyriaeth i gyfuno gydag ysgolion cyfagos drwy symud y disgyblion yno."
- Mae gan y cynnig y posibilrwydd o wella safonau h.y. mae ymarfer presennol yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn debygol o gynnal y safonau newydd yn yr ysgol ehangedig newydd ar y fan lleiaf. Yn ogystal â hyn, bydd staff yn yr ysgol ehangedig newydd yn gallu gweithio ynghyd gan rannu arfer dda a datblygu arbenigeddau mewn meysydd cwricwlwm penodol a bydd yr amgylchedd dysgu'n creu amodau i athrawon lwyddo drwy gynnig y posibilrwydd o ddosbarthiadau gydag ystodau oedran sengl neu fwyafswm o ddim mwy na dwy flynedd. Mae hefyd yn cynnig y posibilrwydd o ddatblygu mwy o arbenigeddau a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a mwy abl a thalentog.
- Mae'n cynnig y posibilrwydd o wella'r Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth a mynd i'r afael â chynllunio olyniaeth drwy roi cyfrifoldebau arweinyddiaeth i aelodau unigol o staff. Bydd hyn yn sicrhau'r capasiti arweinyddiaeth i fynd i'r afael â heriau rheoli a strategol sydd ynghlwm â rhedeg ysgolion llwyddiannus.
- Byddai'r ysgol ehangedig yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion. Gofod dysgu allanol cyfyngedig sydd gan un o'r ysgolion i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion gan gynnwys amgylcheddau dysgu allanol addas, ond byddai'r ysgol ehangedig wedi'i dylunio i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd. Bydd yr ysgol newydd wedi'i ehangu'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai gan bob disgybl o Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig amgylchedd dysgu addas i blant chwarae tu allan.
- Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti ac mae rhagolygon yn arddangos y bydd yr ysgol yn cyrraedd neu'n agos at ei chapasiti am y 5 mlynedd nesaf. Bydd y cynnig yn darparu digon o leoedd yn yr ysgol newydd ehangedig i gwrdd â galw'r dyfodol a rhagolygon y dyfodol.
- Eir i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl (Ysgol Y Graig £3,429, 14% yn llai na chyfartaledd cynradd Môn; Ysgol Talwrn £4,553 14% yn fwy na chyfartaledd cynradd Môn. Byddai cost y disgybl yn yr ysgol gynradd wedi'i ehangu yn £3,429 y disgybl) Byddai'r costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu gan na fyddai unrhyw gostau ôl-groniad cynnal a chadw yn yr ysgol wedi'i ehangu. Byddai'r cynnig hefyd yn lleihau costau refeniw cyffredinol ac yn arwain at arbedion ariannol.

Mae'r cynnig hefyd yn ymdrin â'r effaith ar yr iaith Gymraeg a lles disgyblion h.y. mae'r gwerthusiad uchod yn dangos bod:

- mae safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda yn y ddwy ysgol ac mae'r ddwy ysgol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ddatblygu'r iaith Gymraeg.
- mae'r ddwy ysgol yn sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni safonau da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 a bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.
- mae'r ddwy ysgol yn ymdrin â lles disgyblion yn effeithiol – dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith; ymddwyn yn gyfrifol, bod yn ystyriol o eraill, deall pwysigrwydd cadw'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae'r adran uchod yn dangos fod gan y cynnig effaith gadarnhaol iawn ar y gyrwyr allweddol a nodir yn Adran 4. Fodd bynnag, tanategir hyn gan ymrwymiad yr Awdurdod i:

- weithio â'r gymuned yn Nhalwrn i leihau'r effaith bosib a gaiff cau Ysgol Talwrn ar y gymuned, tra'n nodi y byddai'r cyfleusterau yn yr ysgol ehangedig newydd ar gael os byddai'r nifer o

bobl yn mynychu unrhyw weithgareddau'n debygol o fod yn uwch na chapasiti unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref.

- darparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn i'r ysgol ehangedig newydd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

**Caiff y cynnig i ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn felly ei ystyried fel datrysiad rhesymol i gwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan y ddwy ysgol.**

**NODER** – Ar gyfer Adran 7 ac 8 isod:

- Mae costau wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar raniad ariannu Llywodraeth Cymru : CSYM 65:35, h.y. bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi 65% o'r gost a CSYM yn darparu'r 35% arall.
- Er bod y cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu capasiti Ysgol y Graig, mae angen ychydig o waith gwella.

## 7. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL TALWRN

Y cynnig - **"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

| **7.1 Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £5.9m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau da cyfredol a welir yn y ddwy ysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn y ddogfen Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheol ymhellach fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti'r presennol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch arian drwy ddileu'r amrywiad yn y gost fesul pen. | ▪ Byddai angen cyllido cyfran o'r gost gyfalaf gan y Cyngor drwy fenthyca digefnogaeth a amcangyfrifir y byddai'n costio £94k y flwyddyn. |

| 7.1 Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn<br>Yn seiliedig ar gost o tua £5.9m | | |
|---|---|---|
| | ▪ Arwain at leihad mewn costau refeniw o £31k drwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion a £30k pellach mewn costau cludiant. O dan y drefn bresennol, rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion allan o'r dalgylch gan nad oes digon o lefydd ysgol. Fel rhan o'r cynnig hwn, byddai digon o lefydd ysgol yn y dalgylch ond rhagwelir byddai angen 1 cytundeb bws newydd i gludo disgyblion o Talwrn i Ysgol y Graig. | |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol ehangedig newydd. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | ▪ Mwy o bellter teithio i rai disgyblion |

| 7.2 Adeiladu ysgol gynradd 21ain ganrif newydd i Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.<br>Yn seiliedig ar gost o £11.4m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau da cyfredol a welir yn y ddwy ysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach | |

| 7.2 Adeiladu ysgol gynradd 21ain ganrif newydd i Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.<br>Yn seiliedig ar gost o £11.4m | | |
|---|---|---|
| | fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu'r adeilad ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti'r presennol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch cyllid, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen ac yn arwain at leihad mewn costau refeniw.<br>▪ Arwain at leihad o £88k mewn costau refeniw drwy'r fformiwla cyllido a £30k mewn costau cludiant.<br>▪ O dan y drefn bresennol, rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion allan o'r dalgylch gan nad oes digon o lefydd ysgol. Fel rhan o'r opsiwn hwn, byddai digon o lefydd ysgol yn y dalgylch ond rhagwelir byddai angen 1 cytundeb bws newydd i gludo disgyblion i'r ysgol newydd.<br>▪ Buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. | ▪ Byddai cyfran o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu gan y Cyngor drwy fenthyca digefnogaeth, a disgwylir mai'r gost fyddai £164k y flwyddyn.<br>▪ Gellir cwestiynu goblygiadau ariannol a gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol y Graig. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol newydd. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | ▪ Mwy o bellter teithio i rai disgyblion |

| **7.3 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol Talwrn fel y mae hi**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai'r safonau a welir yn Ysgol Talwrn yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | ▪ Byddai adeilad Ysgol Talwrn yn ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau cyfredol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Byddai'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Ysgol Talwrn yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A . (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | ▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth gol yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Penaeth Ysgol Talwrn yn 70%. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion anabl.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn cwrdd â safonau Ysgol yr 21ain Ganrif er mwyn creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig ymhellach i blant yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau i ddarparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r llefydd gweigion yn Ysgol Talwrn. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid oes angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afal gyda'r ôl-groniad cynnal a chadw<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn y dyfodol oherwydd y costau cynnal a chadw cyfredol uchel fyddai ar ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu. Byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Disgwylir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol ar gost o tua £60k y flwyddyn. |

| **7.3 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol Talwrn fel y mae hi**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Dim tarfu ar ddisgyblion, rhieni a staff.<br>▪ Cadw bodolaeth a hunaniaeth yr ysgol yn Nhalwrn. | |

| **7.4 Ffedereiddio Ysgol y Graig gydag Ysgol Talwrn**<br>Mae ffedereiddio'n disgrifio cytundeb cyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Opsiynau i ddewis strwythur uwch arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn gan gynnwys rheolwyr safle yn yr ysgolion.<br>▪ Ehangu'r cyfleon am weithgareddau i ddisgyblion – ehangu'r dewis ac opsiynau cwricwlaidd i ddisgyblion wrth i ysgolion ddod ynghyd i ddarparu mynediad at gyrsiau a chyfleusterau ei gilydd, gan arwain at welliannau i ansawdd y dysgu ar gyfer staff a disgyblion. | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol, a fyddai angen ei gynllunio'n ofalus.<br>▪ Posibilrwydd uwch o gysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu yn enwedig ar draws cyfnodau gan fod y ddwy ysgol yn dilyn yr un methodoleg dysgu ac addysgu. | ▪ Dim newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol yn Ysgol Talwrn i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgol (Ôl-groniad cynnal a chadw £360k yn 2019).<br>▪ Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion anabl. |

| **7.4 Ffedereiddio Ysgol y Graig gydag Ysgol Talwrn**<br>Mae ffedereiddio'n disgrifio cytundeb cyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion. Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ Mae bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Arbedion o tua £2k y flwyddyn mewn costau addysgu o gael un pennaeth. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Nid yw'n dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd disgwylir i nifer y disgyblion gynyddu, fyddai'n arwain at disgyblion yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o tua £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Y tarfu lleiaf posib ar ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **7.5 Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i wneud gwell defnydd o adnoddau, arbenigeddau, a galluogi i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai angen ffocws yn y clwstwr i wella safonau. | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Wrth i ysgolion gydweithio ar agweddau arweinyddiaeth a rheolaeth, gellir arwain at welliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth |

| **7.5 Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i wneud gwell defnydd o adnoddau, arbenigeddau, a galluogi i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| | | ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd yr adeiladau ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ar draws y ddwy ysgol ac i greu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i sefydlu'r amodau sydd eu hangen i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn Ysgol Talwrn. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â diffygion yn ystâd yr adeiladau ysgol a chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – Mae'n debygol bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd disgwylir i nifer y disgyblion gynyddu, fyddai'n arwain at disgyblion yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o tua £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Mae pob ysgol yn y clwstwr yn aros yn annibynnol. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/cydweithrediad yn araf yn datblygu yng Nghymru ac maent dal yn y cyfnod peilot. |

| 7.6 Cynnal y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a Blwyddyn 1-6 yn Ysgol y Graig<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau ac at fynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau a'r ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau ond mae Ysgol y Graig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig sydd dros ei chapasiti. Byddai'n rhaid rhoi estyniad ar Ysgol Talwrn ar gyfer y tua 90 o ddisgyblion Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn; ei chapasiti yw 49. Byddai hyn yn codi materion mynediad safle ac nid yw'n debygol y byddai digon o ofod ar y safle. Byddai hyn yn golygu bod tua 320 o ddisgyblion yn Ysgol y Graig o flwyddyn 1 i 6. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. |

| 7.6 Cynnal y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a Blwyddyn 1-6 yn Ysgol y Graig<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol | | |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost y disgybl.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw ostyngiad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai costau adeiladau yn cynyddu o tua £39k. Rhagwelir byddai costau cludiant o dan y ddarpariaeth bresennol yn debyg i gostau'r opsiwn hwn. O dan y ddarpariaeth bresennol, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion tu allan i'w dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion rhwng dalgylch Ysgol Y Graig a dalgylch Ysgol Talwrn.<br>▪ Byddai 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth gyda chost o tua £58k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Mae'n debyg na fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol a byddent yn cael enw newydd.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio'n â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Logisteg – anodd i rieni bigo plant fyny a'u gollwng os yn mynychu gwahanol safleoedd.<br>▪ Nid yw'r lôn i Ysgol Talwrn yn addas i gerbydau ychwanegol o ganlyniad i'r newid hwn |

| **7.7 Defnyddio Ysgol Talwrn fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br><br>Yn seiliedig ar dim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fyddai newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i |

| **7.7 Defnyddio Ysgol Talwrn fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br><br>Yn seiliedig ar dim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Byddai'n rhaid rheoli materion diogelu plant ychwanegol oherwydd y byddai gan drydydd partïon fynediad at safle'r ysgol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael a'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | ▪ Nid os angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor.<br>▪ Posibilrwydd o gydbwyso costau'r ysgol gydag incwm o ddefnydd cymunedol. | ▪ Ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid yn y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid oes gan y Cyngor yr arian i gynnal y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – dim arbedion refeniw.<br>▪ Disgwylir i gostau refeniw gynyddu yn y dyfodol gan bydd nifer y disgyblion yn cynyddu fyddai'n arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo tu allan o'r dalgylch oherwydd bod diffyg capasiti. Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o £60k y flwyddyn.<br>▪ Ni fyddai o reidrwydd yn lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. |

| **7.7 Defnyddio Ysgol Talwrn fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br><br>Yn seiliedig ar dim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar y safle.<br>▪ Cyfle i wrthbwyso costau ysgol. | ▪ Byddai angen rheoli materion diogelu gan y byddai mynediad i drydydd partïon i'r safle.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau cymuned addas oherwydd yr agosrwydd at dref Llangefni lle lleolir y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor. |

| **7.8 Cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd unrhyw newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'r ysgol ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Byddai'n rhaid rheoli materion diogelu plant ychwanegol oherwydd y byddai gan drydydd partïon fynediad at safle'r ysgol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig sydd dros ei chapasiti. |

| **7.8 Cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| 5.Cyllidol | ▪ Ni fyddai angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid oes gan y Cyngor arian i wneud y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y pen a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Ni fyddai'n ganiataol yn lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Disgwylir i gostau refeniw gynyddu yn y dyfodol gan bydd nifer y disgyblion yn cynyddu fyddai'n arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo tu allan o'r dalgylch oherwydd bod diffyg capasiti. Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau, megis Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiadurol Pensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar y safle.<br>▪ Cyfle i gydbwyso costau'r ysgol. | ▪ Bydd denu gwasanaethau i gyd-leoli yn her.<br>▪ Byddai angen rheoli materion diogelu plant gan y byddai mynediad i drydydd partïon i'r safle.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau cymuned addas oherwydd yr agosrwydd at dref Llangefni lle lleolir y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor oherwydd maint a natur yr ysgol bresennol. |

| **7.9 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un campws.<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at wella safonau a mynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau dosbarthiadau ac ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gall arwain at welliant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth | |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael a cyflwr ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r ysgolion unigol – ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol ac mae gormod o ddisgyblion yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost fesul disgybl.<br>▪ Yn anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd costau uchel cynnal a chadw ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai costau adeiladau'n cynyddu o tua £39k.<br>▪ Bydd 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth gyda chost o tua £58k y flwyddyn.<br>▪ Rhagwelir byddai costau cludiant o dan y ddarpariaeth bresennol yn debyg i gostau'r opsiwn hwn. O dan y |

| **7.9 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un campws.<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig | | |
|---|---|---|
| | | ddarpariaeth bresennol, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion tu allan i'w dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion rhwng dalgylch Ysgol Y Graig a dalgylch Ysgol Talwrn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | | ▪ Logisteg – hyn yn creu problemau i rieni godi eu plant oddi ar safleoedd gwahanol.<br>▪ Ni fyddai'r ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol a byddent yn cael enw newydd. |

| **7.10 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar fenthyca £361k dros 20 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. Ni fydd unrhyw newid yn y nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau'r ysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol Y Graig am y blynyddoedd nesaf (3% yn ormod yn erbyn y capasiti presennol yn Ionawr 2019 ac yn cynyddu). |

| **7.10 Ymgymryd â gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar fenthyca £361k dros 20 mlynedd | | |
|---|---|---|
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai gwaith ôl-groniad cynnal a chadw'n cael ei ddileu. | ▪ Os ariennir yr ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost ad-dalu flynyddol fyddai tua £28k.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf arwyddocaol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion gynyddu, byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael cludo tu allan i'w dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost cludiant ychwanegol o £60k y flwyddyn.<br>▪ Dim arbedion refeniw. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau fel Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a Hyfforddiant Cyfrifiaduron i Bensiynwyr. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Ychydig o darfu ar ddisgyblion, rhieni a staff. | |

Felly nid yw'r opsiynau amgen a ystyrir uchod ac eithrio 7.1 yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gyrwyr allweddol (a drafodir yn Adran 4) ar gyfer Ysgol Talwrn (Adran 6) ac o ganlyniad y cynnig i:

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn"** yw'r cynnig a gyflwynir gan y Cyngor.

I wireddu'r uchod ac ystyried yr asesiadau effaith a gwblhawyd – byddai'r Awdurdod yn:

- Darparu cludiant (bws ac/neu dacsi(s)) o Ysgol Talwrn i'r Ysgol y Graig ehangedig newydd ar gyfer disgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgolion y Cyngor.

**NODER –** Mae'r cynnig yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Talwrn. **<u>Nid</u>** yw Ysgol Talwrn ar y rhestr o ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**NODER** – Er bod y cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu capasiti Ysgol y Graig, mae angen ychydig o waith gwella ar yr ysgol honno.

## 8. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL Y GRAIG

Mae'r adran hon yn adnabod yr opsiynau rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol y Graig.

| **8.1 Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd y ddwy ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £5.9m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau da cyfredol a welir yn y ddwy ysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ychwannegol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti'r presennol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch cyllid, ac yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen.<br>▪ Arwain at leihad o £31k mewn costau refeniw drwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion a £30k pellach mewn cost cludiant. O dan y ddarpariaeth bresennol, rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion tu allan i'w | ▪ Byddai cyfran o'r gost gyfalaf angen ei hariannu gan y Cyngor drwy fenthyca digefnogaeth, a fyddai'n costio tua £94k y flwyddyn. |

| 8.1 **Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd y ddwy ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £5.9m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. Er hynny, rhagwelir byddai angen 1 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion Talwrn i Ysgol Y Graig. | |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol ehangedig . | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion, o'i gymharu â'r sefyllfa gyfredol. | ▪ Mwy o bellter teithio i rai disgyblion o du allan i ddalgylchoedd y ddwy ysgol |

| **8.2 Adeiladu ysgol 21ain ganrif newydd ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, a chau'r ddwy ysgol.**<br>Yn seiliedig ar gost o £11.4m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau da cyfredol a welir yn y ddwy ysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu arbenigedd pwnc-benodol ar draws y cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a'r disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â gweledigaeth y Gweinidog Addysg, "Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" fel y nodir yn ei rhagair gweinidogaethol yn Addysg yng Nghymru Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli ymhellach a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad yr ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). | |

| 8.2 Adeiladu ysgol 21ain ganrif newydd ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, a chau'r ddwy ysgol.<br>Yn seiliedig ar gost o £11.4m | | |
|---|---|---|
| | ▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion o'i chymharu â'r sefyllfa gyfredol. | |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni gofynion capasiti'r presennol a'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai costau ôl-groniad cynnal a chadw'n cael eu dileu.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r anghyfartaledd cyllid, yn dileu'r amrywiad yn y gost y pen ac yn arwain at leihad mewn costau refeniw.<br>▪ Arwain at leihad o £88k mewn costau refeniw drwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion a £30k pellach mewn cost cludiant. O dan y ddarpariaeth bresennol, rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion tu allan i'w dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai digon o lefydd ysgol o fewn y dalgylch ond rhagwelir byddai angen 1 cytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i'r ysgol newydd.<br>▪ Buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol mewn amser o gyfyngiad cyllidol. | ▪ Byddai cyfran o'r gost gyfalaf angen ei hariannu gan y Cyngor drwy fenthyca digefnogaeth, a fyddai'n costio tua £164k y flwyddyn.<br>▪ Byddai goblygiadau ariannol a efallai gellir cwestiynau gwerth am arian gan mai dim ond 10 oed yw Ysgol Y Graig. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r gymuned yn parhau i gael budd o ddefnyddio adeilad yr ysgol newydd. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Gwell parcio a diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chodi disgyblion, o'i gymharu â'r sefyllfa gyfredol. | ▪ Mwy o bellter teithio i rai disgyblion o du allan i ddalgylchoedd y ddwy ysgol |

| **8.3 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol y Graig fel y mae hi**<br><br>Yn seiliedig ar dim cost cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai'r safonau a welir yn Ysgol Y Graig yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Byddai'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Ysgol Y Graig yn cael eu cynnal yn y tymor byr sef Gwyrdd A . (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai'r ysgol yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Deddf | |

| 8.3 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol y Graig fel y mae hi<br><br>Yn seiliedig ar dim cost cyfalaf | | |
|---|---|---|
| | Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. | |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ardal. |
| 5.Cyllidol | ▪ Ni fyddai angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid eir i'r afael a'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Nid yw'n hyfyw o ran cyllid oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai'n derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau cost refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu - byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Disgwylir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol ar gost o £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | | ▪ Materion Iechyd a Diogelwch – traffig a pharcio (cyn ac ar ôl ysgol), byddai problemau'n parhau. |

| 8.4 Ffedereiddio Ysgol y Graig ag Ysgol Talwrn<br>Mae ffedereiddio'n disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Opsiynau i ddewis uwch strwythur arweinyddol i weddu â strwythur y ffederasiwn, gan gynnwys rheolwyr safle ysgolion.<br>▪ Gwella cyfleoedd am weithgareddau disgyblion – ehangu dewis ac opsiynau cwricwlaidd i ddisgyblion gan fod ysgolion yn dod ynghyd i ddarparu mynediad i gyrsiau a chyfleusterau eu gilydd, gan arwain at welliannau i ansawdd y dysgu i staff a disgyblion. | ▪ Ni fydd unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff, adnoddau ac arfer dda ar draws | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr |

| **8.4 Ffedereiddio Ysgol y Graig ag Ysgol Talwrn**<br>Mae ffedereiddio'n disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | Cyfnodau Allweddol, a fyddai angen ei gynllunio'n ofalus.<br>▪ Posibilrwydd uwch o gysondeb ym methodoleg dysgu ac addysgu yn enwedig ar draws cyfnodau gan fod y ddwy ysgol yn dilyn yr un fethodoleg dysgu ac addysgu. | ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd dysgu allanol yn Ysgol Talwrn i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad chynnal a chadw'r ysgolion (£408.5k o ôl-groniad cynnal a chadw yn 2019).<br>▪ Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. Nid yw'n mynd i'r afael â hyn. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgolion. Mae Ysgol y Graig dros ei chapasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Arbedion mewn costau teithio o tua £2k y flwyddyn | ▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol ar amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost y disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian yl disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Nid yw'n dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion gynyddu a gall hyn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun. | |

| **8.4 Ffedereiddio Ysgol y Graig ag Ysgol Talwrn**<br>Mae ffedereiddio'n disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol dan un corff llywodraethu.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Y tarfu lleiaf posib ar ddisgyblion, rhieni a staff. | |

| **8.5 Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol y Graig ag Ysgol Talwrn**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i wneud gwell defnydd o adnoddau, arbenigeddau, a caniatáu i ysgolion archwilio i ffyrdd i wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Byddai angen ffocws yn y clwstwr i yrru safonau. | ▪ Ni fyddai fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran yr addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Wrth i ysgolion cydweithio ar agweddau arweinyddiaeth a rheolaeth, gellir arwain at welliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ar draws y ddwy ysgol a chreu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn Ysgol Talwrn yn y tymor canolig i'r tymor hir. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â diffygion yn ystâd yr adeiladau ysgol a chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid i'r dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian y disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion |

| **8.5 Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol y Graig ag Ysgol Talwrn**<br>h.y. Dod ag ysgolion ynghyd i wneud gwell defnydd o adnoddau, arbenigeddau, a caniatáu i ysgolion archwilio i ffyrdd i wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | gynyddu a gall hyn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o £60k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Bob ysgol yn y clwstwr yn parhau i fod yn annibynnol. | ▪ Mae cytundebau clwstwr/ cydweithrediad yn araf i ddatblygu yng Nghymru ac maent dal yn y cyfnod peilot. |

| **8.6 Cynnal y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a blynyddoedd 1-6 yn Ysgol y Graig i ddisgyblion y ddwy ysgol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau a mynd i'r afael â'r amrywiad ym meintiau'r dosbarthiadau ac ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn yr ysgolion cynradd, byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau. Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddol. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ar draws y ddwy ysgol a chreu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn Ysgol Talwrn yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw'r ysgolion unigol – ni |

| 8.6 Cynnal y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a blynyddoedd 1-6 yn Ysgol y Graig i ddisgyblion y ddwy ysgol.<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | fyddai'n hyfyw o ran cyllid yn y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig sydd dros ei chapasiti. Byddai angen ehangu Ysgol Talwrn ar gyfer y tua 90 o ddisgyblion dosbarth Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn; ei chapasiti yw 49. Byddai'n codi materion mynediad safle ac nid yw'n debygol byddai digon o le ar y safle. Byddai'n golygu bod tua 320 o ddisgyblion blwyddyn 1-6 yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | | ▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â chostau ôl-groniad cynnal a chadw.<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost fesul disgybl.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai costau adeiladau'n cynyddu o tua £39k.<br>▪ Rhagwelir bydd y costau cludiant yn debyg o dan y ddarpariaeth bresennol ac o dan yr opsiwn hwn. O dan y drefn bresennol, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion rhwng dalgylchoedd Ysgol Y Graig ag Ysgol Talwrn.<br>▪ Byddai 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth, a fyddai'n costio tua £58k y flwyddyn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Byddai bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Logisteg – creu problemau i rieni godi eu plant os ydynt yn mynychu ysgolion gwahanol.<br>▪ Mae'n debyg na fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol ac y byddent yn cael enw newydd. |

| **8.7 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o arwain at well safonau a mynd i'r afael â'r amrywiad ym maint dosbarthiadau ac ystodau oedran mewn dosbarthiadau unigol.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigeddau staff ac arfer dda ar draws Cyfnodau Allweddol ar safleoedd gwahanol. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gall arwain at welliant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Ni fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib datblygu uwch dîm rheoli a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. | ▪ |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ar draws y ddwy ysgol a chreu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn Ysgol Talwrn yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Dim ond yn rhannol cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mae Ysgol Talwrn o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw'r ysgolion unigol – ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid yn y dyfodol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu digon o leoedd yn yr ysgol, ac mae Ysgol y Graig dros ei gapasiti. |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai'n lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw o ran cyllid ar gyfer y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debyg y byddai unrhyw leihad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau rhedeg yn cynyddu o tua £39k.<br>▪ Byddai 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digefnogaeth, a fyddai'n costio tua £58k y flwyddyn.<br>▪ Rhagwelir bydd y costau cludiant yn debyg o dan y ddarpariaeth bresennol ac o dan yr opsiwn hwn. O dan y drefn bresennol, byddai angen 2 gytundeb |

| **8.7 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**<br>Ysgol aml-safle yw ysgol sy'n gweithredu ar draws mwy nag un campws.<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | bws ychwanegol yn y dyfodol i gludo disgyblion tu allan i'r dalgylch gan nad oes digon o le yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo plant rhwng dalgylchoedd Ysgol Y Graig ag Ysgol Talwrn. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Mae bob ysgol yn aros yn annibynnol. | ▪ Logisteg – creu problemau i rieni godi eu plant os ydynt yn mynychu safleoedd gwahanol. |

| **8.8 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol y Graig**<br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £48,500 dros 20 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai newid yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth a byddai'r Pennaeth yn parhau heb ymrwymiad addysgu. |
| 3.Adeilad Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ychwannegol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i sefydlu'r amodau i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG). |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Ni fyddai'n cynorthwyo'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol y Graig am y blynyddoedd i ddod (yn Ionawr 2019, roedd 3% dros ei chapasiti ac yn cynyddu). |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai gwaith ôl-groniad cynnal a chadw'n cael ei ddileu. | ▪ Os ariennir yr ôl-groniad cynnal a chadw drwy fenthyca digefnogaeth, y gost ad-dalu flynyddol fyddai tua £4k.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion gynyddu a gall hyn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. |

| 8.8 Cynnal gwaith ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol y Graig<br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £48,500 dros 20 mlynedd | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | Rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol ar gost o £60k y flwyddyn. Cost cludiant ychwanegol o £60k y flwyddyn.<br>▪ Dim arbedion refeniw. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r ddarpariaeth bresennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Ychydig o aflonyddwch i'r disgyblion, rhieni a'r staff. | |

| 8.9 Ymestyn Ysgol y Graig drwy adeiladu dosbarth ar bob pen o'r ysgol<br>Yn seiliedig ar gost o £2.5m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Safonau | | ▪ Ni fyddai o reidrwydd yn gwella perfformiad addysgol. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth. |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i wella'r adeilad ysgol i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif. | ▪ Gofod cyfyngedig sydd ar gael i ehangu adeiladau Ysgol y Graig.<br>▪ Ystyriaethau diogelwch – mwy o draffig i'r safle presennol. |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gormodedd o ddisgyblion sydd yn Ysgol y Graig i'r dyfodol. | |
| 5.Cyllidol | • Osgoi costau cludiant i'r dyfodol o tua £60k. O dan y drefn bresennol, rhagwelir byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti yn y dalgylch. Os byddai Ysgol y Graig yn cael ei hymestyn, ni fyddai angen cytundebau bws ychwanegol. | ▪ Ni fyddai'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal – byddai costau rhedeg yn cynyddu o £31k.<br>▪ Byddai angen buddsoddiad cyfalaf arwyddocaol gan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor yr arian i fynd i'r afael â'r gwaith ôl-groniad cynnal a chadw oherwydd toriadau cyllideb a rhagolygon o doriadau pellach yn y dyfodol. Byddai unrhyw Achos Busnes ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei graffu'n fanwl gan LlC.<br>▪ Ansicrwydd a fyddai arian ar gael gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif gan mai dim ond yn rhannol fyddai ehangu'r ysgol yn cwrdd â safonau ysgolion 21ain ganrif oherwydd gofod cyfyngedig.<br>▪ Os byddai'r Cyngor yn ariannu'r gost gyfalaf drwy fenthyca digefnogaeth, byddai'n costio tua £125k y flwyddyn.<br>▪ Mae'n cynyddu'r gwahaniaeth yn yr arian fesul disgybl ymhellach. |
| 6.Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |

| **8.9 Ymestyn Ysgol y Graig drwy adeiladu dosbarth ar bob pen o'r ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o £2.5m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol y gwna'r gymuned o'r ysgol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Rhywfaint o darfu ar ddisgyblion, rhieni a staff. | |

**Crynodeb**

Mae'r dewis amgen rhesymol yn 8.1 uchod yn ymdrin yn llawn â'r gyrwyr allweddol a wynebir gan Ysgol y Graig ac o ganlyniad y cynnig i:

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn"** yw'r cynnig a gyflwynir gan y Cyngor.

## 9. GWYBODAETH GYLLIDOL

### 9.1 Costau Cludiant

O dan y cynnig newydd, amcangyfrifir y bydd costau cludiant sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cynyddu oddeutu £30k y flwyddyn o'i gymharu â chostau cludo cyfredol. Rhagwelir y byddai angen 1 contract bws ychwanegol i gludo disgyblion o Talwrn i Ysgol Y Graig sydd newydd ei hehangu, gan fod y ffordd rhwng Talwrn ac Ysgol Y Graig yn cael ei dosbarthu fel llwybr peryglus.

O dan y trefniant presennol, rhagwelir y bydd costau cludo yn cynyddu £60k yn y dyfodol, o'i gymharu â chostau cludiant cyfredol, oherwydd cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod ysgolion yr ardal eisoes dros eu capasiti, felly byddai'n rhaid cludo unrhyw ddisgyblion ychwanegol i ysgolion sydd â lleoedd dros ben (Talwrn, Llanbedrgoch, Pentraeth, Henblas a Llanfairpwll). Rhagwelir y byddai angen 2 gontract bws ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar gost o oddeutu £60k y flwyddyn.

Felly, bydd osgoi costau o £30k yn y dyfodol o dan y pennawd trafnidiaeth os gwireddir y cynnig.

### 9.2 Brasamcan o Gost Cyfalaf y Prosiect (Bloc newydd yn Ysgol y Graig)

Mae'r Cyngor wedi pasio penderfyniad bod holl dderbynion cyfalaf sy'n codi pan gaeir ysgolion yn cael ei glustnodi ar gyfer aildrefnu ysgolion. Drwy ddarparu Ysgol y Graig wedi ei hehangu, ni fydd angen adeilad Ysgol Talwrn.

Bydd gwerthu Ysgol Talwrn yn rhyddhau derbyniad cyfalaf tuag at y gost o adeiladu bloc newydd ar gyfer yr ysgol. Bydd unrhyw benderfyniad ar ddyfodol Ysgol Talwrn yn cael ei wneud yn dilyn trafodaethau â'r gymuned.

Ar hyn o bryd, y gost gyfalaf a ragwelir ar gyfer y cynnig yw £5.923m; fe ariennir hyn yn rhannol (65%) gan raglen Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif. Efallai y bydd y gost gyfalaf yn cynyddu gyda chwyddiant.

Bydd unrhyw arbedion refeniw yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr Awdurdod.
Cost cyfalaf arfaethedig y cynnig ydi £5,923,323.

Disgwylir i ariannu'r £2.073m o ofyniad arian y Cyngor drwy:
- £150k mewn derbynion cyfalaf o werthiant safleoedd sydd dros ben;
- £1.923m o fenthyciad digefnogaeth nad yw'n denu grantiau gan y Llywodraeth.

Dengys y gost gyffredinol a ffynonellau cyllid isod;

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y Gost | £5,923,323 |
| Grant Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif | £3,850,160 |
| Cyfraniad yr Awdurdod i'r prosiect | £2,073,163 |

Amcangyfrifir mai'r arbediad refeniw (ac eithrio costau ariannu sy'n gysylltiedig â'r adeilad) o'r prosiect hwn fydd:
- tua £31k y flwyddyn yn seiliedig ar y fformiwla cyllido ysgolion; ac
- £30k o arbediad pellach ar gostau cludiant (fel arall byddai'n rhaid cludo disgyblion i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti) a fydd yn arwain at arbediad refeniw net parhaus o £61k y flwyddyn.

Y gost fenthyca i ariannu'r £1.923m o fenthyciad digefnogaeth fydd tua £94k y flwyddyn. Bydd y £61k o arbediad refeniw a geir o ganlyniad yn cael ei glustnodi tuag at ad-dalu'r benthyciad digefnogaeth. Yn ogystal, disgwylir cyfraniad gan ddatblygwr tai rhwng 2019/20 a 2026/27. Bydd yr Awdurdod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ariannu unrhyw ddiffyg fyddai'n weddill.

Bydd angen ariannu rhai costau trosiannol tymor byr gan gynnwys:
- costau diswyddo posib;
- amddiffyniad tâl i staff o bosib;
- costau ar gyfer yr adeilad sydd wedi cau tan y gwaredir ohono.

Mae'n anodd amcangyfrif y costau trosiannol gan eu bod yn dibynnu'n fawr ar y staff sy'n ymwneud. Ar sail y sefyllfa ddrytaf, amcangyfrifir mai £20k fyddai'r gost bob blwyddyn dros gyfnod o 3 a 5 mlynedd.

## 10. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig (Adran 7 ac 8), y cynnig mae'r Awdurdod wedi'i ddewis i ymgynghori arno yw:

**Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r datrysiad gorau posib sy'n mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer ardal Llangefni (Adran 4) a'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig (Adran 6).

Mae'r cynnig hwn yn cadw at amcanion y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 sef:
- Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad.
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Anelu i leihau'r amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cynllunio olyniaeth
- Ehangu'r defnydd o adeiladau ysgolion gan y gymuned
- Cyfleusterau gofal plant a chymunedol i rieni a thrigolion hŷn
- Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Darpariaeth feithrin
- Darpariaeth ôl-16
- Sicrhau bod adeiladau ysgolion addas i bwrpas.

Ariennir y cynnig gan y Cyngor (35%) a Llywodraeth Cymru (65%) drwy raglen Band 'B' ysgolion 21ain ganrif. Drwy fenthyciad 50 mlynedd y daw cyfraniad y Cyngor, wedi'i ariannu'r rhannol drwy dderbynion cyfalaf drwy werthu safle presennol Ysgol Talwrn.

Yn ogystal â hyn, ac i wireddu'r cynnig, bydd y Cyngor yn ymateb i faterion penodol sydd wedi codi drwy'r asesiadau effaith yr ymgymerir â hwynt drwy:
- darparu cludiant o Talwrn i safle Ysgol y Graig ehangedig ar gyfer disgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgolion Môn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

*GWASANAETH DYSGU / LEARNING SERVICE*

**Cynnig i:**

**“Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn”**

# ASESIAD EFFAITH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 12 Gorffennaf 2019 |
| **Y swyddog sy’n gyfrifol am yr asesiad** | Emrys Bebb – Rheolwr Rhaglen |
| **Dyddiad adolygu** | Mae hon yn ddogfen weithio ac fe’i hadolygir yn rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy’n codi o ganlyniad i ymgynghoriad yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn diwygiedig, a gyhoeddir fel rhan o’r Adroddiad Ymgynghori maes o law. |

**CYNNWYS**

1. CYFLWYNIAD .... 3
2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB .... 4
3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG .... 14
4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL .... 25
5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 .... 35
6. CASGLIAD .... 38
Atodiad 2 – Hawliau Dynol .... 39
Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .... 39

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth gynnig unrhyw newidiadau i drefniadaeth eu hysgolion, mae gofyn i Awdurdodau Lleol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru, ymgymryd ag asesiadau o'r effaith y cânt ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned.

Y cynnig dan sylw yw i:

**Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur er mwyn asesu defnydd cymunedol yn yr ysgolion ac i gael manylion am unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn y gymuned leol neu yn y gymuned ehangach.

Seiliwyd y dystiolaeth a gasglwyd er pwrpas yr asesiadau ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad Effaith Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad Effaith Cymunedol
Adran 5 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Adran 6 – Casgliad

Mae hon yn ddogfen waith ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu at yr asesiad effaith.

| **Hanes adolygu**: | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 12 Gorffennaf 2019 | Drafft cyntaf |
| 19 Awst 2019 | Ail ddrafft |
| 29 Awst 2019 | Trydydd ddrafft |
| 13 Tachwedd 2019 | Diweddaru data |
| 18 Rhagfyr 2019 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |

## 2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ymgymerwyd â'r asesiad effaith cydraddoldeb hwn i gwrdd â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Rho Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau i ystyried:

- Dileu anffafriaeth, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd yr amddiffynnir a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd yr amddiffynnir a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n amddiffyn y naw nodwedd ganlynol (yr adnabyddir fel 'grwpiau yr amddiffynnir'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 2.2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau uchod i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith polisïau ac arferion ar grwpiau yr amddiffynnir gan y Ddeddf. Golyga hyn bod rhaid i'r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau yr amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' (*h.y. rhoi pwysau priodol*) i ganlyniadau'r fath asesiadau.

Bydd cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r achosion busnes moderneiddio ysgolion yn ystod proses datblygu'r prosiect ac os caiff ei wireddu, bydd y gwir effaith yn cael ei fonitro. Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i bawb.

**2.3 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

| **2.3.1 Cefndir** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig a asesir yw i **"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn."** |
| **Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Mae'r Awdurdod eisoes wedi ymgynghori ar y cynnig ar ffurf wahanol. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Newid a gwella darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni isod:<br>▪ Sicrhau fod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws bob ysgol i sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd eu potensial.<br>▪ Sicrhau fod gan ysgolion leoedd digonol ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol.<br>▪ Sicrhau fod yr amrywiadau yn y gwariant fesul disgybl yn cael eu gwneud yn unol ac yn fwy cyson ar draws yr ysgolion.<br>▪ Sicrhau bod ansawdd ystâd yr ysgolion ar sylfaen cadarn ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Sicrhau bod strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth ein hysgolion yn darparu sail gadarn ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth strategol ein hysgolion i'r dyfodol. |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Carol Sorahan, Rheolwr Rhaglen |
| **Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen<br>Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen |

| 2.3.1 Cefndir | |
|---|---|
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?** | Oes – mae'r cynnig yn rhan o strategaeth moderneiddio ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, asesir bob cynnig ar ei rinweddau ei hun. |
| **Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Ar gyfer y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig, h.y. Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgol, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ddwy ysgol. |

| 2.3.2 Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydyw - fe'i hasesir ar wahân yn yr adran Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). | |
| **Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Os gwireddir y cynnig, bydd darn o'r ysgol gynradd ehangedig ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer gwersi Cymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn penderfynu a fydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd. | |
| **A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – asesir hwn ar wahân yn adran Asesiad Effaith Iaith y ddogfen hon (Adran 3). | |
| **A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hybu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol arfaethedig ehangedig ac yn yr ardal dan sylw h.y. Llangefni a Thalwrn. | |
| **Oes yna unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (**Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2). | Nid oes materion Hawliau Dynol wedi eu hadnabod. | |
| **Ydi'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** | Cymru lewyrchus | Ydyw |
| | Cymru gydnerth | Ydyw |
| | Cymru iachach | Ydyw |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydyw |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydyw |

| | | |
|---|---|---|
| (Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydyw |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydyw |
| | Asesir hwn hefyd ar wahân yn adran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) y ddogfen hon (Adran 5). | |
| **Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gyda rhanddeiliaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ar dri achlysur gwahanol sef Hydref – Tachwedd 2016; Ionawr – Mawrth 2017 a Mai – Mehefin 2018.<br>Cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriadau hyn mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016, 17 Gorffennaf 2017 a 16 Gorffennaf 2018.<br>Paratôdd yr Awdurdod asesiadau effaith cydraddoldeb, cymunedol ac iaith ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol. | |
| **Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | Do – mae'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgolion wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhywedd, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a phrydau ysgol am ddim.<br>Gyrrwyd holiaduron i Benaethiaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chynhwyswyd yr hyn a gyflenwyd ganddynt yn yr asesiad hwn. | |
| **Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod hyd yma. | |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut y cydymffurfia'r Awdurdod â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phwy sydd wedi eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu anffafriaeth ac aflonyddu** | √ | |
| **Gwella cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin perthnasau da** | √ | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

### 2.3.3 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae'r Awdurdod wedi ystyried effeithiau negyddol, niwtral a chadarnhaol y cynnig ac wedi adnabod beth y gellir ei wneud i leihau neu i wella'r effaith.

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg lawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed. Bydd yr ysgol ehangedig yn derbyn disgyblion yn 3 oed yn rhan amser.</td><td>Bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol gynradd ehangedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno a fydd yn cael eu trefnu ar y cyd. Bydd yn darparu cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Os gwireddir y cynnig:<ul><li>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gwbl hygyrch i bob disgybl.</li><li>Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol. Fodd bynnag, mewn ysgol fwy, bydd mwy o staff yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n bosib y bydd cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod fwy o arbenigeddau i allu ymdrin â sbectrwm fwy eang o ADY.</li></ul></td><td>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol i anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Asesir anghenion unigol wrth drosglwyddo i unrhyw ysgol.<br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol i anghenion aelodau o staff.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw cyfredol a'r rhaniad os gwireddir y cynnig.<table><tr><th>Rhyw</th><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th><th>Ysgol gynradd ehangedig</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>51%</td><td>47%</td><td>51%</td></tr><tr><td>Merched</td><td>49%</td><td>53%</td><td>49%</td></tr></table>Data CYBLD Ionawr 2019</td><td>Caiff perfformiad bob disgybl ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a'r mwy galluog a thalentog. Caiff perfformiad addysgol bechgyn a merched ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng bechgyn a merched a'r grwpiau amrywiol cysylltiedig.</td></tr>
</table>

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Newid Rhyw** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd. | Os oes problemau yn codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail priodas/partneriaeth sifil ymysg staff yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Mae gan staff benywaidd sy'n dod yn feichiog hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan staff gwrywaidd hawl i gyfnod tadolaeth yn unol â'r Polisi Cyfnod Tadolaeth. Nid oes tystiolaeth bod unrhyw wahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd ymysg staff yr ysgolion. |
| **Hil** | Dim effaith | Data CYBLD Ionawr 2019<br>**Ysgol Y Graig**: Gwyn Prydeinig 93%<br>**Ysgol Talwrn**: Gwyn Prydeinig 70% | Os byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os byddai aelodau o staff o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr ysgol arfaethedig ehangedig, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. |
| **Crefydd neu Gred** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Gall y cynnig ddarparu'r cyfle i wella dealltwriaeth disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd disgyblion wrth i ddisgyblion gymysgu â disgyblion eraill o gefndiroedd mwy amrywiol.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chrefydd neu gred eu plentyn â'r ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Dewis rhieniol yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol eu plentyn â'r ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd ymysg staff na disgyblion yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>Ystyrir ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod. | Negyddol | Ysgol fach yw Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad thematig "Ysgolion Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion llai i gydweddu'r gwaith gydag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr o ran oedran a chamau datblygiad." Mae hyn yn berthnasol i ysgolion bychain. Mae ystwythder o ran staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy ym Môn.<br><br>Os gwireddir y cynnig, ac os caeir Ysgol Talwrn, efallai y collir ei chyfraniad tuag at y gymuned, yr iaith Gymraeg a'r ffordd o fyw. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at y gymuned, defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw.<br><br>Mewn ysgol gynradd fwy fel yr un a gynhigir, mae mwy o staff yn debygol o arbenigo mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.<br><br>Wrth ystyried ei opsiynau moderneiddio ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac anghenion hirdymor ein cymunedau drwy gydweithrediad. Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i weithio â chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi pe byddai'r ysgol yn cau. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br>**Y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim** | Cadarnhaol | Byddai'n darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion y ddwy ysgol i fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig. | Yn yr ysgol arfaethedig ehangedig, byddai'r Awdurdod yn darparu system ddi-arian parod ar gyfer prydau ysgol am ddim, a fyddai'n atal unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Ffigyrau Prydau Ysgol am Ddim CYBLD 2019<br>**Y Graig**: 91 disgybl neu 27%<br>**Talwrn**: 8 disgybl neu 18%<br>Ar hyn o bryd, mae 16.4% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Môn â hawl i brydau ysgol am ddim. | Yn ôl niferoedd presennol, tua 26% fyddai'r nifer o blant â hawl i brydau ysgol am ddim os byddai'r cynnig yn cael ei wireddu.<br>Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (PYD) yn y ddwy ysgol yn rhagorol, a disgwylir i hyn barhau yn yr ysgol ehangedig. |

| Effaith gyfunol ar gydraddoldeb | **+2 Cadarnhaol** |
|---|---|

**Casgliad – Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.**

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg ar wahân yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (Adran 3).

| 2.3.4 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **Nodwch sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol yr amlygir yn 2.3.3** | Y cynnig yw "**Ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn".** Gellid lliniaru'r effaith negyddol posib o gau Ysgol Talwrn drwy ymgymryd â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Ysgol Talwrn ar hyn o bryd mewn adeilad arall yn y gymuned, megis Neuadd y Dref neu Gapel Talwrn. |
| **Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau negyddol sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nac eu lliniaru?** | Nid oes effeithiau negyddol o'r asesiad hwn na ellir eu lliniaru. |
| **Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 3)<br><br>Asesir sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant ymhellach ymlaen yn y ddogfen (Adran 5). | **Cymru lewyrchus** - pe gwireddid y cynnig, byddai'n arwain at leihad mewn defnydd o ynni a lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid o'r adeilad, fyddai'n fwy effeithlon o ran defnydd ynni. Bydd yr addysg a dderbynnir gan y disgyblion yn cynorthwyo i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ar gyfer y dyfodol.<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** – bydd y prosiect yn sicrhau bod yr ysgol arfaethedig ehangedig yn ffit i bwrpas a bydd yn sicrhau bod capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu.<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd wedi'i lleoli o amgylch Talwrn a dalgylch Ysgol y Graig.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr ysgol ehangedig yn cael ei hadeiladu i safonau BREAAM ac yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Defnyddir hwn a rhannau penodol o'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw a thyfu mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Gweler yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn Adran 3. Bydd yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig yn ysgol gyfrwng Cymraeg a bydd y cynnig yn o leiaf cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig Ardal Gemau Amlbwrpas (MUGA) a fydd yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. |

| | |
|---|---|
| **A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na |
| **A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd papur cynnig yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith i roi awdurdod i swyddogion i symud ymlaen ag ymgynghoriad statudol. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol yna'n cael ei baratoi a bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig neu beidio. |
| **Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes – bydd y paramedrau canlynol yn parhau i gael eu monitro:<br>Oedran disgyblion; cydbwysedd rhyw'r disgyblion; data hil/ethnigrwydd/ cenedligrwydd; yr iaith a siaredir gan ddisgyblion; canran o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br>Rhoddir ystyriaeth hefyd i fonitro'r data canlynol:<br>canran o ddisgyblion sydd ar Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br>canran o ddisgyblion sydd wedi nodi anawsterau corfforol<br>canran o staff sydd wedi datgan anabledd |

## 3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Mae'r un disgwyliad yn wir o ran y Gymraeg ym mhob ysgol, sy'n darparu cyfle i bob disgybl yn y Sir i ennill sgiliau priodol i fod yn hyderus yn ddwyieithog. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw raglen newydd a gyflwynir - megis prosiectau'n deillio o'r rhaglen Ysgolion 21ain ganrif - yn amodol ar ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o ganolfannau'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Polisi Iaith Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn destun i'r nod a'r amcanion canlynol:

### 3.1 Nod:

I bob disgybl sy'n mynd drwy system addysg Môn fod yn ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu'n gyfartal yn y ddwy iaith ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

### 3.2 Amcan Cyffredinol:

1. Datblygu capasiti bob disgybl a myfyriwr yn y Sir i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
2. Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith ymysg y gweithlu addysg a phlant ifanc sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr awdurdod ac fel cyfrwng dysgu.
3. Bod holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiaeth, yn eu bywydau cymdeithasol ac yn eu trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

### 3.3 Amcanion Penodol:

- **Blynyddoedd cynnar** - Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth bwrpasol ac effeithlon gan gynnwys trochi i bob disgybl beth bynnag eu cefndir ieithyddol i sicrhau sylfaen cadarn yn yr iaith i'w galluogi i gyflawni'r nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted a bo modd.

- **Cyfnod sylfaen -** Adeiladu ar y sylfaeni a osodir yn y blynyddoedd cynnar drwy ddatblygu'r gafael sydd gan y disgyblion ar yr iaith, a dechrau ar y broses o ddatblygu eu sgiliau Saesneg cyn diwedd y cyfnod.

- **Cyfnod Allweddol 2 -** Parhau i ddatblygu medrau Cymraeg a Saesneg y plant gan roi sylw i ddatblygu eu medrau iaith yn y ddwy iaith drwy sicrhau lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y cyfnod gyda chynllunio pwrpasol.

  I ddisgyblion sy'n ddysgwyr Cymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosib drwy ganolfannau iaith cynradd.

  **Addysg arbennig:** O ran disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys, mae gan Bennaeth yr hawl i ystyried bob achos yn unigol drwy ymgynghori â'r gwasanaeth addysg, gan sicrhau fod gan ddisgyblion y medrau ieithyddol angenrheidiol i ymdopi fel oedolion yn eu cymunedau.

**3.4 Defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion**

Cymraeg yw categori iaith Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Categori iaith yr ysgol arfaethedig ehangedig fydd Cymraeg.

Asesir effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg isod (3.5).

**3.5 Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw "**Ehangu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"** |
| **Pwy sy'n cynnal yr asesiad yma?** | Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | Mae hon yn ddogfen waith a fe'i hadolygir yn rheolaidd. |

| **3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydyw, effaith gadarnhaol- gweler isod.<br><br>Bydd – bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebiadau yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob arwydd yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni'n cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd unrhyw swyddi dysgu newydd yn cael eu creu yn ôl y strwythur staffio a ddatblygir gan y corff llywodraethu cysgodol.<br>Bydd – bydd unrhyw staff newydd a benodir yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddent yn parhau i roi'r polisi ar waith. |

| 3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd – bydd trefniadau â thrydydd partïon yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'r canran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref.<br>Gyda data a gesglir gan y Gwasanaeth Addysg megis y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis y canran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr. |

| 3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd Ysgol Y Graig estynedig yn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd y gwasanaeth cyfan ar gael yn Gymraeg - fodd bynnag, bydd disgyblion yn cael dysgu rhai pynciau trwy gyfrwng y Saesneg. |
| Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u ystyried mewn i'r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na- bydd Ysgol Y Graig estynedig yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod.<br>Ydyw – anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg yw un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y cynnig hwn.<br>Ydyw – darperir yr un safon o wasanaeth i bob disgybl.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oediad yn y gwasanaeth. |
| A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? | Bydd –gweler isod.<br><br>Ydyw – bydd arwyddion yn yr adeilad ysgol arfaethedig ac ar dir yr ysgol yn cydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio deunydd iaith Gymraeg. |

| 3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg, er enghraifft busnesau? | Ydyw – bydd gwireddu'r polisi yn sicrhau y gwelir arwyddion dwyieithog gan lawer yn yr ardal. |
| A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg?<br><br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd- gweler isod.<br>Bydd – bydd disgyblion yn derbyn addysg mewn Cymraeg a Saesneg. Bydd gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn ddwyieithog e.e. darpariaeth cludiant a gofal plant.<br>Byddant – bydd plant yn derbyn addysg gan staff dwyieithog. |

| 3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Gweler isod.<br><br>Ydyw - bydd y cynnig yn darparu lleoedd digonol i ddisgyblion presennol yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a hefyd yn darparu lleoedd digonol i ddisgyblion sy'n dod o ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch.<br>Ydyw – gall ddarparu mwy o swyddi yn yr ardal ysgol ehangedig arfaethedig o Langefni.<br>Bydd – mae'r cynnig hefyd yn cynnwys uned Feithrin ar gyfer plant cyn-ysgol. |
| A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? er enghraifft darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – fel gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydyw- Gweler isod.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr ysgol ehangedig.<br>Ydyw – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg mewn clybiau ar ôl ysgol.<br>Ydyw – bydd gwireddu'r cynnig hwn yn darparu Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau Urdd yn parhau yn yr ysgol ehangedig. |

| **3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| | |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | Ydyw – Llywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'r prosiect yn rhannol.<br><br>Oes – mae gan Lywodraeth Cymru ei safonau neu bolisïau iaith Gymraeg ei hun.<br>Ydyw – bydd y cynnig hefyd yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2020 yn y ffyrdd canlynol:<br>**Deilliant 1** – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 2** – Sicrhau bod cynhigion Ysgolion 21ain Ganrif yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Drwy gael Uned Gofal Plant a fydd yn darparu gofal cofleidiol i blant cyn-ysgol, byddai'n darparu sylfaen cadarn i'r plant yno cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd ehangedig. Felly byddai'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o blant saith oed yr addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 uchod.<br>Drwy weithredu'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a thrwy ddosbarthu cynllun moderneiddio ysgolion y Sir, bydd yn helpu i sicrhau bod cynhigion Ysgolion 21ain Ganrif yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant hyd at 11 oed.<br>Mae polisi iaith newydd yr Awdurdod yn cyfeirio at yr amcan i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cwrdd â thargedau Cymraeg fel Iaith Gyntaf o Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu hamser yn yr |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | ysgol. Bwriedir defnyddio model gofal plant fel yr un dan ystyriaeth yn y prosiect hwn i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfranogwr allweddol i uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu gweithgareddau drwy'r Urdd (gweler Asesiad Effaith Cymunedol – Adran 4) a byddai hyn yn parhau yn yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig.

**NODER** – Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn cynnig gwersi Cymraeg i'r gymuned – mae'n debyg iawn bod hyn oherwydd nad oes llawer o alw am wersi Cymraeg yn yr ardal gan fod dros 75% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ysgol gyfleuster i gynnig gwersi Cymraeg a byddai gan yr ysgol gynradd ehangedig ystafell gymunedol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg neu ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 3.5.5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai'r Ysgol y Graig wedi ei hehangu hefyd. Felly ni fydd newid yn y categori iaith os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig.

Byddai gwireddiad y cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018):
**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod yn chwarterol.

### 3.5.6 Effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Yr iaith a siaredir yn y cartref | Siaradwyr Cymraeg rhugl yn y cartref (pob oedran):<br>• Ysgol Talwrn – 18 disgybl neu 40%<br>• Ysgol y Graig – 224 disgybl neu 59%<br>Data (CYBLD Ion 2019) | Niwtral | Pe gwireddid y cynnig, ar sail ffigyrau cyfredol, byddai 57% neu 242 o'r disgyblion yn yr ysgol gynradd ehangedig yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Byddai gwireddu'r cynnig yn rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gyfathrebu â chanran uwch o ddisgyblion (mewn cymhariaeth â'r nifer presennol o ddisgyblion yn y ddwy ysgol). |
| Categori iaith yr ysgolion presennol | Talwrn – Cymraeg<br>Y Graig – Cymraeg<br>**Statws Siarter Iaith Gymraeg**<br>Talwrn - Efydd (2016)<br>Y Graig – Aur (2018) | Cadarnhaol | Addysgir disgyblion y ddwy ysgol yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd datblygu disgyblion dwyieithog yn ffocws parhaol ac arwyddocaol yn y Cynllun Datblygu Ysgol.<br>• Gellir targedu datblygiad anghenion iaith penodol y garfan gyda threfniadau dosbarth.<br>• Wrth dracio disgyblion, bydd eu cynnydd mewn datblygu dwyieithrwydd yn cael ei ystyried.<br>• Bydd adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau'r disgyblion ym mhob carfan iaith.<br>• Cynnydd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol<br>• Cynnydd o ran y Siarter Iaith<br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57% o bobl Môn yn siarad Cymraeg. Mae'r canran wedi lleihau dros y degawdau diwethaf – roedd 62% o bobl Môn yn gallu siarad Cymraeg yn 1981. | Cadarnhaol | Angen hybu defnydd o'r Gymraeg (Asesiad Lles Ynys Môn 2017). Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynorthwyo i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. |

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o’r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae’r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o’r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro’n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br><br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o’r Gymraeg a bydd yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o’r Gymraeg gan ddisgyblion yn ystod oriau ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ar y safle.</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth addysg/ asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (CS, 7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (CA2, 11 oed)</td><td>Cyfnod Sylfaen
<table>
<tr><td colspan="4">Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Deilliant CS 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg</td></tr>
<tr><td>Ysgol</td><td>2015</td><td>2016</td><td>2017</td></tr>
<tr><td>Talwrn</td><td>83.33%</td><td>80.00%</td><td>100.00%</td></tr>
<tr><td>Y Graig</td><td>96.23%</td><td>84.31%</td><td>91.30%</td></tr>
</table>
<table>
<tr><td colspan="4">Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Deilliant CS 6 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg</td></tr>
<tr><td>Ysgol</td><td>2015</td><td>2016</td><td>2017</td></tr>
<tr><td>Talwrn</td><td>16.67%</td><td>30.00%</td><td>50.00%</td></tr>
<tr><td>Y Graig</td><td>32.08%</td><td>39.22%</td><td>41.30%</td></tr>
</table>
</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae’r data gyferbyn yn dangos fod y ddwy ysgol gynradd yn perfformio’n dda o ran yr iaith Gymraeg. Mae holl ddisgyblion y ddwy ysgol yn derbyn eu hasesiadau athrawon yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ni fydd newid felly yn hyn o beth waeth beth fydd yn digwydd. Fodd bynnag, mae lle i wella.<br><br>Gellir gweld o’r data gyferbyn bod y nifer o ddisgyblion sy’n cyflawni’r safon ofynnol ychydig yn uwch yn Ysgol y Graig. Bydd hyn yn arwain at well safonau Cymraeg dan y cynnig.<br><br>Gellid darparu adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion, gan ddarparu arsylwadau ar lythrennedd, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â’u cynnydd tuag at fod yn ddwyieithog.</td></tr>
</table>

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | **Cyfnod Allweddol 2** | | |

| Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Lefel 4 CA2 neu uwch mewn **Cymraeg** iaith gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
| Talwrn | 80.00% | 85.71% | 100.00% |
| Y Graig | 88.10% | 82.22% | 90.24% |

| Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Lefel 5 CA2 neu uwch mewn **Cymraeg** iaith gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
| Talwrn | 0.00% | 14.29% | 44.44% |
| Y Graig | 26.19% | 42.22% | 46.34% |

| Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Lefel 4 CA2 neu uwch mewn **Saesneg** iaith gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
| Talwrn | 80.00% | 85.71% | 100.00% |
| Y Graig | 92.86% | 84.44% | 92.68% |

| Canran o ddisgyblion sy’n cyflawni Lefel 5 CA2 neu uwch mewn **Saesneg** iaith gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol | **2015** | **2016** | **2017** |
| Talwrn | 0.00% | 14.29% | 44.44% |
| Y Graig | 28.57% | 48.89% | 60.98% |

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol | Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol yw dwyieithog. | Niwtral | Ni fydd hyn yn newid yn yr ysgol arfaethedig ehangedig. Gellir gwella hyn drwy ddarparu mwy o le i chwarae a thrwy gynllunio chwarae strwythuredig ar yr iard.<br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r iaith gan ddisgyblion. |
| Ymglymiad yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg | Mae'r ddwy ysgol wedi'u hymrwymo mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. | Niwtral | Ni fydd hyn yn newid yn yr ysgol arfaethedig ehangedig.<br>Gweler gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau a gynhelir yn y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith Cymunedol isod. |
| Gallu staff addysgu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | **Talwrn**: Bob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg<br>**Y Graig**: Bob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg | Niwtral | Mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw newid yn statws ieithyddol y ddarpariaeth newydd. |
| Gallu Llywodraethwyr i siarad Cymraeg | **Talwrn**: 91% o Lywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (10 allan o 11)<br>**Y Graig**: Bob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (14 allan o 14) | Niwtral | Mae'r ddwy set o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg felly ni fydd newid yn natur ieithyddol y Llywodraethwyr os gwireddir y cynnig. |
| | Effaith gyfunol ar yr iaith Gymraeg | **+3 Cadarnhaol** | |

**Casgliad – byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.**

## 4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig "i ehangu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn ac yn Ysgol y Graig dros y 5 mlynedd ddiwethaf a rhagolygon niferoedd disgyblion am y 5 mlynedd nesaf:

### 4.1 Niferoedd disgyblion yn y gorffennol

| Ysgol | Capasiti- heb gynnwys y Meithrin | Niferoedd Disgyblion ym mis Ionawr | | | | | % llefydd gweigion Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | |
| Talwrn | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 | 8% |
| Y Graig | 330 | 333 | 333 | 335 | 326 | 339 | -3%* |

*Dros gapasiti

### 4.2 Rhagolygon Pum Mlynedd

| **Ysgol** | **Capasiti- heb gynnwys y Meithrin** | **Nifer o ddisgyblion Medi 2019** | **Rhagolygon niferoedd ar y gofrestr ym Medi:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** |
| Talwrn | 49 | 40 | 47 | 46 | 41 | 39 | 37 |
| Y Graig | 330 | 324 | 329 | 331 | 326 | 320 | 334 |

Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd niferoedd Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37, sef gostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod, rhagwelir y bydd niferoedd Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sef 3% o gynnydd. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd niferoedd yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.

Yn ogystal, mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a'r plant oedran ysgol cynradd fydd yn deillio o hyn. Dangosir niferoedd y plant oed cynradd fydd yn deillio o'r datblygiadau hyn yn y tabl isod:

| Ysgol | Nifer o ddatblygiadau tai yn y dalgylch hyd at 2026 | Nifer cyfatebol o blant* |
|---|---|---|
| Talwrn | 6 | 1 - 2 |
| Y Graig | 397 | 67 - 143 |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu fod gan bob cartref ym Môn gyfartaledd o 0.17 o blant oed cynradd. Drwy luosi'r nifer o ddatblygiadau tai â 0.17, ceir amcangyfrif o'r nifer o blant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Er hynny, yn ward Tudur, mae cyfartaledd o 0.36 o blant oed cynradd ym mhob tŷ a gall hyn arwain at cyfanswm o 143 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Bydd y datblygiadau tai yn cael eu adeiladu o 2019 tan 2027 fesul cam (phase) a felly fydd y disgyblion yn cael eu hychwanegu i'r ysgol fesul ychydig dros gyfnod o 8 mlynedd. Os gwireddir y cynnig, bydd yn golygu mai rhagolwg nifer y disgyblion yn yr ysgol ehangedig newydd rhwng 400 a 438. Felly, mae'r capasiti arfaethedig newydd yn darparu digon o le ar gyfer plant sy'n deillio o'r datblygiadau tai

arfaethedig yn yr ardal. O ganlyniad, mae'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol i 480 yn realistig ac yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Fuddsoddi Ysgolion 21ain Ganrif.

**4.3 Y Ddarpariaeth cyn ysgol**

Mae sawl darparwr gofal plant ger Ysgol y Graig:

- **Darpariaeth Dechrau'n Deg.** Yn rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant dan 4 oed. Mae'n anelu at ddarparu gwasanaethau cefnogaeth ddwys i blant 0-4 oed a'u teuluoedd. Ffocws y rhaglen yw hyrwyddo sgiliau iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion dwys yn fuan. Gwneir hyn drwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad iechyd, cefnogaeth a grwpiau rhieniol, cefnogaeth iaith a chyfathrebu a gofal plant rhan amser o ansawdd i blant 2-3 oed. Tîm aml-ddisgyblaethol yw Dechrau'n Deg sy'n cynnwys Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Teulu, Staff Gofal Plant, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athrawon Blynyddoedd Cynnar, Cymorthyddion Iechyd a thîm o staff cefnogi.

  Canolfan Integredig yw Canolfan Plant Llangefni sy'n gartref i'r darpariaethau canlynol:
  - Swyddfa **Mudiad Meithrin** Gogledd Cymru.
  - **Meithrinfa Medra**. Mae'r feithrinfa ddydd hon yn cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i fabanod a phlant hyd at oed ysgol, dan ofal staff cymwysedig a phrofiadol.
  - Sefydliad elusennol nas gynhelir yw **Cylch Meithrin Stryd y Bont** a redir drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'i comisiynir ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar am 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Fe'i lleolir yng Nghanolfan Plant Llangefni. Ei gapasiti yw 24 ac roedd 18 o blant yn defnyddio'r cyfleuster ym Medi 2019.

Cofrestrir Ysgol y Graig ar gyfer plant 3-11 oed ac mae'n darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 24 fesul sesiwn ond ym Medi 2019, roedd 50 o blant yn defnyddio'r cyfleuster.

Nid oes darpariaeth feithrin yn Ysgol Talwrn. Derbynnir plant i'r ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Fodd bynnag, cynhelir sesiynau o ddarpariaeth gofal dydd (Cylch Meithrin) yn y Neuadd Bentref am 4 bore'r wythnos. Ei gapasiti yw 16 ac roedd 5 o blant yn defnyddio'r cyfleuster ym Medi 2019.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth ym Meithrinfa Medra a Chylch Meithrin Stryd y Bont yn parhau os gwireddir y cynnig. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg hefyd yn parhau ynghyd â'r ddarpariaeth feithrin yn Neuadd Bentref Talwrn.

Fel y nodir eisoes yn adran 1 a 2, y nifer o leoedd meithrin yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd fyddai 68. Y rhagolygon ar gyfer darpariaeth feithrin i blant 3-4 oed yn Ysgol y Graig yw fel a ganlyn:

| **Meithrin** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Graig | 50 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 |

Byddai'r ddarpariaeth feithrin (capasiti o 68) yn yr Ysgol y Graig ehangedig yn ddigonol ar gyfer rhagolygon o'r niferoedd o blant a fyddai'n defnyddio'r cyfleuster.

### 4.4 Gwybodaeth ynglŷn â'r ysgolion

**Ysgol Talwrn** (Talwrn, Ynys Môn LL77 7TG)
Adeiladwyd yr ysgol yn 1880 ac ail-fodelwyd hi yn 1965. Adeilad unllawr ydyw gyda tho ar oleddf yn darparu ar gyfer 3 dosbarth sy'n cynnwys caban symudol. Yn ychwanegol, ceir swyddfa ar gyfer y pennaeth a neuadd. Mae capasiti'r ysgol ar gyfer 49 o blant 4-11 oed. Mae gan yr ysgol fan chwarae caled a defnyddir cae chwarae ger neuadd y pentref.

Ym mis Hydref 2019:
Roedd gan Ysgol Talwrn 14% o lefydd gweigion, er fod 17% o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, a bod 31% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

**Ysgol y Graig** (Lon Talwrn, Llangefni, Ynys Môn LL77 7LP)
Agorwyd yr ysgol yn 2008 ac adeilad unllawr gyda tho ar oleddf ydyw gyda tho bywlys. Ceir un ar ddeg o ddosbarthiadau yn yr adeilad a defnyddir 2 ystafell arall hefyd fel dosbarthiadau. Mae gan y neuadd / ystafell fwyta arwynebedd o 196$m^2$ a cheir ystafelloedd ar wahân ar gyfer y Pennaeth a'r staff. Ceir man chwarae caled a man chwarae ar y safle.

Mae ffigyrau Gorffennaf 2019 yn dangos bod 30 o ddisgyblion neu 9% yn dod o du allan i'r dalgylch. Golyga hyn bod 91% o ddisgyblion Ysgol y Graig yn byw yn y dalgylch.

### 4.5 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion

Cafwyd manylion o gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Darparodd Cyngor Cymunedol Llanddyfnan hefyd fanylion ynglŷn â gweithgareddau lleol a gynhelir.

#### 4.5.1 Gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:

| Gweithgaredd Ysgol Talwrn | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder – fesul blwyddyn academaidd |
|---|---|---|
| Yr Urdd | Tymor | 20 |
| Clwb pêl-droed ar ôl ysgol | Tymor | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Hydref, ar ôl ysgol |
| Clwb Pêl-rwyd | Tymor | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Haf, ar ôl ysgol |
| Clwb STEM | Term | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn, ar ôl ysgol |
| Aelodau o'r gymuned yn darllen â disgyblion | Tymor | 2 awr yr wythnos |

| Gweithgaredd Ysgol y Graig | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder – fesul blwyddyn academaidd |
|---|---|---|
| Clwb Celf | Tymor | 30 |
| Clwb Pêl-droed (Merched) | Tymor | 20 |
| Clwb Pêl-droed | Tymor | 20 |
| Clwb Rygbi | Tymor | 20 |
| Golff | Tymor | 10 |
| Badminton | Tymor | 10 |
| Yr Urdd | Tymor | 20 |

#### 4.5.2 Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a ddefnyddir gan grwpiau lleol:

| Ysgol Talwrn<br>Defnyddiwr a chyfleuster | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder – fesul blwyddyn academaidd |
|---|---|---|
| Guides | | 9 |
| Clwb Cinio Pensiynwyr | | 15 |
| Hyfforddiant Cyfrifiadurol Pensiynwyr | | 8 |

| Ysgol y Graig<br>Defnyddiwr a chyfleuster | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder – fesul blwyddyn academaidd |
|---|---|---|
| Clwb Yoga Dydd Llun | Tymor | 34 |
| Clwb Yoga Dydd Mercher | Tymor | 34 |
| Clwb Judo | Tymor | 34 |
| Eisteddfod Môn (Offerynnol) | Tymor | 1 |
| Pwyllgor yr Urdd (Dalgylch Cefni) | Tymor | 3 |
| Côr Ieuenctid Môn | Tymor | 2 |

#### 4.5.3 Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:

| Ysgol Talwrn<br>Gwasanaeth | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Neuadd Bentref Talwrn – Disco Santes Dwynwen | Tymor | 1 |
| Capel Talwrn | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – ymarfer Eisteddfod | Gwyliau | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Eisteddfod Talwrn | Gwyliau | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Ffair Nadolig (Brecwast gyda Siôn Corn) | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Cyngerdd Nadolig | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – cylch Meithrin – Ffair Nadolig | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – gweithgareddau ar y cyd rhwng yr Ysgol a'r Cylch Meithrin | Tymor | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Plas Arthur – Canolfan Hamdden | Tymor | Bob wythnos yn ystod yr Hydref a'r Gwanwyn |
| Clwb Gymnasteg | Tymor | Defnydd wythnosol |
| Oriel Môn | Tymor | 3 |

| Ysgol y Graig<br><br>Gwasanaeth | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Plas Arthur (Canolfan Hamdden)- Nofio | Tymor | 30 |
| Plas Arthur (Canolfan Hamdden)- Cystadlaethau nofio a chwaraeon | Tymor | 10 |
| Clwb Rygbi Llangefni | Tymor | 2 |
| Clwb Pêl-droed Llangefni | Tymor | 1 |
| Oriel Môn | Tymor | 10 |
| Llyfrgell Llangefni | Tymor | 10 |
| Capel Moreia Llangefni | Tymor | 2 |
| Capel St Cyngar Llangefni | Tymor | 1 |
| Archifau Llangefni | Tymor | 2 |

**4.5.4 Cyfleusterau cymunedol wedi eu lleoli ger Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig (gan gynnwys busnesau preifat).**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Talwrn | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Siop Bodeilio | Dwyieithog | |
| Cylch Meithrin Talwrn | Cymraeg | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol y Graig | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Becws Mefus | Dwyieithog | |
| Cae chwarae | | |
| Capel | Dwyieithog | |
| Capel Lôn y Felin | Cymraeg | |
| Canolfan Gymuned Ebeneser | Dwyieithog | |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Dechrau'n Deg | Dwyieithog | |
| Meithrinfa Medra | Dwyieithog | |
| Coleg Menai (FE) | Dwyieithog | |

**4.5.6 Gweithgareddau cymuned sydd ar gael ger Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Talwrn | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Eisteddfod y Talwrn | Cymraeg | |
| Clwb Gymnasteg | Dwyieithog | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol y Graig | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Merched y wawr | Cymraeg | |
| Slimming World | Dwyieithog | |
| Karate | Dwyieithog | |
| Clwb Rygbi | Dwyieithog | |
| Clwb Pêl-droed | Dwyieithog | |
| Undeb y Merched | Dwyieithog | |
| Dechrau'n Deg (Hyfforddiant rhianta) | Dwyieithog | |

**4.5.7 Gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| Ysgol Talwrn | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb gwarchod boreol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |

| Ysgol y Graig | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb gwarchod boreol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb brecwast | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb ar ôl ysgol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb ar ôl ysgol | Cymraeg | Ydy | Adeilad Dechrau'n Deg | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |

Os awdurdodir y cynnig, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn cefnogi ac yn ymgysylltu â Ysgol y Graig ehangedig. Ni fyddai'r disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim

(Ysgol Talwrn 18% ac Ysgol y Graig 27%) yn cael eu trin yn wahanol i'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol yn yr ysgol ehangedig megis y rhai a nodwyd eisoes.

Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r ysgol gynradd ehangedig yn Ysgol Gymuned ac felly'n cynnwys neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ystafell gyfarfod gymunedol. Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r rhan fwyaf os nad pob cyfleuster a gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol y Graig yn gallu cael eu darparu gan yr ysgol gynradd ehangedig.

#### 4.5.8 Gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn lleol yn Nhalwrn

Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan hefyd wedi darparu manylion o weithgareddau a gynhelir yn lleol, a chyfleusterau a ddefnyddir yn lleol:

| Gweithgaredd | Lleoliad |
|---|---|
| Neuadd y Pentref | Neuadd y Pentref |
| Cae chwarae | Cae chwarae |
| Siop y Pentref | Siop y Pentref |
| Merched y Wawr | Neuadd y Pentref |
| Eisteddfod Talwrn | Ysgol Talwrn |
| Guides | Ysgol Talwrn |
| Ysgol Feithrin | Neuadd y Pentref |
| Bingo | Neuadd y Pentref |
| Chwist | Neuadd y Pentref |
| Capel y Methodistiaid | Capel y Methodistiaid |
| Capel yr Annibynwyr | Capel yr Annibynwyr |
| Eglwys Llanffinan | Eglwys Llanffinan |
| Cyfarfodydd Archeolegol | Neuadd y Pentref |

### 4.6 Pellter ac amser teithio

Pe awdurdodir y cynnig, byddai'n golygu mwy o bellter teithio i rai disgyblion. Ar sail y nifer presennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Talwrn (Mehefin 2019), byddai 33% yn teithio llai i'r safle ysgol arfaethedig a 67% yn gorfod teithio ymhellach. Gan y barnir bod y llwybr rhwng Talwrn a Llangefni ar hyd y B5109 yn ffordd beryglus, byddai'r Awdurdod yn darparu cludiant i'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Talwrn, sy'n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.

Ym mis Gorffennaf 2019, roedd 20 o ddisgyblion neu 53% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i'r dalgylch. Mae ffigyrau mis Gorffennaf 2019 yn dangos bod 30 o ddisgyblion neu 9% yn Ysgol y Graig yn dod o du allan i'r dalgylch.

Gan y cynhigir y bydd y bloc ysgol newydd (estyniad) yn cael ei leoli llai na milltir oddi wrth adeilad yr ysgol bresennol, bydd disgyblion o'r ysgol yn parhau i allu cerdded i'r bloc cyfnod sylfaen newydd. Mae Asesiad Effaith Traffig ar effaith y bloc arfaethedig newydd ar drefniadau teithio staff a disgyblion wedi ei baratoi.

Oni bai am drafnidiaeth ychwanegol o Dalwrn i'r Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig, nid yw'n debygol o gwbl y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus.

Noda Llywodraeth Cymru na ddylai plant oed cynradd orfod teithio am fwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy oddi wrth yr ysgol sydd yn y dalgylch y maent yn byw ynddi. Mae'r un polisi hefyd yn nodi "na ddarperir cludiant i blant meithrin rhan amser."

**4.7 Asesiad Effaith Cymunedol**

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch | Disgyblion o du allan i'r dalgylch:<br>• Ysgol Talwrn – 20 disgybl neu 53%<br>• Ysgol y Graig – 30 disgybl neu 9%<br>(Data Medi 2018) | Cadarnhaol | Os gwireddir y cynnig, mae'n debyg y byddai dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn cael eu cyfuno. Yn ôl ffigyrau presennol, golyga hyn y byddai llai o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd ehangedig yn dod o du allan i'w dalgylchoedd. |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Mae'r ddwy ysgol yn darparu nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau. Rhagwelir y bydd defnydd cymunedol o'r ysgol arfaethedig ehangedig. | Niwtral | Gan y byddai Ysgol y Graig yn cael ei hehangu i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o Ysgol y Graig yn parhau i gael eu darparu yn yr Ysgol y Graig wedi ei ehangu.<br>Gellir cynnal gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan Ysgol Talwrn yn neuadd bentref Talwrn fel opsiwn arall. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | Defnyddir capel neu eglwys leol gan y ddwy ysgol ac os byddai'r ysgol ehangedig yn cael ei hadeiladu, byddai ei chynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r addoldai hynny. | Niwtral | Os yw Ysgol Talwrn yn cau, efallai bydd cyfle i'r gymuned (Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a hyfforddiant cyfrifiadurol i bensiynwyr) ddefnyddio neuadd bentref Talwrn fel opsiwn arall. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan mai ysgolion cymunedol yw Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, mae'r gymuned yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o adeiladau a thir yr ysgolion. | Niwtral | Gan y bydd Ysgol y Graig yn cael ei hehangu, bydd cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol yn cael eu darparu yn yr ysgol gynradd ehangedig.<br>Gellir ymgymryd â chyfleusterau cymuned a ddarperir gan yr ysgol yn Nhalwrn yn yr Ysgol y Graig ehangedig, neu o safleoedd eraill yn Nhalwrn megis neuadd y dref neu eglwys Talwrn. |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant + cyhoedd | Os cymeradwyir y cynnig, bydd rhaid trefnu cludiant i'r ysgol gynradd ehangedig gydag arian yr Awdurdod. | Negyddol | Os gwireddir y cynnig, trefnir cludiant i'r ysgol gynradd ehangedig gan yr Awdurdod. |

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Mae’n annhebygol iawn y byddai’r cynnig yn cael effaith ar gludiant gyhoeddus. | | |
| Arall<br>Effaith ar y gymuned | Gall cau Ysgol Talwrn gael effaith ar ba mor ddeniadol yw’r ardal leol i ddarpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â phlant neu sy’n bwriadu cael plant. Ar y llaw arall, gall rai trigolion lleol ystyried cau neu adleoli ysgol oddi wrth ardal i fod yn beth defnyddiol a gall yr ardal fod yn fwy deniadol i brynwyr tai sy’n edrych am ardal fwy tawel. Fodd bynnag, cydnabyddir y posibilrwydd o newid yng nghyfansoddiad preswylwyr dros amser. | Niwtral | Mae gan Dalwrn siop a redir gan y gymuned (Siop Bodeilio), neuadd bentref a chapel ar gael i’r holl breswylwyr lleol. |
| | Effaith gyfunol ar y gymuned | **Niwtral** | |

Tudalen 228

**Casgliad – Byddai’r cynnig i weld yn cael effaith niwtral ar y gymuned.**

## 5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredinol cyfreithiol-rwym o saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio a ddylunnir i gefnogi a dosbarthu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

### 5.1 Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio?

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | | |
|  | Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i gwrdd ag anghenion hirdymor. | Sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad ysgol yn ffit i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. |
| **Atal** | | |
|  | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag mynd yn waeth gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u nod. | Diogelu dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal. |
| **Integreiddio** | | |
|  | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Mae integreiddio cymuned yn ffocws i bob ysgol newydd sy'n creu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae darparu lleoedd digonol yn sicrhau y gellir dosbarthu'r cwricwlwm ac mae'n cwrdd ag amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | | |
|  | Cydweithio ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant. | Cynyddu cydweithrediad rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn cael ei dosbarthu'n barhaus i bob disgybl. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltiad ac ymglymiad dwys â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn ymwneud â chydweithredu â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol ag ysgolion, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn cwrdd ag anghenion tymor byr a dyfodol y defnyddwyr a'r gymuned y byddai'n gweini arnynt. |
| **Ymglymiad** | | |
|  | Pwysigrwydd ymglymu pobl sydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gweini. | Mae'r cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi ymglymiad rhanddeiliaid yn y cynnig. |

**5.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) byddwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau mwy hydwyth, ymgysylltu â'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol a chynnwys ein cymunedau yn y cynllunio hirdymor. Drwy ddilyn y fath broses, anelwn at alluogi cyflenwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau yn ôl yr angen, i annog rhannu adnoddau ac i arwain at wariant mwy effeithlon yn yr hirdymor.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Fel dilyniant i'r asesiad llesiant a gynhaliwyd, mae cynllun llesiant wedi'i ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y cynllun.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir bydd y cynnig i
**Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn** yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Llewyrchus | Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig yn ffit i bwrpas ac yn sicrhau y gwireddir capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo. |
| Cyfartal | Mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i fwyhau gwerth pob ceiniog a waria'r Awdurdod Lleol, a gellir gwireddu hyn â buddion cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori buddion cymunedol ym mhob prosiect gan gynnwys y prosiect i ehangu Ysgol y Graig os y'i cymeradwyir. Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal gwaeth beth yw gallu a chefndir disgybl. |
| Cydnerth | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd â siroedd eraill Gogledd Cymru ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Seilir y polisi ar egwyddorion cenedlaethol dros ymgysylltiad cyhoeddus.<br>Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd proses ymgynghori statudol yn cael ei chynnal i gasglu barn y rhanddeiliaid. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gellir sefydlu grŵp o randdeiliaid er mwyn cynnal gwaith ar y cyd gyda'r Awdurdod.<br>Bydd hefyd cyfleoedd i blant gael cyfrannu at y broses.<br>Yn ogystal â hyn, os gwireddir y cynnig, bydd y Corff Llywodraethu'n datblygu cyllideb a strwythur staffio'r ysgol ehangedig arfaethedig. Bydd hefyd yn penderfynu sut i ddarparu addysg i'r holl ddisgyblion a bydd yn gwneud yr ysgol yn fwy gwydn i newidiadau yn nhrosiannau staff yn y dyfodol.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig osodiadau effeithlonrwydd dŵr. Bydd yr estyniad arfaethedig ar Ysgol y Graig yn ystyried cyfleoedd tyfu bwyd sy'n cefnogi meysydd ar gyfer bywyd gwyllt ac sy'n hygyrch i bob disgybl, a bydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi mentrau ecogyfeillgar megis eco-ysgolion. |

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Iachach | Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol sy'n rhan o'r asesiad hwn yn cadarnhau bod yr ysgolion sy'n bodoli eisoes yn Nhalwrn a'r Graig yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br>Yn ogystal â hyn, defnyddir yr ysgol arfaethedig ehangedig sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu o ganlyniad i'r rhaglen moderneiddio ysgolion fel hwb cymunedol sy'n hybu cymunedau iachach e.e. drwy gynnig gweithgareddau chwaraeon i aelodau o'r gymuned. Bydd yr Awdurdod yn ymgeisio i'w gwneud mor hawdd â phosib i gyrraedd yr ysgol drwy gerdded neu feicio. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, bydd gan randdeiliaid gyfle i leisio'u barn ac i gynnig sylwadau ar y cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn."<br>Bydd yr Ysgol y Graig ehangedig yn cyfrannu at isadeiledd cymunedol yr ardal. Mae gan y cynnig botensial i ffurfio cymuned newydd o amgylch Talwrn a dalgylch Ysgol y Graig. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Amgaeir yr Asesiad Effaith Iaith. Mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir. Mae perfformiad Cymraeg y disgyblion yn y ddwy ysgol h.y. y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r safon ofynnol yn dda yn y ddwy ysgol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Alinir y rhaglen moderneiddio ysgolion a phrosiectau cysylltiedig â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Golyga hyn bod rhanddeiliaid yn deall sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cynorthwyo i gyflawni nodau busnes, amcanion strategol a chynlluniau'r Awdurdod.<br>Bydd gwelliannau i'n hysgolion yn arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni e.e. drwy gynhyrchu trydan gyda phaneli ffotofoltaidd. Bydd hyn hefyd yn arwain at leihad yng nghynhyrchiad carbon deuocsid ac yn cynorthwyo i addysgu'r disgyblion ar sut i ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth. |

**6. CASGLIAD**

Aseswyd y cynnig ar ei effaith bosib ar:

- Gydraddoldeb
- Iaith h.y. yr iaith Gymraeg
- Cymuned

Roedd yr effaith a geir ar bob rhan fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith:** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | +2 Cadarnhaol |
| Iaith | +3 Cadarnhaol |
| Cymuned | Niwtral |

Ar ôl ystyried y cynnig (cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn) o ran ei effaith bosib ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol.

Dangosa'r ddogfen yn Adran 5 sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd neu eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |